

SEFYLLFA BYD NATUR A CHYNLLUN GWEITHREDU
ADFER NATUR AR GYFER
CASTELL-NEDD PORT TALBOT
2023



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BARTNERIAETH NATUR LEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT



CONTENTS

CYFLWYNIAD.....1

NPT LOCAL NATURE PARTNERSHIP.....2

FEATURES OF LANDSCAPE AND GEOLOGY OF NPT.....3

HABITAT CLASSIFICATION IN NPT.....4

PRIORITY SPECIES IN NPT.....5

NPT NATURE RECOVERY ACTION PLAN.....7

PHASE 1 HABITAT MAP OF NPT8

HABITAT SUMMARIES.....9

...WOODLAND.....10

...HEATHLAND AND MOORLAND.....18

...SEMI-NATURAL GRASSLANDS.....26

...OPEN MOSAIC HABITATS.....34

...ENCLOSED FARMLAND.....42

...URBAN.....49

...FRESHWATER.....57

...WETLAND.....65

...INLAND ROCK AND CLIFF.....73

...COASTAL.....80

...MARINE.....88

...ACTIONS FOR ALL HABITATS.....94

INVASIVE NON-NATIVE SPECIES IN NPT.....95

HOW CAN YOU HELP?.....104

...AT SCHOOL.....106

...AT WORK.....107

...IN THE COMMUNITY.....108

...IN THE GARDEN.....109

SPECIAL SITES IN NPT.....111

REVIEWING THIS DOCUMENT.....130

APPENDICES.....130



CRYNODEB GWEITHREDOL

Datgelodd adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019 (Crynodeb i Gymru) rai ystadegau difrifol, gan gynnwys tystiolaeth fod 41% o rywogaethau wedi prnhau yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, gydag 17% o rywogaethau Cymru bellach yn wynebu perygl difodiant. Er mwyn deall y tueddiadau a'r pwysau yn lleol, a llywio camau gweithredu i hybu adferiad, mae Partneriaeth Natur Leol Castell-nedd Port Talbot (PNL CNPT) wedi cynnal asesiad o Sefyllfa Byd Natur yn y sir, yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Adfer Natur.

I wneud hyn, defnyddiwyd dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth, gan fanteisio ar gronfa ddata fawr o gofnodion rhywogaethau a chynefinoedd a map cynefinoedd Cam 1 manwl a luniwyd ar sail delweddau tirwedd cyfredol (2021). Roedd hyn yn fodd i ni asesu cadernid ym mhob categori o gynefinoedd cyffredinol yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) a bu hynny, yn ei dro, yn llywio'r asesiadau Sefyllfa Byd Natur.

O'r 11 categori o gynefinoedd cyffredinol, aseswyd nad yw naw ohonynt yn cyrraedd cyflwr da, ac aseswyd bod pump ohonynt mewn cyflwr gwael. Aseswyd bod y Cynefinoedd Coetir a Mosaigau Agored yn y sir yn dda, gyda'r cafeat bod rhywogaethau anffrodorol ymledol yn broblem yn y ddau gategori a bod llawer o Gynefinoedd Mosaig Agored yn wynebu bygythiad datblygu.

Mae gofyn gweithredu ar frys i wella cadernid bioamrywiaeth CNPT, yn arbennig yn y cynefinoedd arfordirol, y rhostiroedd a'r gweundiroedd a'r glaswelltir lled-naturiol. Mewn sawl achos ac ar bob graddfa, bydd hyn yn galw am newid agwedd at fioamrywiaeth yn sylweddol a mabwysiadu'r cyfrifoldeb torfol sy'n angenrheidiol er mwyn adfer ein cynefinoedd a'n rhywogaethau. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sefyllfa byd natur yn ardal CNPT ar hyn o bryd, y gweithgareddau sydd eisoes ar waith, a'r camau y bydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau amgylchedd naturiol cydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



CYFLWYNIAD

Yn 2001, lansiodd Fforwm Bioamrywiaeth CNPT (a adwaenir bellach fel Partneriaeth Natur Leol CNPT) ei Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer 2001-2005, a oedd yn cynnwys manylion a chynlluniau gweithredu ar gyfer 80 o rywogaethau a 15 o gynefinoedd. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a gynhyrchwyd yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig bryd hynny, ychydig iawn o'r targedau a gyflawnwyd ac yn y degawdau ers hynny, nid yw bioamrywiaeth wedi ffynnu ar lefel ranbarthol na chenedlaethol. Mewn gwirionedd, mae llawer o boblogaethau bywyd gwyllt pwysig a'u cynefinoedd wedi dioddef colledion sylweddol. Eto i gyd, mae amrywiaeth o gynefinoedd â blaenoriaeth i'w canfod o hyd yn CNPT, gan gynnwys 17 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae'r sir gyfan yn cynnwys nifer sylweddol o rywogaethau Adran 7 a rhywogaethau eraill â blaenoriaeth ac iddynt werth lleol a chenedlaethol.

Mae'r adnoddau gwerthfawr hyn, sy'n mynd yn brinnach, yn haeddu ein sylw ac er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa, gwelwyd newid sylweddol yn y gwaith cofnodi bywyd gwyllt yn ardal CNPT yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Bu hyn o gymorth i ddatblygu cronfa ddata fawr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd, yn ei thro, wedi caniatáu i ni ddeall yr enillion a'r colledion o ran bioamrywiaeth yn ardal CNPT. Dangosir rhai o'r uchafbwyntiau o ran bywyd gwyllt y sir yn Ffigur 1.

Ar yr adeg hon, mae angen i ni ddeall pa mor dda neu pa mor wael y mae natur yn ymdopi yn CNPT er mwyn i ni allu amddiffyn yr amgylchedd naturiol, cadw ein mannau gwyllt a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Asesu cyflwr byd natur yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau amgylchedd iach, cynaliadwy, a lle i fyw a fydd yn ein hysbrydoli ni a chenedlaethau'r dyfodol yn CNPT. Mae'r camau gweithredu a awgrymir yn y ddogfen hon yn dangos y ffordd i gyflawni hynny; ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

UCHAFBWYNTIAU NATUR CASTELL-NEDD PORT TALBOT

·Yr unig boblogaethau o
Gorr yn Rafft y Ffen, Gorf anadl
y Gwalchlys a'r Chwilen
Ddaear Las yng Nghymru



70
o rywogaethau
Adran 7

17 Safle o Ddiddordeb
Gwyddonol
Arbennig (SoDdGA)

Un o'r safleoedd ystumod
gorau yng Nghymru, mae Parc
Margam yn cynnal 14
rhywogaeth o ystumod



Metaboblogaeth fawr o
Fritheg y Gors, sydd mewn
perygl



21 brîd o adar ar
restr goch y
Deyrnas Unedig
yn CNPT



950
hectar o dir
a warchodir



Un o bum ardal yn unig yn y
Deyrnas Unedig sy'n cynnal y
Gardwenynen Feinlais,
rhywogaeth sy'n destun pryder
cadwraeth



Poblogaethau cadarn o blanhigion sy'n brin neu o dan
fygythiad, megis Penigan y Porfeydd, Murwyll Arfor a
Brenhinllys y Maes.

Ffigur 1: Rhai o uchafbwyntiau natur CNPT

PARTNERIAETH NATUR LEOL CNPT

Mae Partneriaeth Natur Leol CNPT (PNL CNPT) yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau ynghyd ag unigolion sydd â diddordeb mewn bywyd gwyllt a rheoli tiroedd yn lleol. Mae'r aelodaeth yn agored i unrhyw sydd â diddordeb gwirioneddol mewn bioamrywiaeth a chadwraeth bywyd gwyllt yn ardal CNPT. Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt yr Awdurdod Lleol sy'n darparu'r gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ac mae gan y bartneriaeth gadeirydd annibynnol.

Cyflawnwn ein nodau trwy greu partneriaethau rhwng pobl sy'n amddiffyn natur ac yn gofalu amdani yn CNPT, casglu gwybodaeth am gadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd yn CNPT, cefnogi datblygiad prosiectau sy'n cyfrannu at nodau'r Bartneriaeth, datblygu prosiectau newydd sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau lleol a chynghori ar sefyllfa byd natur ac adfer natur yn yr ardal. Lle bynnag y bo modd, defnyddiwn ddull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth i hwyluso'r gwaith hwn trwy ein presenoldeb mewn grwpiau llywio strategol a thrwy gynnig cyngor i gynghorau cymuned.

PNL CNPT sy'n gyfrifol am yr asesiad o Sefyllfa Byd Natur yng Nghastell-nedd Port Talbot, a gaiff ei adolygu bob pum mlynedd. Adolygir y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Adfer Natur bob blwyddyn yng nghyfarfod y bartneriaeth yn y gwanwyn.

NODAU PARTNERIAETH NATUR LEOL CNPT

- Amddiffyn cynefinoedd presennol, adfer cyn-gynefinoedd a chreu cynefinoedd newydd lle bydd hynny'n briodol.
- Atal colli bioamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot a gwella cadernid cynefinoedd ac ecosystemau.
- Addysgu pobl am bwysigrwydd cynefinoedd bywyd gwyllt a chadw'r fflora a'r ffawna a geir ynddynt.
- Dylanwadu ac annog gweithgareddau sy'n fwy sensitif i anghenion bioamrywiaeth leol.
- Cynghori ar gamau gweithredu priodol a fydd yn cadw, yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot.

RHAI O'N PARTNERIAID

Ceir rhestr lawn o bartneriaid yn yr Atodiad 1



NODWEDDION TIRWEDD A DAEAREG CNPT

Nodweddir CNPT gan: (i) ardal arfordirol i'r gorllewin o draffordd yr M4 sy'n ymestyn ar hyd ochr ddwyreiniol Bae Abertawe o Dwyni Crymlyn i geg afon Cynffig, (ii) dyffrynnoedd y 3 prif afon, sef afonydd Nedd, Afan a rhan uchaf afon Tawe, a (iii) tirwedd ucheldir helaeth sy'n codi i 660m yng Nghraig y Llyn, y man uchaf yn y sir. Nodwedd ganolog y sir yw Bro Nedd sydd, yn gyfleus iawn, yn rhannu'r sir yn sector y gogledd a sector y de:

- Mae sector y de yn goediog iawn gyda choedwigoedd conifferau ond mae hefyd yn cynnwys darnau helaeth o goetiroedd collddail megis y rhai rhwng Llansawel a Baglan. Mae'r rhan fwyaf o nodweddion naturiol y llain arfordirol, a fu ar un adeg yn cynnwys twyni a gwlyptiroedd dilychwin, wedi newid yn sgîl datblygu diwydiannol. Ger Resolfen, caiff llethr ogledd-orllewinol Bro Nedd ei draenio gan nentydd pwysig, megis Nant Melin-cwrt, y mae ei dyffrynnoedd yn cynnal casgliadau sylweddol o blanhigion sy'n tyfu ar dir is. Cafodd darnau helaeth o Gwm Afan rhwng Pontrhydyfen ac Abergwynfi eu cloddio am lo cyn cael eu coedwigo â chonifferau.
- Mae sector y gogledd yn wledig i raddau helaeth ac yn cynnwys cymoedd Clydach, Dulais a rhan uchaf cwm Tawe. Mae'n cynnwys planigfeydd conifferau mawr yng Nghreunant a Rheola a nifer o goetiroedd hynafol, megis Maesmelyn a Choed Dyffryn, Craig Gwladus, Coed Tyn yr Heol a Chwm Du. Mae dyffrynnoedd rhaedrau Pyrddin a rhan isaf afon Nedd Fechan ar hyd y ffin rhwng CNPT a Phowys yn rhan o'r Fforest Law Geltaidd a choetiroedd lwerydd, sef yr ecosystemau o bwys rhyngwladol sy'n diffinio blaenau nentydd Afon Nedd. Rhostiroedd a gweundiroedd yw nodwedd amlycaf tirwedd sector y gogledd ac mae'r rhan fwyaf o diroedd comin y sir a'i glaswelltiroedd corsiog llawn rhywogaethau i'w canfod yma.








Figure 2: NPT can be split into Northern and Southern Sectors

Meysydd glo De Cymru yw nodwedd amlycaf daeareg CNPT. Tywodfaen yw ei brigiadau amlycaf, megis Craig y Llyn. Ni cheir braidd dim brigiadau calchaid yn CNPT ond mae rhywfaint o galchfaen carbonifferaidd ger Rhyd y Fro. Gwelir creigiau cyfres Grut Melinfaen yn nyffrynnoedd rhaedrau afonydd Nedd Fechan a Phyrddin ger Sir Frycheiniog.



DOSBARTHU CYNEFINOEDD YN CNPT

Dosbarthwyd y cynefinoedd yn ardal CNPT yn 11 o gategoriâu cyffredinol a rhannwyd pob un o'r rhain ymhellach yn isgategoriâu neu'n gynefinoedd penodol. Mae rhai o'r cynefinoedd hyn yn cynnal niferoedd mawr o rywogaethau â blaenoriaeth ond mae eu bioamrywiaeth o dan fygythiad neu o dan bwysau oherwydd, er enghraifft, datblygu ac esgeulustod. Mae cadernid y cynefinoedd hyn gyda'i gilydd yn ddangosydd da o sefyllfa byd natur yng CNPT



RHYWOGAETHAU Â BLAENORIAETH YN CNPT

Lluniwyd rhestr o 237 o rywogaethau â blaenoriaeth ar sail set data cynhwysfawr o'r cofnodion maes a ddarparwyd gan aelodau o Bartneriaeth Natur Leol CNPT dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Yn ein cronfa ddata ni, mae pob rhywogaeth ar y rhestr yn cael ei chysylltu'n unig â'r cynefin/cynefinoedd lle ceir hyd iddi yn CNPT. Er enghraifft, hyd y gwelir yn ein cofnodion ni, mae Britheg y Gors yn bridio ar laswelltiroedd corsiog yn unig yn CNPT a gellir ei chroesgyfeirio i'r cynefin hwn yn unig yn ein cronfa ddata, er ei bod hi, efallai, yn bridio mewn cynefinoedd eraill (e.e. twyni tywod) mewn mannau eraill. Mae hyn yn caniatáu i ni gynnal asesiad seiliedig ar dystiolaeth o'r amrywiaeth o rywogaethau sydd â blaenoriaeth ym mhob cynefin yn CNPT (Ffigur 3).

Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad y rhywogaethau sydd â blaenoriaeth yn ôl grwpiau tacsonomaidd. Infertebratau a phryfed yn arbennig (e.e. Lepidoptera) yw'r gyfran fwyaf o'n rhywogaethau â blaenoriaeth. Darperir rhestr lawn o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT yn Atodiad 2.

Grŵp Systematig	Nifer y Rhywogaethau	% o'r Cyfanswm
Ffyngau	5	2.1
Mwsoglau, llysiâu'r afu a chyrnddail	18	7.5
Planhigion Fasgwlaidd	44	18.5
Pob Planhigyn a Ffwng	67	28
Pob Planhigyn	62	26
Chwilod	11	4.6
Gloÿnnod a Gwyfynod	63	26.5
(Gloÿnnod)	7	3.0
(Gwyfynod)	56	23.5
Clêr	2	0.85
Morghug, gwenyn, llifbryfed a gwenyn meirch	9	3.8
Trychfilod (Hemiptera)	6	2.5
Miltroediaid, cantroediaid ac eraill	1	0.4
Gweision y neidr a mursennod	2	0.85
Ceiliogod y rhedyn a chricedau	13	5.5
Corynnod	1	0.4
Pob infertebrat	106	44.5
Pysgod	5	2.1
Ymlusgiaid	2	0.85
Amffibiaid	2	0.85
Adar	26	10.9
Mamaliaid	28	11.8
Pob fertebrat	63	26.4
CYFANSWM Y RHYWOGAETHAU	238	100


Tabl 1: Dosbarthiad y rhywogaethau â blaenoriaeth fesul grŵp tacsonomaidd (ar adeg cyhoeddi'r adroddiad)



RHYWOGAETHAU Â BLAENORIAETH A CHYNEFINOEDD



NIFER Y RHYWOGAETHAU Â BLAENORIAETH



Figur 3: Niferoedd y rhywogaethau â blaenoriaeth a geir yn y gwahanol fathau o gynefinoedd cyffredinol. Mae pwysigrwydd coetiroedd, cynefinoedd arfordirol, glaswelltiroedd a chynefinoedd mosaig agored ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT yn amlwg.



CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR CNPT

Er mwyn cynllunio rhaglen adfer natur, roedd angen i ni asesu sefyllfa bresennol byd natur yn ardal CNPT. I wneud hyn, gwerthuswyd pob cynefin cyffredinol ar sail arsylwadau a chofnodion bywyd gwyllt a gasglwyd gan gofnodwyr bywyd gwyllt arbenigol ac aelodau eraill o PNL CNPT. Roedd hyn yn caniatáu i ni asesu cadernid ecosystem pob cynefin o ran meini prawf DECCA (Amrywiaeth, Cwmpas, Cysylltedd, Cyflwr a Chadernid). Hwyluswyd y broses hon gan argaeledd map cynefin Cam 1 newydd ar gyfer CNPT cyfan (Ffigur 5) yn seiliedig ar y delweddau a'r data a oedd ar gael yn 2021. Codwyd data ystadegol gwerthfawr ohono ynghylch arwynebedd, cyfluniad a chysylltedd gofodol yr holl brif gynefinoedd. Mae Ffigur 4 yn crynhoi ein hasesiad cyffredinol o Sefyllfa Byd Natur ym mhob cynefin cyffredinol. Darperir rhagor o fanylion yng nghrynodebau'r cynefinoedd.


Yn ogystal, aethom ati i goladu gwybodaeth ynghylch camau gweithredu cyfredol o ran cynefinoedd, materion cyfredol a risgiau yn y dyfodol. Mae hyn, ochr yn ochr â'n hasesiadau o Sefyllfa Byd Natur, wedi bod o gymorth i ni benderfynu ble dylem ddatblygu mwy o gadernid a hyrwyddo adferiad natur yn y dyfodol, ac mae wedi llywio'r camau gweithredu perthnasol a nodwyd ar gyfer pob cynefin yn CNPT, y nodir eu manylion yn y ddogfen hon. Y camau hyn yw sylfaen Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) CNPT a'r camau gorau, yn ein barn ni, ar gyfer hoelio'r sylw ar gadwraeth yn CNPT.

Mae pawb ohonom yn gyfrifol am y camau gweithredu hyn ac felly ni cheisiwyd dyrannu camau gweithredu i sefydliadau neu grwpiau penodol. Yn hytrach, ein gobaith yw y bydd y ddogfen hon yn cynnig canllawiau ac ysbrydoliaeth i unrhyw unigolyn, neu i unrhyw grŵp neu sefydliad, i gymryd y camau gweithredu y mae modd iddynt eu cyflawni. Mae gan Ysgrifenyddiaeth PNL CNPT (Cyngor CNPT) rôl hwyluso wrth gefnogi, casglu a monitro gwaith tuag at y camau gweithredu hyn. Os hoffech chi drafod eich cyfraniad posibl tuag at gyflawni'r camau gweithredu, mae croeso i chi gysylltu â biodiversity@npt.gov.uk.


Bydd cyflwyno adferiad natur yn ardal CNPT yn bwysig i adferiad natur Cymru ac mae'r camau gweithredu a nodwyd gennym yn gysylltiedig ag amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol. Mae'r tabl yn Atodiad 3 yn cysylltu pob cam gweithredu â'r amcan perthnasol o'r NRAP cenedlaethol.

	 Coetir	DA
	 Rhostir a Gweundir	GWAEL
	 Glaswelltir Lled-naturiol	GWAEL
	 Cynefinoedd Mosaig Agored	DA
	 Tir Ffermio Amgaeedig	ANHYSBYS
	 Cynefinoedd Trefol	GWEDDOL
	 Cynefinoedd Dŵr Croyw	GWEDDOL
	 Cynefinoedd Gwlyptir	GWAEL
	 Creigiau a Chlogwyni Mewndirol	GWEDDOL
	 Cynefinoedd Arfordirol	GWAEL
	 Cynefinoedd Morol	GWAEL

Ffigur 4: Sefyllfa Byd Natur ym mhob math o gynefin cyffredinol yn ardal CNPT



- | | | | |
|---|---|--|--|
| A1.1.1 - Broadleaved woodland - semi-natural | B5 - Marshmarshy grassland | E3.1.1 - Modified valley mire | J1.2.1 - Sere - acidneutral |
| A1.1.2 - Broadleaved woodland - plantation | B5.1 - Marshy grassland Juncus dominated | E3.2.1 - Modified basin mire | J1.4.1 - Other exposure - acidneutral |
| A1.2.1 - Coniferous woodland - semi-natural | B5.2 - Marshy grassland Molinia dominated | F1 - Swamp | J2.1 - Quarry |
| A1.2.2 - Coniferous woodland - plantation | B6 - Poor semi-improved grassland | G - Open water | J2.2 - Spoil |
| A1.3.2 - Mixed woodland - plantation | C1.1 - Bracken - continuous | G1 - Standing water | J2.3 - Mine |
| A2.1 - Scrub - dense/continuous | C1.2 - Bracken - scattered | G1.1 - Standing water - eutrophic | J2.4 - Refuse tip |
| A2.2 - Scrub - scattered | C3.1 - Other tall herb and fern - ruderal | G2 - Running water | J1.1 - Cultivated/disturbed land - arable |
| A3.1 - Broadleaved Parkland/scattered trees | D1.1 - Dry dwarf shrub heath - acid | H1.1 - Intertidal - mud/sand | J1.2 - Cultivated/disturbed land - amenity grassland |
| A3.2 - Coniferous Parkland/scattered trees | D2 - Wet dwarf shrub heath | H1.1.1 - Intertidal - mud/sand - zoostera beds | J1.3 - Cultivated/disturbed land - ephemeral/short perennial |
| A3.3 - Mixed Parkland/scattered trees | D5 - Dry heath/acid grassland | H1.3 - Intertidal - boulders/rocks | J1.4 - Introduced shrub |
| A4.1 - Broadleaved woodland - recently felled | D6 - Wet heath/acid grassland | H2 - Saltmarsh | J1.5 - Gardens |
| A4.2 - Coniferous woodland - recently felled | E1.6.1 - Blanket sphagnum bog | H2.6 - Saltmarsh - dense/continuous | J2.1 - Intact hedge |
| A4.3 - Mixed woodland - recently felled | E1.6.2 - Raised sphagnum bog | H3.1 - Mud/sand above mhw | J2.3 - Hedge with bees - native species-rich |
| B1.1 - Acid grassland - unimproved | E1.7 - Wet modified bog | H6.5 - Dune grassland | J2.6 - Dry ditch |
| B1.2 - Acid grassland - semi-improved | E1.8 - Dry modified bog | H6.7 - Dune scrub | J3 - Built-up areas |
| B2.1 - Neutral grassland - unimproved | E2 - Flush and spring | H6.8 - Open dune | J4 - Buildings |
| B2.2 - Neutral grassland - semi-improved | E2.1 - Flush and spring - acidneutral flush | H6.4 - Coastal grassland | J4 - Bee ground |
| B3.2 - Calcareous grassland - semi-improved | E3 - Fen | I1.1 - Inland cliff | J5 - Other habitat |
| B4 - Improved grassland | E3.1 - Fen - valley mire | I1.2 - Sere | |




 Environment Systems Data Services © [2016-21], CC BY-SA 4.0
 Contains modified Copernicus Sentinel data [2016-21]
 © OpenStreetMap contributors
 Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right [2021]
 Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0
 Cartography by Environment Systems Ltd. May 2021, (Version 032)

Figure 5: Map Cynefin Cam 1 o CNPT



CRYNODEBAU



AC

ASESIADAU




CYNEFINOEDD



HABITAT SUMMARIES AND ASSESSMENTS



COETIR



TROSOLWG

Coetir yw 40% o arwynebedd tir CNPT sy'n golygu ei bod yn un o'r siroedd mwyaf coediog yng Nghymru. Planigfeydd conifferau yw'r rhan fwyaf o hyn, ond mae cryn dipyn o goetir collddail hynafol yn goroesi, yn enwedig ym Mro Nedd. Mae'n arwyddocaol bod mwy na thraean o'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn CNPT i'w canfod yng nghoetiroedd y sir.

Mae'r amrywiaeth o blanhigion blodeuol yn y coedwigoedd conifferau yn wael ond gwelir bod rhai llanerchau coed Sbrîws Sitka aeddfed yn cynnal casgliadau toreithiog o rywogaethau o bryoffytau a fflora daear a gysylltir yn arferol â choetiroedd derw ar dir uchel. Ar ben hynny, mae sawl rhywogaeth o adar wedi elwa'n fawr o'r planigfeydd conifferau yn CNPT. Mae ardaloedd llwyrwympo cyn bod prysglwyni'n datblygu yn gynefin bridio ar gyfer Corhedydd y Coed a'r Troellwr Mawr tra bod coedwigoedd conifferau llawn dwf yn cynnal poblogaethau bridio o'r Gylfingroes Cyffredin, y Llinos Bengoch Fechan, y Pila Gwyrdd, Gwalch Marthin a Boda'r Mêl.


Mae'r coridorau coediog ar hyd systemau'r prif afonydd, ar y llaw arall, yn aml yn cynnal fflora amrywiol, gyda Llwyfenni Llydanddail, Pisgwydd Dail Bach, coed Ynn, Gwern, Masarn a Chyll a fflora daear lliwgar y gwanwyn lle ceir llu o rywogaethau dangosol coetiroedd hynafol megis Clychau'r Gog, Briallu, Blodau'r Gwynt, Marddanadl Melyn, Clustiau'r Arth, Deintlys, Cnau'r Ddaear a Chraf y Geifr. Mae Coed Cwm Du ger Pontardawe a llawer o'r coridor ar lannau'r afon rhwng Aberdulais a Glyn-nedd yn enghreifftiau da. Ym Mro Nedd, gwelir bod Tormaen y Gweunydd yn dal i dyfu ar hyd ymylon cysgodol y coed hyn ar lannau'r afon fel y gwnâi ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Gwrychoedd cyfoethog eu rhywogaethau

Coetiroedd Derw Mes Di-goes gyda choed Celyn a Chriafol sydd amlycaf ar lethrau mwy serth Cymoedd Nedd, Afan a rhan uchaf Cwm Tawe. Mae enghreifftiau da i'w gweld yng Nghwm Nedd uwchben Baglan, Tonna, Llangatwg a Chilffriw. Er bod y coetiroedd hyn yn cynnal llai o amrywiaeth o fflora daear o gymharu â'r rhai ger yr afonydd, maen nhw'n darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer mamaliaid coetir (e.e. y Mochyn Daear), adar coetir (e.e. Telor y Coed) ac infertebratau coetir. Mae'n werth nodi'r ffaith ryfeddol fod poblogaeth o Chwilod Daear Glas wedi'i darganfod yng Nghoed Maesmelin ac, yn fwy diweddar, mewn rhai coetiroedd Derw Mes Di-goes cyfagos eraill. Ceir casgliadau o bryoffytau'r Iwerydd sy'n bwysig ar lefel genedlaethol yng nghoetiroedd, ardaloedd rhaeadrau a cheunentydd dyffrynnoedd Pyrddin a Nedd Fechan, y mae rhannau ohonynt yn ardal CNPT. Mae coetiroedd derw yn nyffrynnoedd ucheldir yr un ardal hefyd yn cynnig cynefinoedd i'r ychydig o Wybedogion Brith sy'n dal i fridio yn y sir. Mae ceunant serth a choediog Dyffryn Melincwrt yn cynnal Coetir hynafol o goed Derw Mes Di-goes a fflora doreithiog o blanhigion is, gan gynnwys poblogaeth fach o Redynach Teneuwe Tunbridge.

Ceir gwrychoedd hynafol, cyfoethog eu rhywogaethau ledled CNPT, yn nodweddiadol ar gloddiau uwch hen lonydd plwyf. Gwelir enghreifftiau da ar hyd Heol y Bwlch rhwng Cimla a Chwmafan, ar hyd Rhiw Fairyland rhwng Llanilltud Fach a Chronfa Ddŵr Mosshouse ac mewn sawl man yn sector gogledd y sir, e.e. Cilybebyll, Godre'r Graig, Rhyd y Fro ac ar hyd Heol y Gwrhyd. Mae'r rhain yn ffurfio rhwydwaith pwysig sy'n cysylltu cynefinoedd coediog yn y sir.



Math o Goetir	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Coetir llydanddail - lled-naturiol	3670.17
Coetir llydanddail - planhigfa	68.16
Coetir conifferau - planhigfa	8847.53
Coetir cymysg - planhigfa	1434.65
Prysgwydd - trwchus/ parhaus	1231.43
Prysgwydd - gwasgaredig	41.78
Parcdir llydanddail/ coed gwasgaredig	15.74
Parcdir conifferau/ coed gwasgaredig	291.28
Parcdir cymysg/ coed gwasgaredig	10.52
Coetir llydanddail - a gwmpwyd yn ddiweddar	38.11
Coetir conifferau - a gwmpwyd yn ddiweddar	2529.97
Coetir cymysg - a gwmpwyd yn ddiweddar	8.78
Cyfanswm	18093.6
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	40%

COETIR

RHYWOGAETHAU



GWYBEDOG BRITH

Mae'r Gwybedog Brith yn un o adar eiconig y Coetiroedd Derw Mes Di-goes yng ngorllewin Prydain. Bu ar un adeg yn bridio'n fynych yn CNPT yn ystod yr haf ond mae ei niferoedd wedi prinhau'n enbyd dros y degawdau diwethaf ac mae ein cofnodion yn dangos mai ychydig iawn o Wybedogion Brith sy'n bridio yn y sir ar hyn o bryd. Ni wyddom yr union reswm dros y dirywiad diweddar gan fod cynefinoedd coetir addas yn y sir. Efallai bod amrediad y rhywogaeth yn cilio tua'r gogledd mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.



FFYNGAU COETIR

Mae coetiroedd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer ffyngau ac mae coedwigoedd coniferau lleol yn cynnal amrywiaeth mawr o'r organebau hynod ddiddorol hyn. Canfuwyd mwy na 130 o rywogaethau o facroffyngau mewn coedwigoedd Sbrîws Sitka yn CNPT ac mae coedwigoedd Ffawydd, fel y rhai yng Nghoed Llansawel a Choedwig Glyncastell, yn aml yn cynnwys cymunedau amlyrwogaeth.



CHWILEN DDAEAR LAS

Mae'r Chwilen Ddaear Las wedi prinhau'n enbyd ym Mhrydain yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, ond mae'n ymddangos bod ganddi gadarnle yn Ne Cymru. Roedd darganfod y chwilen drawiadol hon yn ddiweddar yng Nghoed Maesmelin ac mewn rhai coetiroedd derw eraill yng Nghwm Nedd yn llwyddiant nodedig ar gyfer bioamrywiaeth yn CNPT. Mae'n bur debygol y bydd rhagor o boblogaethau o'r chwilen hon yn cael eu darganfod yn y sir.


SEFYLLFA BYD NATUR YNG

NGHOETIROEDD

CNPT

Mae coetiroedd a gwrychoedd yn gynefinoedd i bron 40% o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT. Mae eu gwerth o ran bioamrywiaeth yn aruthrol. Yn ffodus, ychydig iawn o newidiadau pwysig a welwyd o ran amrywiaeth, cwmpas a chysylltedd y cynefin hwn yn y sir yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ac mae arwynebedd mawr y coetir a gynrychiolir yn arbennig o arwyddocaol. Fodd bynnag, mae pryderon pwysig ynghylch rhywogaethau anfrodorol ymledol (INNS), megis Rhododendron, mewn rhai cynefinoedd coetir yn golygu nad yw asesiad rhagorol yn bosibl. O ganlyniad, aseswyd bod cadernid a sefyllfa byd natur yng nghoetiroedd CNPT yn **dda**.

PROSIECTAU CYFREDOL



PROSIECT Y CHWILEN DDAEAR LAS

Cynyddu ymwybyddiaeth, gwaith arolygu a rheoli cynefin yn ardal y chwilen ddaear las sydd mewn perygl.

Partner sy'n Gyfrifol: Buglife Cymru a Coed Cadw



CREU A RHEOLI COETIR FFERM BRYNAU

Rheoli coetir hynafol a phlannu coed er mwyn helaethu a chlustogi'r coetir presennol. Pori er lles cadwraeth ar dir pori'r goedwig.


Partner sy'n Gyfrifol: Coed Cadw



SWYDDOG COETIR

Mae Swyddog Coetir (a gynhelir gan Gyngor CNPT) yn cefnogi adfer, creu a rheoli coetiroedd yn y sir.

Partner sy'n Gyfrifol: Cyngor CNPT



CRAIG GWLADUS

Gwella a rheoli cynefinoedd ym Mharc Gwledig Craig Gwladus, gydag elfennau o ymgysylltu cymunedol.

Partner sy'n Gyfrifol: Cyngor CNPT



RHEOLI COETIR

Rheoli coed derw ar yr ucheldir ym Mlaen-nant-y-gwyddel er lles y gwybedog brith.

Partner sy'n Gyfrifol: Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

ASTUDIAETH ACHOS; BIOAMRYWIAETH AR YSTÂD COETIR LLYWODRAETH CYMRU (YCLLC)

Datblygodd prosiect Bioamrywiaeth ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru (YCLIC) yn sgîl gweminar gan Dr Charles Hipkin, a amlygodd fod tirwedd planigfeydd wedi'i hesgeuluso i raddau helaeth gan gofnodwyr rhywogaethau. Ar hyn o bryd, rheolir bioamrywiaeth y planigfeydd hyn, sy'n cynnwys ardaloedd helaeth o gynefinoedd agored, cyfoethog eu rhywogaethau, nad ydynt yn goedwigoedd, yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Fodd bynnag, cyfyngir ar y gwaith hwn i raddau helaeth gan arolygon cynefinoedd a rhywogaethau gan gofnodwyr arbennig, y mae'n ddiabyddol arnynt, ac y mae angen cynnal mwy ohonynt.

Nod y prosiect hwn oedd llunio cysylltiadau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r llu o arbenigwyr lleol yn CNPT a Rhondda Cynon Taf ac, er bod y berthynas rhwng adrannau rheoli tir CNC a'r prosiect yn dal i ddatblygu, mae'r cyswllt a gafwyd yn ystod y prosiect wedi helpu i adeiladu sylfaen gref a chydweithredol o ran arfer gorau yng Nghymru a rheoli prosiect YCLIC mewn modd cynaliadwy. Cyrhaeddodd y prosiect gynulleidfa eang yn sgîl gweminar ar Ddosbarthiad a Dynameg Bioamrywiaeth ar YCLIC, y bu mwy na 200 o bobl o nifer o sectorau a siroedd yn ymuno ag ef.

Amlygodd y prosiect feysydd cynefin allweddol ar YCLIC, gan gynnwys prysgwydd helyg sy'n cynnal cymunedau pwysig o gen a bryoffytau epiffytig hypergefnforol, gweddillion coetiroedd llydanddail, mylon ffyrdd bioamrywiol a mawn dwfn. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd YCLIC o ran cynnalrhywogaethau dangosol allweddol a rhywogaethau â blaenoriaeth, megis y Clychlys Dail Eiddew, y Cnwp-fwsogl Alpinaid, y Cnwp-fwsogl Corn Carw a'r Cnwp-fwsogl Mawr.

Mae'r sylwadau wrth gloi'r gweminar (sydd i'w gweld isod) yn crynhoi rhai o ganlyniadau'r prosiect:

Er mai prosiect byr, ar raddfa beilot oedd hwn, mae wedi cyflawni llawer o ganlyniadau pwysig gan gynnwys asesiad o'r hyn a wyddom am fioamrywiaeth YCLIC, a ble mae'r bylchau yn ein gwybodaeth hefyd. O ystyried cwmpas y coetir conifferau mewn siroedd fel CNPT a Rhondda Cynon Taf, mae'n amlwg bod cynnal yr asesiadau hyn a llenwi'r bylchau yn bwysig dros ben. Mae'r prosiect wedi tynnu sylw llawer o bobl at rôl YCLIC fel lloches ar gyfer rhywogaethau sy'n prinhau ym miodirwedd De Cymru a/neu sydd wedi cyrraedd mylon eu hamarediad bioddaearyddol. Bydd angen rhagor o fanylion wrth i ni gamu ymlaen'.

Dr Charles Hipkin, Cadeirydd Partneriaeth Natur Leol CNPT




Neidr y Gwair

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD COETIR YN CNPT

Cam Gweithredu	Manylion
Tylluanod Corniog yn CNPT	Cynnal prosiect i gasglu gwybodaeth am boblogaeth y Dylluan Gorniog yn y phlanigfeydd conifferau rhwng CNPT a RhCT
Continuation of the 'Biodiversity in the WGWE' Project Parhau â Phrosiect 'Bioamrywiaeth ar YCLIC'	Chwilio am gyllid i barhau â'r prosiect hwn
Y Chwilen Ddaear Las	Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r boblogaeth a rheoli cynefinoedd er mwyn gwarchod y boblogaeth
Rhestr o goed hynafol	Llunio rhestr o goed hynafol yn y sir i gael gwybod lle gallai fod gofyn eu gwarchod ymhellach
Cynyddu cwmpas a chysylltedd coetiroedd a warchodir	Lle bo modd, cynyddu cwmpas a chysylltedd cynefinoedd coetir a warchodir yn CNPT, ond ni ddylid gwneud hynny ar draul cynefinoedd eraill. Annog aildyfiant naturiol yn hytrach na phlannu coed lle bynnag y bydd modd
Craig Gwladus	Bod Craig Gwladus yn parhau i fod yn goetir cymunedol
Gwaredu rhywogaethau anffrodorol ymledol	Chwilio am gyfleoedd i gael gwared ar rywogaethau anffrodorol ymledol, megis Clymog Japan, Coed Llaurgeirios a Jac y Neidiwr o goetiroedd a warchodir



RHOSTIR A GWEUNDIR



TROSOLWG

Mae'r cynefinoedd yn y categori cyffredinol hwn yn cynnwys glaswelltir corsiog, glaswelltir asidaidd /rhostir a gweundir a ffridd (coed cae). Mae tirwedd ucheldir CNPT wedi newid yn sylweddol yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Plannwyd conifferau ar lawer o'r gweundir a'r rhostir a fu unwaith mor helaeth a chafodd rhannau eraill eu haddasu er mwyn gwella tir pori. Fodd bynnag, mae rhai darnau pwysig o weundir ar ôl, yn enwedig yn sector gogledd y sir, e.e. y Gwrhyd, Sarn Helen. Glaswellt y Bwla, Peiswellt y Defaid a mathau eraill o laswellt neu hesg calchgas yw nodweddion amlycaf y cynefinoedd hyn yn aml, gydag ardaloedd o gorbrysgwydd rhostir sy'n cynnwys Grug a Llus. Mae'r Cracheithin a Melynog y Waun yn dal i oroesi mewn rhai mannau ac mae'r ardaloedd gwlypach yn aml yn cynnwys gweirdiroedd lliwgar o Lafn y Bladur.


Mae glaswelltir corsiog (gan gynnwys rhostir pori) yn gynefin penodol pwysig yn y categori hwn sy'n gallu cynnal cymunedau unigryw ac amrywiol o blanhigion, gan gynnwys Tamaid y Cythraul, Dant y Pysgodyn, Ysgallen y Ddôl, Tegeirian Brych y Rhos, Carwy Droellennog, y Clychlys Dail Eiddew a Gwlyddyn-Mair y Gors. Mae rhai metaboblogaethau o Fritheg y Gors i'w canfod ar rai glaswelltiroedd corsiog yn sector y gogledd. Lle ceir llaciau tra-fasig, gall y cynefinoedd hyn gynnwys Tafod y Gors, Triaglog y Gors a Briwydd y Fign, sydd i gyd yn rhywogaethau prin yn CNPT.

I raddau helaeth, mae cynefinoedd ffridd bellach yn blangfeydd conifferau. Mae'r ffriddoedd hyn, lle maen nhw'n bodoli, yn bwysig ar gyfer rhywogaethau o adar megis y Gog ac infertebratau megis y Fritheg Werdd.

Mae'r ffawna rhostir a gweundir o bwys cadwraeth yn CNPT yn cynnwys yr Ysgyfarnog, yr Ehedydd, y Llinos, y Gog, y Wiber, Neidr y Gwair, y Pry Lleidr Cacynaid a nifer o welyn, megis Cardwenynen y Mwsogl.

Mae cadernid rhostiroedd a gweundiroedd yn CNPT o dan bwysau yn sgîl diffyg rheolaeth briodol, diffyg cysylltedd a rhywogaethau anffrodorol ymledol, e.e. Rhododendron, a choed Sbrïws Sitka.





Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Glaswelltir asidaidd - heb ei wella	2035.37
Glaswelltir asidaidd - wedi'i led-wella	1485.24
Cors/glaswelltir corsiog	3240.38
Glaswelltir corsiog - Brwyn yn bennaf	6.04
Glaswelltir corsiog - Gwellt y gweunydd yn bennaf	492.35
Rhedyn - parhaus	1089.17
Rhedyn - gwasgaredig	44.59
Corbrysgwydd rhostir sych- asidaidd	439.21
Corbrysgwydd rhostir gwlyb	81.62
Rhos/glaswelltir asidaidd sych	28.61
Rhos/glaswelltir asidaidd gwlyb	517.88
Cyfanswm	9455.38
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	20%

RHOSTIR A GWEUNDIR



BRITHEG Y GORS

Mae niferoedd Britheg y Gors yng Nghymru wedi dirywio'n sylweddol ac mae nifer mawr y poblogaethau a gollwyd yn CNPT yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf yn adlewyrchu'r darlun hwn. O ran ei chynefin yn y sir, mae Britheg y Gors yn ffafrio glaswelltir corsiog neu dir pori ar rosydd sy'n cynnwys Tamaid y Cythraul, sy'n porthi'r lindys, a phlanhigion sy'n darparu neithdar ar gyfer yr oedolion sy'n hedfan, e.e. Ysgall y Ddôl. Mae colli cynefinoedd addas, wedi'i ddilyn gan dorri cysylltedd rhwng metablogaethau, yn rhan fawr o'r dirywiad hwn, fwy na thebyg.



CLYCHLYS DAIL EIDDEW

Yn sgîl colli llawer o'i gynefinoedd brodorol yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, mae'r Cylchlys Dail Eiddw yn rhywogaeth sydd mewn perygl ac yn destun pryder. Yn CNPT, ceir hyd iddo mewn rhai cynefinoedd glaswelltir corsiog a rhostir heb eu gwella a hefyd ar dorlannau llaith uwchben nentydd a ffosydd mewn planigfeydd conifferau lle caiff ei amddiffyn rhag pori dwys. Mae sefyllfa a chadwraeth y rhywogaeth hyfryd hon wedi cael eu hanwybyddu yng Nghymru wrth iddi barhau i gollu niferoedd yn sgîl colli cynefin. Mae gofyn bod y poblogaethau yn CNPT yn cael eu hystyried a'u rheoli'n ofalus.



GWIBER

Y Wiber yw'r unig neidr wenwynig yn y Deyrnas Unedig ond nid yw'n rhywogaeth ffyrnig. Mae gwiberod i'w canfod yn bennaf ar dir gwledig garw â chynefinoedd ymylol. Maen nhw'n amrywio o ran eu lliw ond mae ganddynt bob amser linell igamogam dywyll nodweddiadol ar hyd eu cefn. Y ffordd orau o gael hyd iddynt yw symud yn araf ar hyd ymyl llwybr trwy redyn ond hyd yn oed wedyn, bydd angen bod yn dawel iawn a chael llygaid craff i'w gweld nhw. Gwaetha'r modd, mae gwiberod yn dal i gael eu herlid i raddau yn CNPT.

SEFYLLFA BYD NATUR Y RHOSTIR A'R GWEUNDIR YN CNPT

RHOSTIR A'R GWEUNDIR YN CNPT

Mae Rhostiroedd a Gweundiroedd yn gynefinoedd ar gyfer oddeutu un rhan o bump o'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn CNPT, ond dim ond cyfran fach ohonynt sydd mewn cyflwr da. Collwyd darnau helaeth o gynefinoedd oherwydd newid defnydd tir ac esgeulustod a heblaw am sector y gogledd, mae'r cysylltedd cyffredinol yn wael.

Mae glaswelltir corsiog a rhostir pori yn benodol wedi dioddef yn sylweddol ac mae llawer o rywogaethau a fu'n helaeth yn brin iawn bellach. Mewn rhai mannau, mae rhywogaethau anfrodorol ymledol yn broblem sylweddol. Nid oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i asesu iechyd y cynefinoedd ffridd sydd ar ôl gennym, ond collwyd nifer ohonynt oherwydd planigfeydd coedwigaeth.

Oherwydd y materion hyn, aseswyd bod cadernid a sefyllfa byd natur rhostiroedd a gweundiroedd yn CNPT yn **wael**.

PROSIECTAU CYFREDOL



RHEOLI CYNEFIN AR GYFER BRITHEG Y GORS

Mae prosiectau rheoli cynefin, megis y rhaglen pori er lles cadwraeth sydd ar waith ar raddfa fawr yng Nghwm Dulais yn helpu i adfer glaswelltiroedd corsïog sy'n addas ar gyfer cynnal metaboblogaethau o Fritheg y Gors.

Partner sy'n Gyfrifol: Gwarchod Gloynnod Byw, CNC, Cominwyr, Cyngor CNPT



TALIAD AM GANLYNIADAU AR DIR COMIN

Mae'r Prosiect hwn yn ymchwilio i system daliadau bosibl sydd â'r nod o annog gweithredu cadarnhaol i gadw a gwella cynefinoedd ar dir comin. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at ragor o weithredu cadarnhaol i wella bioamrywiaeth ledled y sir.


Partner sy'n Gyfrifol: Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Bugailyddiaeth



CYNLLUNIAU RHEOLI CYNEFIN FFERMYDD GWYNT

Mae cynlluniau rheoli cynefin sy'n cwmpasu'r cynefinoedd hyn ar waith yn rhan o'r mesurau lliniaru ar gyfer Ffermydd Gwynt Pen y Cymoedd a Llynfi Afan

Partner sy'n Gyfrifol: CNC, Cyngor CNPT



DOLYDD Y GWRHYD

Mae cytundeb rheoli cynefin ar waith i reoli glaswelltiroedd asidaidd a glaswelltiroedd corsïog ar SoDdGA Dolydd y Gwrhyd. Ymhlith y rhywogaethau o blanhigion hynod a gofnodwyd yma mae'r Clychlys Dail Eiddew a'r Ffacbysen Chwerw.

Partner sy'n Gyfrifol: CNC



SODDGA CILYBEBYLL

Mae trafodaethau ar waith i benderfynu ar gynllun rheoli cynefin ar gyfer SoDdGA Cilybebyll. Mae'n safle o ddiddordeb arbennig oherwydd ei laswelltir a'i dir pori gwlyb cyfoethog eu rhywogaethau, sy'n cynnal nifer o rywogaethau o blanhigion anghyffredin.

Partner sy'n Gyfrifol: CNC

ASTUDIAETH ACHOS; MONITRO A RHEOLI CADWRAETH BRITHEG Y GORS YN CNPT

Yn ôl y cofnodion hanesyddol, roedd Britheg y Gors i'w chanfod mewn llawer man yn CNPT hanner can mlynedd yn ôl, gyda chytrefi wedi'u gwasgaru yn sectorau gogledd a de'r sir. Ar yr adeg honno, roedd glaswelltiroedd corsïog â chyfoeth o rywogaethau, Tamaid y Cythraul, Ysgall y Ddôl, Tegeirian Brych y Rhos a rhywogaethau arwyddocaol eraill yn fwy cyffredin yn ein tirwedd nag y maent heddiw. Mae gallu Britheg y Gors i wasgaru yn gyfyngedig ac mae arni angen rhwydwaith o gynefinoedd a chytrefi cysylltiedig sy'n caniatáu rhywfaint o gyfnewid rhwng cytrefi sy'n arwahanol fel arall. Ar unrhyw un adeg yn y rhwydwaith hwn o fetaboblogaethau, gallai rhai cynefinoedd fod yn wag ond mae eu presenoldeb a'u potensial i gael eu cytrefu yn ffactor pwysig serch hynny o ran dynmeg metaboblogaethau Britheg y Gors. Mae'r cynefin glaswelltir corsïog sylweddol a gollwyd yng CNPT yn ystod yr 50 mlynedd diwethaf nid yn unig wedi dileu manau bridio'r glöyn byw lliwgar hwn ond hefyd wedi torri'r cysylltiad rhwng cynefinoedd sy'n hanfodol bwysig ar gyfer gwasgariad a chynnal metaboblogaethau. Bydd sicrhau bod glaswelltiroedd corsïog addas ar gael mewn tirwedd â chysylltiadau priodol yn allweddol i ffyniant a chadwraeth Britheg y Gors yn CNPT.

O dan arweiniad Cadwraeth Gloynnod Byw a grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr trefnus, gwnaed ymdrech fawr i ddarganfod, arolygu a monitro safleoedd Britheg y Gors yn CNPT ac mewn ardaloedd cyfagos yn Sir Gaerfyrddin. Daeth yn amlwg fod Britheg y Gors wedi'i chyfyngu yn bennaf, os nad yn gyfan gwbl, i Gwm Dulais a Dyffryn Aman, yn sector gogledd y sir. Bob blwyddyn eir ati i fonitro safleoedd bridio hysbys a phosibl yn yr ardaloedd hyn er mwyn

partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru i adennill a rheoli glaswelltir corsïog addas ar gyfer Britheg y Gors yng Nghwm Dulais, ar dir o eiddo CNC lle plannwyd coed Sbrîws Sitka neu lle cafwyd pori dwys yn y gorffennol. Rhan bwysig o'r strategaeth rheoli cynefin ar hyd y cyfan oedd trefnu systemau pori cydnaws er mwyn cadw'r cynefinoedd mewn cyflwr ffafriol ar gyfer Britheg y Gors. Ar hyn o bryd, mae Britheg y Gors yn defnyddio 7 safle yn CNPT ac mae gennym nifer o safleoedd addas sydd heb eu cytrefu. Mae poblogaethau cryf yng Nghwm Dulais yng nghyffiniau Blaendulais ond mae'r poblogaethau mwyaf i'w canfod yn Nyffryn Aman, yn enwedig ger Tai'r Gwaith a Chwmgors. Drwy ddadansoddi cysylltedd, gwelir bod y cynefinoedd hyn yn rhan o rwydweithiau cymhleth, mwy sylweddol o fetaboblogaethau sy'n byw yn Nyfed a Phowys yn bennaf.



Gweoedd Larfaol Britheg y Gors

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD RHOSTIR A GWEUNDIR YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Rheoli ar gyfer Britheg y Gors	Cynnal a gwella'r rheoli a'r monitro cyfredol ar safleoedd yng Nghwm Dulais a'i ymestyn i safleoedd ychwanegol lle bydd modd er mwyn parhau i gynnal metaboblogaeth Britheg y Gors
Rhestr o laswelltiroedd corsïog	Llunio rhestr o laswelltiroedd ac asesu eu cyflwr lle bydd modd. Nodi cyfleoedd i adfer safleoedd
Parchu Ymlusgiaid	Cynnal prosiect cynyddu ymwybyddiaeth mewn ymgais i atal erledigaeth gwiberod mewn ardaloedd lle mae pobl a gwiberod yn fwy tebygol o ddod ar draws ei gilydd
Cofnodi Gwiberod	Cynyddu'r gwaith cofnodi gwiberod yng ngogledd y sir lle mae dealltwriaeth o'r poblogaethau a'u dosbarthiad yn isel
Atal difrod yn sgîl plannu coed	Atal plannu coed mewn cynefinoedd rhostir a gweundir yn CNPT a chynyddu ymwybyddiaeth o werth y cynefinoedd hyn
Adfer cynefinoedd rhostir a gweundir	Dylid ystyried creu ac adfer cynefinoedd lle bydd modd. Er enghraifft, dylid asesu llanerchau ar ôl llwyrgwymo conifferau i weld a oes cyfle i adfer glaswelltir corsïog (neu fawnog) yno. Mae angen gwaredu rhywogaethau anfrodorol ymledol (e.e. Rhododendron, coed Sbrîws Sitka) ar rai safleoedd fel mater o frys



RHOSTIR A GWEUNDIR

GLASWELL TIROEDD LLED-NATURIOL



TROSOLWG

Mae glaswelltiroedd wedi'u lled-wella yn CNPT yn gynefin i un o bob pump o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn y sir. Mae'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd hyn yn laswelltiroedd niwtral, mesotroffig, megis gweirgloddiau, lleiniau ymyl ffordd/cylchfannau, dolydd llifwaddodol, gwastadeddau a glaswelltir wedi'i adfer ar domenni rwbel glo. Drwy ychwanegu glaswelltir corsïog (sydd wedi'i gynnwys yn y categori Rhostir a Gweundir), mae cyfran y rhywogaethau â blaenoriaeth yn fwy na'r chwarter, sy'n arwyddocaol iawn. Mae gweirgloddiau a reolir yn y dull traddodiadol yn brin yn CNPT, ond mae dolydd bioamrywiol SoDdGA Hafod Wennol (a'r ardaloedd cyfagos) i'r gogledd o Bontardawe, yn enghreifftiau da gyda rhywogaethau dangosol allweddol neu rywogaethau â blaenoriaeth megis yr Effros Mawr, y Tegeirian Llydanwyrdd a'r Llysrlys.

Cynyddir y rhestr o laswelltir niwtral bioamrywiol yn CNPT i ryw raddau gan rwydwaith helaeth o leiniau ymyl ffordd a chylchfannau, y mae rhai ohonynt yn cynnal cymunedau glaswelltir mesotroffig lliwgar ac amrywiol. Mae enghreifftiau da i'w canfod ar hyd Ffordd Fabian (A465) ger Jersey Marine, ar hyd y Rhodfa Ganolog ger Parc Ynni Baglan, ar Gylchfan Saltings ger Castell-nedd ac yn Ffordd yr Harbwr ym Mhort Talbot (ger y gwaith dur) lle mae cytrefi o'r Glesyn Bach i'w canfod.

Mae llawer o laswelltiroedd wedi'u hadfer ar domenni glo yn y sir. Gwelir enghreifftiau da yn Nhomen y Bryn, y glaswelltiroedd a adferwyd ar safle glo brig Selar ger Blaengwrach a'r glaswelltiroedd a adferwyd yn rhan uchaf Cwm Dulais. Mae gan rai o'r safleoedd hyn gynefinoedd mosaig cymhleth ac amrywiaeth cyfoethog o rywogaethau glaswelltir, sy'n aml yn cynnwys rhywogaethau dangosol allweddol, megis Tegeirian y Wenynen, y Tegeirian Brych, Ysgallen Siarl, Cneuen y Ddaear a'r Peradyl Garw.


Mae cyflwr glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau yn CNPT yn destun pryder mawr. Mae newidiadau o ran defnydd tir, datblygu, gwelliannau amaethyddol ac esgeulustod i gyd wedi cyfrannu at ddiflaniad y cynefinoedd hyn yn y sir yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. I wrthdroi'r duedd hon, bydd gofyn newid agweddau yn sylweddol, cydnabod eu gwerth a newid arferion rheoli. Gall stiwardiaeth sensitif, creu cynefinoedd, rheoli ymylon ffyrdd ac adfer safleoedd i gyd fod yn rhan o'r ymdrechion hyn.



Tegeirian Llydanwyrdd



Ffordd yr Harbwr ymylon ffyrdd



Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Glaswelltir niwtral - heb ei wella	1.26
Glaswelltir niwtral - wedi'i led-wella	2806.09
Glaswelltir calchaidd - wedi'i led-wella	0.19
Glaswelltir gwael wedi'i led-wella	332.38
Cyfanswm	3138.53
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	6%

RHYWOGAETHAU



Y LLYSYRLYS

Rhywogaeth o laswelltir mesotroffig yw'r Llysyrlys, sy'n tyfu yn benodol ar orlifdiroedd, ond sydd hefyd i'w chanfod ar ymylon ffyrdd a glaswelltir twyni. Mae'n blanhigyn eithaf tal sy'n amlwg iawn pan fydd yn ei flodau, gyda phennau blodau sydd bron yn ddu, a gaiff eu peillio gan y gwynt. Mae iddo ddsbarthiad helaeth yng Nghwm Nedd a rhan uchaf Cwm Tawe lle mae'n ddangosydd pwysig o laswelltir mesotroffig wedi'i led-wella. Mae ei ddsbarthiad gwasgaredig yn rhan uchaf Cwm Nedd rhwng Resolfen a Glyn-nedd yn awgrymu bod y tir ar lawr y dyffrynnoedd hyn yn arfer bod yn laswelltiroedd llifwaddodol yn bennaf cyn iddo gael ei ddraenio a'i wella i greu tir pori.



CRICSYN HIRGORN ROESEL


Mae'r cricsyn deniadol hwn yn aelod cymharol newydd o ffawna CNPT. Adroddwyd amdano yn 2019 gan aelod o'r cyhoedd o ardal Sgiwen. Mae'r cricsyn cymedrol ei faint yn frown neu'n felyn gydag arlliw o wyrdd a thri smotyn golau ar y thoracs ac ymyl lliw hufen o gwmpas ochrau'r pronotwm. Gellir adnabod y cricsyn benyw wrth ei gwyddodydd mawr (sy'n edrych fel colyn ond sy'n hollol ddiniwed). Mae cân (grillian) y gwryw yn hynod iawn gyda sain barhaus a main iawn. Mae amrediad y rhywogaeth bellach yn ehangu o dde-ddwyrain Lloegr tua'r gogledd a'r gorllewin, o bosib oherwydd y newid yn yr hinsawdd, gan ei bod yn ffynnu yn ystod hafau poeth.



© Charles Hipkin

Y TEGERIAN LLYDANWYRDD

Mae'r tegeirian mawr, trawiadol hwn yn un o ddangosyddion allweddol glaswelltir mesotroffig, niwtral a reolir yn y dull traddodiadol yn ne Cymru. Gwyddom ei fod yn tyfu ar ddau safle glaswelltir yn unig yn CNPT sydd ill dau yn sector gogledd y sir. Mae nifer y tegeirianau unigol sy'n ymddangos yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, sy'n eithaf nodweddiadol o degeirianau gweirglodd. Mae'r blodau'n rhyddhau arogl cryf, yn enwedig yn y nos pan fyddant yn denu sylw gwyfynod mawr, megis gwalchwyfynod, sy'n bwydo ar y neithdar a geir yn sbardunau dwfn y blodyn. Mae goroesiad y rhywogaeth â blaenoriaeth hon yn CNPT yn gwbl ddibynnol ar sicrhau bod y glaswelltiroedd lle y mae i'w chanfod yn parhau i gael eu rheoli fel gweirgloddiau.



GLASWELLTIROEDD LLED-NATURIOL

SEFYLLFA BYD NATUR GLASWELLTIR LLED-NATURIOIOL

GLASWELLTIR LLED - NATURIOIOL

YN CNPT

Mae glaswelltir mesotroffig wedi'i led-wella yn cynnal bron un o bob pum rhywogaeth â blaenoriaeth yn CNPT ac mae'n un o adnoddau bioamrywiaeth pwysicaf y sir. Yn anffodus, mae'r cynefin hwn hefyd wedi gweld y gostyngiadau mwyaf yn ei gwmpas, ei gyflwr a'i gysylltedd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweirgloddiau cyfoethog eu rhywogaethau sy'n brin, yn ddigyswllt ac yn aml wedi'u rheoli'n wael neu wedi'u hesgeuluso. Mae diffyg cysylltedd yn y cynefinoedd hyn wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ddosbarthiad rhywogaethau â blaenoriaeth megis y Gwalch-wyfyfyn Gwenynaidd Ymyl Gul a nifer o blanhigion sy'n rhywogaethau â blaenoriaeth, megis Ysgallen y Ddôl, y Ffacbysen Chwerw, y Grachleithinen a Melynog y Waun.

Oherwydd hyn, aseswyd bod cadernid a sefyllfa byd natur y glaswelltiroedd wedi'u lled-wella yn CNPT **yn wael**.



GRŴP DOLYDD BRO MORGANNWG, PEN-Y-BONT AR OGWR A CNPT

Grŵp Dolydd trawsffiniol newydd sy'n cefnogi'r rhai sydd am greu, adfer neu reoli dolydd trwy ddarparu cyfleoedd rhwydweithio a chymorth gan gymheiriaid.

Partner sy'n Gyfrifol: Grŵp Dolydd Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a CNPT




MAGNIFICENT MEADOWS

Mae prosiect Plantlife, sef Magnificent Meadows wedi cefnogi ffurfio dolydd cymunedol ledled y sir, er enghraifft, ym Mharc Glantawe.

Partner sy'n Gyfrifol: Plantlife

PROSIECTAU CYFREDOL



RHEOLI LLEINIAU YMYL FFORDD/GLASWELLTIR AR GYFER BLODAU GWYLLT

Mae rheoli lleiniau ymyl ffordd ar gyfer bioamrywiaeth ar waith mewn gwahanol safleoedd ledled y sir.


Partner sy'n Gyfrifol: SWTRA, Cyngor CNPT, Cymdeithasau Tai, Cyngorau Tref a Chymuned.



DOLYDD GORLIFDIR RHEOLA

Dull rheoli gan ddefnyddio pori er lles cadwraeth a thorri gwair, a monitro dolydd y gorlifdir ger Rheola, sy'n gartref i'r Llysyrllys.

Partner sy'n Gyfrifol: CNC



PROSIECT B-LINES CASTELL- NEDD PORT TALBOT - BUGLIFE

Prosiect tair blynedd sy'n gweithio ar hyd Rhwydweithiau B-Lines yn CNPT i greu a rheoli cynefinoedd ar gyfer peillwyr gyda chymunedau lleol.

Partner sy'n Gyfrifol: Buglife



STRATEGAETH Y GARDWENYEN FEINLAIS

Yn 2020, lansiwyd strategaeth ar gyfer cadwraeth y Gardwenylen Feinlais sydd mewn perygl, sy'n cwmpasu poblogaeth Cynffig-Port Talbot.

Partner sy'n Gyfrifol: Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a'i phartneriaid

ASTUDIAETH ACHOS; CARU GWENYN CNPT

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae colli cynefinoedd glaswelltir blodau gwyllt a'r pryfed peillio a gynhelir ganddynt wedi bod yn achosi pryder i'r cyhoedd. Mae gan Gyngor CNPT gyfrifoldeb i roi sylw i'r argyfyngau natur a hinsawdd hyn ac mae hefyd wedi ymrwmo i warchod, diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth, Cynllun Gweithredu Adfer Natur CNPT a Chynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.

Cafodd dull gweithredu newydd o reoli ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd CNPT ei gymeradwyo gan Fwrdd Cabinet Adfywio a Datblygu Cynaliadwy y Cyngor Sir ar 30 Gorffennaf 2021, ac mae Cyngor CNPT yn ei roi ar waith yn raddol fel y mae'r adnoddau'n caniatáu. Nod y cynllun hwn yw cynyddu arwynebedd a chwmpas glaswelltir blodau gwyllt (h.y. ymylon ffyrdd a dolydd mwy o faint a reolir mewn modd sy'n annog blodau gwyllt a phryfed peillio) ym Mwrdeistref Sirol CNPT, er mwyn cefnogi Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor a Chynllun Gweithredu Adfer Natur CNPT.

Yn draddodiadol, mae'r ymylon ffyrdd yn CNPT a reolir gan yr awdurdod lleol yn cael eu torri bob 2-3 wythnos yn ystod y tymor tyfu, h.y. rhwng diwedd Mawrth a diwedd Medi, ac mae'r torion yn cael eu taenu a'u gollwng ar ben y glaswellt.

Mae hyn yn rhoi gwrtaith i'r pridd ac yn annog rhagor o laswellt i dyfu. O 2021 ymlaen, bydd Cyngor CNPT yn newid y dull rheoli hwn mewn lleoliadau penodol gyda'r Is-adran Gwasanaethau Gofal Stryd ac yn mynd ati, yn lle hynny, i annog blodau gwyllt i dyfu ac yn lleihau amllder y gwaith torri sy'n angenrheidiol trwy ddefnyddio peiriannau 'torri a chasglu'.

Mae ymylon ffyrdd megis Ffordd yr Harbwr, Ffordd Fabian Way a Chylchfan Saltings yn rhan o'r cynllun hwn, ynghyd â nifer o ardaloedd newydd o gwmpas y sir.




CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER GLASWELLTIR LLED-NATURIOL YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Caru Gwenyn CNPT	Parhau i gynyddu arwynebedd a chwmpas y tir a reolir fel glaswelltir blodau gwyllt, gan gynnwys ymylon ffyrdd, ar dir a reolir gan aelodau o'r bartneriaeth. Annog defnyddio dull rheoli tebyg ar dir sy'n eiddo i eraill
Statws glaswelltir lled-naturiol yn CNPT	Cynnal arolygon mewn ardaloedd lle nad yw statws glaswelltir lled-naturiol wedi'i ddeall yn dda er mwyn sefydlu llinell sylfaen o ran cadernid y cynefin hwn yn yr ardaloedd hyn
Cynghorau Tref a Chymuned	Ymgysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned i rannu gwybodaeth a chefnogi newid dulliau rheoli ar eu tir, er mwyn annog glaswelltir lled-naturiol
Claddfeydd sy'n cynnal natur	Ymgysylltu ag eglwysi a mynwentydd i newid eu trefniadau torri glaswellt er mwyn cynyddu cwmpas ac arwynebedd glaswelltiroedd bywyd gwyllt a chapiau cwyr
Grŵp Dolydd Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a CNPT	Parhau i gefnogi'r grŵp dolydd i weithredu yn CNPT i reoli cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol
Pori er lles Cadwraeth ar safleoedd arbennig	Parhau i gymryd camau i sefydlu neu gynnal pori er lles cadwraeth ar safleoedd arbennig lle bydd hynny'n briodol, e.e. Gwarchodfa Natur Leol (GNL) Tomen y Bryn a Dolydd Gorlifdir Resolfen. Ymchwilio i gyllid ar gyfer system symudol o ran trin anifeiliaid a thechnolegau ffensio

GLASWELLTIROEDD LLED-NATURIOL





CYNEFINOEDD MOSAIG AGORED


TROSOLWGW

Mae'r rhan fwyaf o barth arfordirol CNPT, yn fwy efallai nag unrhyw ran arall o Gymru, wedi cael ei newid yn sylweddol iawn yn sgîl datblygiad diwydiant trwm. O ganlyniad i hyn, collwyd darnau helaeth o gynefinoedd bioamrywiol, megis twyni tywod, corsydd arfordirol a ffeniau. Fodd bynnag, pan fydd y tir diwydiannol hwn yn cael ei glirio, gall y cynefinoedd mosaig agored a grëir gynnig cyfleoedd a lloches i rywogaethau anghyffredin. Mae Brenhinllys y Maes yn enghraifft dda o rywogaeth Adran 7 sydd fel arall yn brin yng Nghymru sydd wedi elwa yn sgîl creu cynefinoedd arfordirol, mosaig agored yn CNPT fel sydd wedi digwydd ym Mharc Ynni Baglan. Ymhlith y rhywogaethau nodedig eraill a geir yma, mae'r Gornchwiglen, y Llinos, y Gardwenynen Feinlais, y Glesyn Bach, y Gwibiwr Llwyd, Mwsogl Ditrichum ar Oleddf, Troellig yr Hydref, yr Edafeddog Lwyd, Penigan y Porfeydd, Caldrist y Gors, Pig-y-crëyr Ludiog, a'r Gorudd Melyn. Mae'r cynefin mosaig agored rhyfeddol hwn yn cynnal yr amrywiaeth mwyaf o rywogaethau yn CNPT, gan gynnwys nifer o rywogaethau Adran 7. Ar ben hynny, mae cynefinoedd chwarel a thomenni mewndirol yn cynnig lloches i rywogaethau â blaenoriaeth a rhywogaethau Adran 7, megis y Wiber, Neidr y Gwair a nifer mawr o chwilog, bygiau daear, gwenyn unig a pheillwyr eraill.

Yn aml, dynodir bod y safleoedd hyn yn 'dir llwyd' ac maent felly yn agored i gael eu datblygu. Fodd bynnag, mae llawer o'r safleoedd hyn yn CNPT wedi eu dynodi'n Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs) er nad yw hyn bob amser yn eu hamddiffyn rhag datblygiad. Mae bygythiadau eraill yn cynnwys adfer amhriodol, plannu coed, plannu cnydau biodanwydd, diffyg rheolaeth, peidio â sylweddoli eu gwerth, a rhywogaethau anfrodorol ymledol.

Mae safleoedd mosaig agored yn gynefinoedd i chwarter y rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT, gan gynnwys 18 o rywogaethau Adran 7. Maen nhw'n lloches i nifer o rywogaethau sydd dan fgythiad ac maen nhw'n ased o ran cadwraeth bywyd gwyllt.





Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Tomen	43.21
Cloddfa	314.53
Tir wedi'i drin/yr aflonyddir arno - dros dro/cyfnod byr lluosflwydd	128.05
Tir noeth	252.26
Cyfanswm	738.05
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	1.63%

RHYWOGAETHAU



Y GARDWENYNNEN FEINLAIS

Yn Ne Cymru, mae CNPT yn gadarnle i'r wenynen brin iawn hon sydd i'w chanfod mewn dyrnaid o fannau yn unig yn y Deyrnas Unedig. Mae'n anodd ei hadnabod ond o graffu'n ofalus efallai y gwelwch y prif nodweddion: lliw llwydfelyn gwan, â band brown tywyll rhwng bonau'r adenydd a chynffon lliw sinsir. Mae'r breninesau'n hedfan yn gyflym iawn gan achosi suo main. Mae glaswelltiroedd arfordir CNPT yn ardal bwysig i'r rhywogaeth hon, sy'n ffafrio cynefinoedd blodau gwyllt, megis twyni tywod lle ceir planhigion â chorola hir, megis y Gorudd.



BREHINLLYS Y MAES

Planhigyn bach hyfryd â blodau lliw fioled sy'n aelod o deulu'r saets sydd bellach yn brin iawn ym Mhrydain ac o dan fygythiad yng Nghymru. Yn rhywogaeth ddeheuol yn bennaf, fe'i cysylltir fel arfer â glaswelltir calchaid ond mae wedi prnhau'n sylweddol yn y cynefin hwn ym Mhrydain dros y degawdau diwethaf o ganlyniad i wella glaswelltiroedd a phori dwys. O ran ei dosbarthiad, fe'i ceir ar yr arfordir yn unig yn CNPT lle mae'n rhywogaeth brin o laswelltir y twyni. Fodd bynnag, mae poblogaethau mawr o'r rhywogaeth hon i'w canfod mewn cynefinoedd mosaig agored ger Twyni Baglan ac efallai mai'r rhain yw'r poblogaethau mwyaf o'r rhywogaeth hon yng Nghymru. Datblygiad y safleoedd hyn yn y dyfodol fydd yr her sylweddol o ran cadwraeth y rhywogaeth hon yn CNPT a Chymru.



Y GORNCHWIGLEN

Mae cornchwiglod sy'n bridio yn brin ac yn prinhau yn y Sir, ac mae'r adar hyn i'w gweld yn fwy cyffredin ar eu taith ac yn ystod y gaeaf. Ni chofnodwyd eu bod yn bridio yn yr ucheldir yn ddiweddar ac mae'r safleoedd bridio wedi'u cyfyngu i ardaloedd ar yr arfordir, yn enwedig mewn cynefinoedd mosaig agored ar dir diwydiannol gynt, sy'n aml yn rhai dros dro. Roedd o leiaf 8 pâr yn bridio ar hen safle BP ym Mae Baglan yn 2019 ac mae'n debygol bod rhai yn bridio yn Llandarcy. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi prnhau'n sylweddol ar y safleoedd hyn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r dirywiad cyffredinol yn niferoedd y cornchwiglod sy'n bridio ledled Cymru wedi cael ei gysylltu â newidiadau mewn polisiau ac arferion amaethu.



SEFYLLFA BYD NATUR YN Y CYNEFINOEDD MOSAIG AGORED YN CNPT

Mae cynefinoedd mosaig agored yn cynnal cyfran sylweddol o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT. Mae hyn, ynghyd â'r amrywiaeth aruthrol o rywogaethau sydd i'w canfod yn aml yn y cynefinoedd hyn, a'r nifer mawr o rywogaethau Adran 7 yn eu plith, yn golygu bod y cynefinoedd hyn yn rhai o'r adnoddau bioamrywiaeth pwysicaf yn y sir. Fodd bynnag, maen nhw o dan fygythiad yn sgîl ailddatblygu, dinistrio cynefinoedd a cholli rhywogaethau. Maen nhw hefyd yn agored i newidiadau olyniaethol yn sgîl ymlediad prysgwydd ar ffurf rhywogaethau prenaidd brodorol a rhywogaethau anffodorol ymledol megis y Gynffon Las a'r Cotoneaster.

Ni ddylid bychanu rôl y cynefinoedd mosaig agored fel lloches i rywogaethau Adran 7 ac mae gofyn gweithredu ar frys i sicrhau atebion sy'n gydnaws â datblygu a chynnal eu bioamrywiaeth yn y dyfodol, e.e. dynodi ardaloedd lloches a gaiff eu gwarchod a'u rheoli er lles bioamrywiaeth.

Gan fod eu dyfodol yn ansicr, mae'n anodd asesu cadernid y cynefinoedd hyn yn yr hirdymor. Fodd bynnag, mae eu sgôr o ran priodweddau fel amrywiaeth, cwmpas a chysylltedd **yn dda**, felly aseswyd bod sefyllfa byd natur yn y tymor byr a chadernid y cynefinoedd mosaig agored yn CNPT, fel y maent ar hyn o bryd, yn dda. Bydd cynllunio gofalus a sensitif yn ofynnol er mwyn cynnal y sefyllfa hon yn y tymor hir.

PROSIECTAU CYFREDOL



GNL TOMEN Y BRYN

Gwarchodfa Natur Leol yw Tomen y Bryn sydd wedi'i dynodi'n Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) oherwydd ei 'chynfinoedd mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol'. Mae'r hen domen lo bellach yn cael ei reoli'n weithredol ac yn hafan ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Partner sy'n Gyfrifol: Cyngor CNPT



AROLYGON INFERTEBRATAU AR DOMENNI PYLLAU GLO

Cynhaliwyd arolygon ar safleoedd rwbel pyllau glo ledled CNPT yn 2018 er mwyn dod i ddeall y cynfinoedd hyn a'r ffawna di-asgwrn-cefn sy'n gysylltiedig â nhw yn well. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cynhaliwyd gwaith rheoli cynefin ar un o'r safleoedd, sef Cwm Nanto.

Partner sy'n Gyfrifol: Amrywiol



MONITRO PENIGAN Y PORFEYDD

Ers 1997, amcangyfrifir maint poblogaeth flynyddol planhigyn prin Penigan y Porfeydd yn CNPT trwy gyfri'r planhigion unigol sy'n blodeuo. Mae hyn yn fodd i'r PNL fonitro iechyd y boblogaeth.

Partner sy'n Gyfrifol: Aelodau o'r PNL

ASTUDIAETH ACHOS; TOMEN Y MORFA

Tomen fawr o ddeunydd tirlenwi yw Tomen y Morfa a adeiladwyd yn bennaf â sorod o'r ffwrneisi a sgil-gynhyrchion diwydiannol eraill o Waith Dur Margam (Tata Steel bellach). Roedd y domen wreiddiol, heb ei leinio, sy'n dyddio'n ôl i'r 1970au, yn rhyddhau trwytholchion costig sylweddol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn draenio i Weunydd Margam gerllaw. Pan gyflwynwyd rheoliadau llym ynghylch tirlenwi, cafodd y safle ei ddatgomisiynu yn y pen draw, ei gapio a'i orchuddio â leinin didraidd. Yn dilyn hynny, yn unol â'r rheoliadau amgylcheddol newydd cysylltiedig â'r rheoliadau cynllunio, dechreuwyd ar raglen o arolygon ecolegol (bioamrywiaeth) ac mae'r gwaith o adfer a datblygu'r safle mosaig agored hwn wedi cael ei fonitro a'i gofnodi bob blwyddyn ers hynny. Hyd yn hyn, cofnodwyd cyfanswm o 640 o rywogaethau ar Domen y Morfa a'r ardaloedd ymylol cyfagos. Mae'r rhain yn cynnwys mamaliaid (5), ymlusgiaid (5) adar (80), infertebratau (98) bryoffytau (71), ffyngau macroscopig (22), cennau (22) a phlanhigion fasgwlaidd (337).

Un o'r datblygiadau ecolegol mwyaf arwyddocaol ar y safle 93ha hwn yn ystod y ddau ddegawd diwethaf yw'r tywod sydd wedi cronni yno ar ôl cael ei chwythu o Draeth y Morfa a gweddillion y twyni a oedd i'r gorllewin o'r domen. Mae hyn wedi creu tirlun tebyg i dwyni sy'n parhau i esblygu ac sydd bellach yn cynnal casgliad cyfoethog ei rywogaethau o blanhigion fasgwlaidd. Yn eu plith mae enghreifftiau hynod o degeirianau megis Troellig yr Hydref, Tegeirian y Wenynen, Caldrist y Gors, y Galdrist Lydanddail, Tegeirian y Waun, Tegeirian-y-gors Cynnar a Thegeirian-y-gors Deheuol. Ymhlith y rhywogaethau eraill sy'n werth eu nodi mae Glesyn-y-gaeaf Deilgrwn, y Farchrawnen Fraith a dau neoffyt prin, sef y Llygwyn Had Garw a Gorudd Ffrainc.

Mae system o byllau a ffosydd ar y domen wedi'i chapio yn gynefin i amrywiaeth o rywogaethau dyfrol megis Crafanc-y-frân Feinddail, y Dyfrllys Bach a Rhawn yr Ebol, ac mae'r fflora datblygedig sy'n codi o'r dŵr yno yn cynnwys Cyrs, Llafrwyn, Llafrwyn Arfor, a Grawnlllys-y-dŵr Rhosliw, ymhlith eraill.

Mae glaswelltir twyni, sy'n cynnwys rhywogaethau lliwgar megis Teim Gwyllt, y Blucen Felen, Pig y Crëyr, Pig yr Aran a'r Gwiberlys yn tyfu wrth droed y safle tirlenwi lle mae rhywogaethau gaeaf blynyddol, lled-sefydlog megis Peryn y Graig i'w canfod hefyd. Gweiriau bras megis Corsen Fach y Coed a'r Marchwellt Arfor yw'r nodwedd amlycaf ar ochr ddwyreiniol y domen. Ar y llaid tywodlyd gwlyb noeth i'r gorllewin o'r domen wedi'i chapio, mae cymuned hynod o ddiddorol wedi datblygu sy'n cynnwys Brwyn y Broga a Grisial-lys Ceudyllog. Mae'r posibilrwydd o ddatblygu systemau llaciau twyni cyfoethog eu rhywogaethau ar Domen y Morfa yn rhywbeth a ddisgwylir yn eiddgar. Mae nifer o fannau eisoes yn cynnal cymunedau o Gorhelyg gyda Glesyn-y-gaeaf Deilgrwm a phoblogaethau hynod o ffwng prin y Cap Ffibr Cringoch.

Mae'r rhywogaethau o ffawna â blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â Thomen y Morfa yn cynnwys y Gardwenynen Feinlais, y Gornchwiglen a'r Ysgyfarnog.

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD MOSAIG AGORED YN CNPT

Cam Gweithredu	Manylion
Rheoli	Mae angen strategaeth reoli gydlynol ar gyfer safleoedd mosaig agored bioamrywiol er mwyn gallu darparu cynefinoedd lloches ar gyfer rhywogaethau sy'n brin ac yn prinhaus. Dylai rheoli bioamrywiaeth yn yr hirdymor fod yn rhan annatod o waith cynllunio ac mae gofyn rhoi'r gorau i blannu llwyni anfrodorol yn ddiodyn am resymau amwynder
Gwarchod	Gwarchod safleoedd trwy eu dynodi, lle bydd modd, rhag iddynt gael eu colli yn sgîl datblygu, adferiad amhriodol, plannu coed, plannu cnydau biodanwydd ac ati
Cynyddu Ymwybyddiaeth	Mae diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y safleoedd hyn o ran bioamrywiaeth yn fygythiad sylweddol i'r cynefinoedd hyn. Cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd lle bydd hynny'n bosib
Monitro Rhywogaethau Prin	Parhau i fonitro'r rhywogaethau prin a'r rhywogaethau a warchodir a geir mewn cynefinoedd mosaig agored yn CNPT, e.e. Penigan y Porfeydd, Brenhinllys y Maes a'r Gardwenynen Feinlais

CYNEFINOEDD MOSAIG AGORED



TIR FFERMIO AMGAEEDIG

TROSOLWG


Gallai ardaloedd o dir ffermio amgaeedig gynnwys amrywiaeth o gynefinoedd bioamrywiol megis Glaswelltiroedd Corsiog a Mesotroffig, ond trafodir y cynefinoedd penodol hynny mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon o dan benawdau cynefinoedd cyffredinol eraill. Yn achos y ddogfen hon, mae Tir Ffermio Amgaeedig yn cynnwys categorïau fel tir âr, tir pori wedi'i wella, waliau cerrig sych a therfynau caeau yn unig, sy'n gynefin ar gyfer 10% o'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn CNPT ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol o ran cysylltedd â chynefinoedd cyffredinol eraill megis Rhostiroedd a Gweundiroedd, Glaswelltiroedd wedi'u Lled-wella a Choetiroedd. Mewn mannau addas, mae modd gweld rhywogaethau nodedig megis y Dylluan Wen, y Llinos, yr Ehedydd, yr Ysgyfarnog a Gweirglöyn Bach y Waun ond nid yw'r un o'r rhain wedi'i gyfyngu i Dir Ffermio Amgaeedig yn unig yn y sir.

Nodweddir llawer o'r Tir Ffermio Amgaeedig yn CNPT gan dir pori wedi'i wella yn bennaf sy'n isel ei fioamrywiaeth tra bod y tir âr wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ardaloedd bach rhwng Margam ac Afon Cynffig yn sector de'r sir. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon manwl o'r cynefinoedd hyn. Mae arolygon rhagarweiniol yn awgrymu bod caeau âr yn cynnal cymunedau o fryoffytâu nodweddiadol ond ychydig a wyddom am eu fflora chwyn âr. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd bwydo pwysig i'r Llinos a'r Ddrudwen, ynghyd â'r Golomen Wylt a'r Gornchwiglen ambell waith.

Yn gyffredinol, mae sefyllfa byd natur y perthi terfyn ar dir ffermio amgaeedig yn wael tra bod y waliau cerrig sych sy'n dal i fodoli mewn cyflwr rhesymol ger y llinell amgáu uchaf, yn cynnig cyfleoedd bridio ar gyfer Tinwen y Garn a chynefinoedd ar gyfer Gwenciöd, mamaliaid bach eraill, bryoffytâu a chennau.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Tir Ffermio Amgaeedig wedi darparu cynefin pwysig i'r Barcud Coch a'r Boncath ond gwelwyd gostyngiad arwyddocaol mewn bywyd gwyllt ar dir amaethyddol yn CNPT yn ystod yr hanner canrif diwethaf, ac mae colli'r Bras Melyn a'r gostyngiad mawr yn niferoedd adar eraill sy'n gysylltiedig â thir amaethyddol, e.e. y Drudwen a'r Llinos, yn werth eu nodi. Fodd bynnag, mae'r blychau nythu a ddarparwyd ar gyfer y Dylluan Wen mewn adeiladau amaethyddol wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn ddiweddar. Y tu hwnt i hyn, mae ein gwybodaeth am sefyllfa byd natur ar dir ffermio amgaeedig yn CNPT yn gyfyngedig gan nad yw cyfran fawr ohono erioed wedi cael ei harolygu ac ychydig iawn o gofnodion sydd gennym ar gyfer y cynefinoedd hyn ar hyn o bryd.





Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Glaswelltir wedi'i wella	3733.73
Tir âr wedi'i drin/yr aflonyddir arno	247.24
Cyfanswm	3978.94
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	8.8%

TIR FFERMIO AMGAEEDIG

RHYWOGAETHAU



YSGYFARNOG

Mae Ysgyfarnogod i'w canfod ledled CNPT mewn cynefinoedd ar yr arfordir a'r gweundir ac er nad ydynt yn wynebu bygythiad difrifol yn y sir, mae eu niferoedd wedi lleihau o ganlyniad i gollu cynefinoedd, erledigaeth a hela. Fe'u gwelir yn fwyaf aml ar dwyni arfordirol ond mae eu niferoedd yno wedi lleihau'n sylweddol yn ystod yr hanner canrif diwethaf, yn enwedig yn Nhwyni Crymlyn, lle caent eu gweld yn aml yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n galonogol eu gweld yn y system dwyni newydd a datblygol ar Domen y Morfa. Mae poblogaethau'r ysgyfarnog wedi prinhau hefyd yn sgîl colli cynefinoedd yn yr ucheldir o ganlyniad i ddatblygiadau amaethyddiol a choedwigaeth.



EHEDYDD

Mae'r Ehedydd yn dal i fridio'n gyffredin yn CNPT mewn cynefinoedd addas megis twyni tywod, morfeydd heli a thir pori garw ar yr ucheldir. Mae niferoedd arwyddocaol i'w canfod hefyd ar y glaswelltir a adferwyd sydd wedi datblygu ar safle glo brig y Selar uwchben Cwmgwrach. Fodd bynnag, mae gwelliannau amaethyddol a choedwigaeth conifferau wedi cael effaith negyddol arnynt mewn sawl rhan o'r sir. Yn ystod y gaeaf, mae poblogaethau'r ucheldir yn symud i ardaloedd iseldir megis Twyni Crymlyn lle mae adar mudol ar eu taith yn aml yn ymuno â'r adar lleol, gan chwyddo'r niferoedd i fwy na 200 ar hyd yr arfordir.



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BATHYSTATH PŴLLE LLEOL, GATLLELLEN PORT TALBOT

TIR FFERMIO AMGAEEDIG

SEFYLLFA BYD NATUR AR

TIR FFERMIO AMGAEEDIG

YN CNPT

Mae ein gwybodaeth am Dir Ffermio Amgaeedig yn CNPT yn gyfyngedig ac mae angen cael mwy o ddata o arolygon er mwyn deall y cynefin pwysig hwn yn well. Ar hyn o bryd, ni allwn gynnig asesiad rhesymol o gadernid a sefyllfa byd natur yn y math hwn o gynefin.

ASTUDIAETH ACHOS; PROSIECT Y DYLLUAN WEN, CNPT

Er bod y Dylluan Wen wedi'i henwi ar y rhestr o rywogaethau sy'n "Achosi'r Pryder Lleiaf" o ran perygl difodiant yn ôl yr Undeb Rhyngwladol er Cadwraeth Natur (IUCN), mae'r aderyn pwysig hwn wedi prnhau ar dir amaethyddol ledled Cymru ac Ewrop gyfan. Mae nifer o resymau dros y dirywiad hwn ond mae colli mannau clwydo a safleoedd nythu yn sgîl cyfnewid hen ysguboriau amaethyddol am adeiladau cyfatebol modern yn un ohonynt. Yn ffodus, mae'r Dylluan Wen yn fwy na pharod i ddefnyddio blychau nythu gwneud sydd, o'u gosod ger cynefin bwydo addas, yn aml yn gallu arwain at raglen bridio a magu llwyddiannus.

Yn 2009, aeth PNL CNPT (Fforwm Bioamrywiaeth CNPT ar y pryd) ati i gomisiynu dau arolwg gan Ecolegwyr proffesiynol - Arolwg o Gynefin y Dylluan Wen ac Arolwg o Dylluanod Gwynion sy'n Bridio. Dangosodd yr arolygon fod y boblogaeth fridio yn cynnwys oddeutu 10 pâr ond bod cyfle i gynyddu'r boblogaeth trwy osod blychau nythu. Comisiynwyd Adarwr lleol i godi'r blychau hyn yn y safleoedd a nodwyd yn yr arolygon. Erbyn 2015, roedd 24 o flychau wedi cael eu codi ond dim ond dau ohonynt a gyrhaeddodd y cam magu yn llwyddiannus. Ers hynny, mae aelodau o'r PNL wedi nodi safleoedd eraill addas ar gyfer blychau nythu a hefyd wedi talu am ddeunyddiau i adeiladu rhagor o flychau. Bellach, mae 46 o flychau yn ein dalgylch ac yn 2021, ac roedd 10 o'r rhain wedi cyrraedd y cam magu yn llwyddiannus a chafodd cyfanswm o 34 o gywion eu modrwyo.

Mae gwaith cyfredol y grŵp yn cynnwys adeiladu a chodi blychau nythu, cynnal a chadw a glanhau'r blychau, trafod gyda thirfeddianwyr a'u cynghori ynghylch cadwraeth y dylluan wen, monitro llwyddiant y nythod a modrwyo'r cywion. Cynhelir y gwaith monitro a modrwyo o dan drwydded gan fod y Dylluan Wen wedi'i gwarchod o dan Atodlen 1 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.



Barn Owl ringing under license


CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER TIR FFERMIO AMGAEEDIG YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Prosiect y Dylluan Wen	Cefnogi parhad y prosiect i ddarparu a monitro blychau nythu ar gyfer y dylluan wen
Cofnodi Chwyn âr	Cynnal arolygon o chwyn âr lle bydd hynny'n bosib, er mwyn pennu pwysigrwydd tir âr yn CNPT
Gweithio gyda Ffermwyr	Bod y PNL yn ymgysylltu â ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n gweithredu er lles natur ac yn eu cefnogi, er enghraifft, trwy'r Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur
Grŵp Dolydd Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a CNPT	Annog ffermwyr a thirfeddianwyr i ymaelodi
Cynllun Ffermio Cynaliadwy	Ymgysylltu â'r cynllun ffermio cynaliadwy newydd a chynnig cymorth, lle bydd modd, ar gyfer gweithredu cysylltiedig â natur

TIR FFERMIO AMGAEEDIG

CYNEFINOEDD TREFOL



TROSOLWG


Mae Cynefinoedd Trefol megis adeiladau, parciau a gerddi sy'n cynnal 5% o'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn CNPT er nad oes yr un ohonynt wedi eu cysylltu'n benodol â'r categori o gynefin cyffredinol hwn. Serch hynny, gan fod Cynefinoedd Trefol yn cwmpasu mwy na 15% o arwyneb tir CNPT, mae potensial sylweddol i wella bioamrywiaeth trwy greu a rheoli rhwydweithiau o erddi, parcdir ac adeiladau sy'n cefnogi natur. Maent yn gynefinoedd arbennig o bwysig ar gyfer adar sy'n nythu o dan fondoeon tai, a rhywogaethau o ystlumod sy'n ymgartrefu mewn toeon ac mewn adeiladau dadfeiliedig. Caiff rhywogaethau pwysig eraill megis y Draenog a'r Neidr Ddefaid eu cysylltu'n gyffredin â gerddi trefol. Gall Cynefinoedd Trefol fod yn bwysig o ran cysylltedd, e.e. gall parciau fod yn 'gerrig camu' rhwng cynefinoedd ynghanol nodweddion trefol, tra gall tiroedd comin glaswelltog, ymylon ffyrdd a pherthi fod yn ffordd bwysig o gysylltu'r cynefinoedd hyn ar draws yr ardaloedd trefol. Gall gerddi sy'n caru gwenyn fod yn allweddol o ran cadwraeth pryfed peillio.

Mae'r Draenog yn rhywogaeth eiconig yn ein gerddi sydd wedi'i gofnodi yn y rhan fwyaf o aneddiadau trefol yn CNPT a gall rhai gerddi gynnig cyfleoedd i'r Mochyn Daear a'r Dyfrgi hefyd. Parc Margam yw un o'r safleoedd gorau ar gyfer ystlumod yn y Deyrnas Unedig, gan ddarparu manau clwydo a chynefin fforio ar gyfer 14 o'r 18 rhywogaeth o ystlumod yn y Deyrnas Unedig. Mae poblogaethau o Wylan y Penwaig, Aderyn y To a Gwennol y Bondo yn bridio ar adeiladau mewn manau addas, ond mae niferoedd y Wennol Ddu wedi lleihau yn sylweddol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Mae llyffantod yn bridio ym mhwl Cwm-Clydach cyn gwasgaru i erddi a chaeau cyfagos am weddill y flwyddyn. Ar hyd ardaloedd trefol Sandfields ac Aberafan, mae modd gweld gwenyn prin gan gynnwys y Gardwenynen Frown a'r Gardwenynen Feinlais yn fforio ar leiniau o flodau gwyllt.

O ganlyniad i Gyfnodau Clo COVID yn 2020, sylwodd PNL CNPT fod diddordeb y cyhoedd mewn cadwraeth natur wedi cynyddu wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o natur yn eu hardaloedd leol. Mae hwn yn gyfle pwysig i annog gweithredu priodol a chynyddu ymwybyddiaeth o sut gall pobl leol helpu natur yn lleol heb achosi niwed yn anfwriadol.



CYNEFINOEDD TREFOL



Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Parcdir / coed Llydanddail gwasgaredig	15.74
Parcdir/ conifferau gwasgaredig	291.28
Parcdir/coed gwasgaredig cymysg	10.52
Llysiau a rhedyn tal eraill - cynefinol	20.80
Tomen wastraff	6.69
Tir wedi'i drin/ aflonyddu - glaswelltir amwynder	858.89
Prysgwydd a gyflwynwyd	9.58
Ardaloedd adeiledig	5316.57
Adeiladau	539.98
Cyfanswm	7068.07
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	15.64%

CYNEFINOEDD TREFOL



RHYWOGAETHAU



Y DRAENOG

Mae'r Draenog wedi'i gofnodi'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol CNPT, er bod llawer o'r cofnodion hyn yn ymwneud â marwolaethau ar y ffyrdd. Mae peryglon croesi ffyrdd, ynghyd â phwysau eraill megis rhwystrau rhwng gerddi a defnyddio pelenni gwenwynig i ladd gwllithod yn cyfrannu at ddirywiad y rhywogaeth eiconig hon. Mae'r ffasiwn o ran gerddi 'taclus', hawdd eu cynnal yn golygu bod 'cyfaill yn garddwr' yn colli rhagor o gynefin.



Y WENNOL DDU

Mae'r ymwelydd haf hwn yn bridio'n bennaf mewn ardaloedd trefol yn CNPT ond yn ôl y cofnodion mae nifer yr adar y cadarnhawyd eu bod yn bridio wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf. Credir bod y dirywiad hwn i raddau yn ganlyniad i gollu cyfleoedd nythu wrth i adeiladau gael eu hadnewyddu yn unol â safonau modern. Gallai darparu blychau nythu neu gynnwys briciau gwenoliaid duon mewn adeiladau addas helpu i gynyddu nifer y safleoedd nythu sydd ar gael.



Y LLYFFANT

Rhywogaeth arall sy'n dueddol o farw ar y ffyrdd yn CNPT yw'r Llyffant. Yn y gwanwyn, mae cannoedd o lyffantod yn mudo ar draws yr ardaloedd trefol er mwyn cyrraedd eu pyllau bridio. Mae'r astudiaeth achos isod yn disgrifio sut mae rhai o aelodau'r PNL yn gweithio i wella'r sefyllfa hon. Mae'n debygol bod Llyffantod wedi'u dosbarthu'n dda yn CNPT, ond maen nhw wedi'u tangofnodi.



SEFYLLFA BYD NATUR YN Y

CYNEFINOEDD TREFOL

YN NPT

Mae byd natur yn wynebu heriau sylweddol yn y tirlun trefol ac mae rhywogaethau o dan fygythiad oherwydd colli safleoedd nythu, diffyg cysylltedd a rheoli cynefinoedd yn amhriodol (e.e. torri gwair yn ystod y tymor blodeuo), ymhlith pethau eraill. Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd trefol yn CNPT yn cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt, nid yw hyn wedi'i gynllunio mewn llawer o ardaloedd ac mae angen i ragor o fannau mewn ardaloedd trefol gael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw yn benodol er lles natur. Mae llawer o rywogaethau mewn cynefinoedd trefol yn CNPT wedi prnhau'n sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf, e.e. gwenoliaid duon a draenogod.

Mae cynefinoedd trefol yn cynnal 13 o rywogaethau â blaenoriaeth ac felly aseswyd eu bod mewn cyflwr gweddol o ran eu hamrywiaeth. Mae'r cysylltedd rhwng tirweddau trefol yn dda, ond mae'n anodd mynegi hyn yn benodol yn nhermau cysylltedd da rhwng cynefinoedd. Er enghraifft, ni wyddom beth yw lefel y cysylltedd rhwng gerddi yn achos rhywogaethau fel y Draenog a'r Neidr Ddefaid. Ni chaiff y rhan fwyaf o gynefinoedd trefol yn CNPT eu rheoli gyda golwg ar fioamrywiaeth ac mae cynefinoedd yn cael eu colli'n rheolaidd o ganlyniad i weithgareddau dynol, e.e. colli safleoedd nythu gwenoliaid duon wrth i adeiladau gael eu hatgyweirio, felly mae eu cyflwr yn wael. Gan gymryd hyn i gyd i ystyriaeth, aseswyd bod sefyllfa byd natur a chadernid y Cynefinoedd Trefol yn CNPT mewn cyflwr **gweddol**.

PROSIECTAU CYFREDOL



CARU GWENYN CNPT

Cynllun i gynyddu arwynebedd a chwmpas glaswelltir blodau gwyllt (h.y. ymylon ffyrdd a dolydd mwy a reolir i annog blodau gwyllt a phryfed peillio) yn CNPT.

Partner sy'n Gyfrifol: Cyngor CNPT



SEILWAITH GWYRDD

Mae nifer o brosiectau seilwaith gwyrdd ar waith ar draws y sir, er enghraifft, gosodwyd toeon gwyrdd yn ddiweddar ar gynwysyddion ym Mharc Gwledig Craig Gwladus.

Partner sy'n Gyfrifol: Amrywiol



PATROLAU LLYFFANTOD

Bu Grŵp Amgylchedd Bryncoch yn cynnal patrôl llyffantod bob gwanwyn ers 2006 i achub llyffantod ar y ffyrdd yn ardal Bryncoch. Gallwch ddarllen rhagor yn yr astudiaeth achos isod.

Partner sy'n Gyfrifol: Grŵp Amgylchedd Bryncoch



GWARCHODFEYDD NATUR SY'N GERRIG CAMU

Creu cynefin trwy gyllid Lleodedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, e.e. trwy gynlluniau 'o lwyd i wyrdd' megis Gwarchodfeydd Natur sy'n Gerrig Camu.

Partner sy'n Gyfrifol: Cyngor CNPT



PROSIECT MONITRO GWENOLIAID DUON

Prosiect cydweithredol gan aelodau o PNL CNPT i fonitro a chofnodi gwenoliaid duon yn CNPT, er mwyn cael gwybod ble mae gwenoliaid duon yn bridio yn y sir a ble dylid canolbwyntio'r ymdrechion cadwraeth.

Partner sy'n Gyfrifol: PNL CNPT



ASTUDIAETH ACHOS; PATRÔL LLYFFANTOD BRYNCOCH

Er eu bod yn cael eu cysylltu â dŵr, mae llyffantod ac amffibiaid eraill yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn ar dir. Pan nad ydynt wrth y pyllau bridio, maen nhw ar wasgar yn yr ardaloedd gwledig cyfagos. Fodd bynnag, bob gwanwyn, mae'r llyffantod yn dychwelyd i'w pyllau silio yn eu heidiau. Mae'n well ganddyn nhw byllau dyfnach, mwy o faint na brogaod ac maen nhw'n eithaf teyrngar i safleoedd penodol. Mae hyn yn golygu eu bod yn gorfod teithio'n bell, yn aml trwy ardaloedd trefol lle mae'n rhaid iddynt groesi ffyrdd ar eu taith.

Bob blwyddyn ers 2006, yn ystod tymor mudo'r llyffantod (mis Mawrth neu oddeutu hynny), mae aelodau o Grŵp Amgylchedd Bryncoch (GAB) yn mynd allan bob nos i achub llyffantod ar y ffyrdd lleol wrth iddynt deithio i'w pyllau bridio. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn, achubwyd 970 o lyffantod ac achubwyd 799 yn 2019. Yn ystod y 13 blynedd diwethaf, mae miloedd o amffibiaid wedi cael eu hachub gan aelodau GAB gyda chymorth nifer mawr o wirfoddolwyr sy'n pryderu bod niferoedd llyffantod a brogaod wedi prnhau yn ystod y degawdau diwethaf.

Un o'r problemau mwyaf y mae'n rhaid i GAB ei goresgyn yw achub y nifer mawr o lyffantod sy'n syrthio i mewn i ffosdyllau draenio ar ochrau ffyrdd ac yn methu dianc oddi yno. O ganlyniad, mae'r gwirfoddolwyr yn treulio llawer o'u hamser ar "batrôl llyffantod" yn codi'r caeadau oddi ar ffosdyllau ac yn achub y llyffantod â rhwydi pysgota. Maen nhw wedyn yn rhoi'r llyffantod wedi'u hachub mewn bwcedi ac yn mynd â nhw yn syth i'r pwll silio. Er mwyn lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar wirio pob ffosdwell, gwnaeth y grŵp gais i'r PNL am gyllid i brynu 'ysgolion llyffantod', sef strwythurau a ddyluniwyd yn benodol i eistedd yn y ffosdyllau a galluogi'r llyffantod i ddianc ar ôl cwmpo i mewn iddynt. Llwyddodd y PNL i brynu deg ysgol ar gyfer y grŵp, a gosodwyd y rhain mewn ffosdyllau o amgylch Bryncoch.



CYNEFINOEDD TREFOL

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD TREFOL YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Adfer gwenoliaid duon	Mae'r poblogaethau o Wenoliaid Duon sy'n bridio yn CNPT yn prinhau. Mae angen asesu statws a dosbarthiad presennol y Wennol Ddu yn y sir a chymryd camau priodol i atal y dirywiad hwn
Caru Gwenyn CNPT	Parhau i gynyddu nifer y lleiniau ymyl ffordd a reolir yn weithredol er lles blodau gwyllt ac ehangu eu cwmpas trwy ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned
Parciau, Glaswelltir Amwynder a Mynwentydd	Asesu gwerth bioamrywiaeth parciau a glaswelltir amwynder yn CNPT a nodi cyfleoedd i wella cynefin, er enghraifft, trwy reoli glaswelltir neu blannu planhigion addas ar gyfer pryfed peillio wrth dirweddu
Seilwaith Gwyrdd	Gosod mwy o seilwaith gwyrdd, e.e. toeon gwyrdd, waliau byw
Strydoedd Caru Gwenyn	Annog gerddi cyfeillgar i natur mewn ardaloedd trefol
Canolfannau garddio di-fawn	Cynnal prosiect i ysbrydoli canolfannau garddio yn CNPT i roi'r gorau i ddefnyddio mawn
CNPT dros Natur	Parhau i gefnogi pobl sy'n gweithredu dros natur yn y sir trwy is-grŵp y PNL - CNPT ar gyfer Natur



CYNEFINOEDD DŴR CROYW



TROSOLWG


Mae ecosystemau dŵr croyw yn gynefinoedd i un o bob pump o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT, y mae llawer ohonynt wedi'u cysylltu'n benodol â'r cynefin hwn. Mae cynefinoedd penodol yn y categori hwn yn cynnwys afonydd ac is-afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr, ffosydd draenio a ffosydd, a nifer o byllau dŵr sydd wedi'u gwasgaru ar draws y sir. Mae'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn cynnwys y Dyfrgi, Llygoden Bengron y Dŵr, Gwyach Fawr Gopog, Bronwen y Dŵr, Gwybedog Mannog, Neidr y Gwair, Madfall Gribog, Eog Iwerydd, Brithyll a Sewin, Corryn Rafft y Ffen, Brwynen Flodeuog, Gwair Merllyn, Bidoglys y Dŵr, Cleddlys Arnofiol a Myrdd-ddail Troellennog.

Ymhlith y cyrff dŵr croyw mwy o faint yn CNPT, mae Llyn Fach yn unigryw gan mai hwn yw'r unig lyn mynydd oligotroffig sylweddol ym Morgannwg. Mae'r gymuned ddyfrol a geir yma, sy'n cynnwys Bidoglys y Dŵr, Gwair Merllyn a Chleddlys Arnofio, yn rhoi nawws fynyddig unigryw iawn i'r safle. Ar ben hynny, mae'r boblogaeth o Lygod Pengrwn y Dŵr a ddarganfuwyd yno yn ddiweddar, ac y credid cyn hynny ei bod wedi diflannu o'r sir, wedi cadarnhau pwysigrwydd y safle hwn o ran bioamrywiaeth y sir. Ymhlith llynnoedd a chronfeydd dŵr mawr eraill CNPT mae Cronfa Ddŵr Eglwys Nunydd, sy'n safle pwysig ar gyfer yr adar gwyllt sy'n gaeafu yno ac yn gynefin bridio ar gyfer Gwyachod Mawr Copog.

Mae Camlesi Nedd, Abertawe a Thenant yn cynnal amrywiaeth o llystyfiant dyfrol a llystyfiant sy'n codi o'r dŵr ac yn allweddol o ran cysylltu nifer o gynefinoedd ffen, gwern a chors yn y sir (e.e. Cors Crymlyn, Ffen Pant y Sais). Ymhlith y planhigion nodedig mae'r Frwynen Flodeuog, Llafnlys Mawr, Pumnalen y Gors a Rhawn y Gaseg sydd fel arall yn brin yn CNPT. Mae'r holl fursennod a gweision y neidr cyffredin i'w canfod yma ynghyd â rhywogaethau eraill mwy hynod megis y Fursen Las Amrywiol a'r Forwyn Dywyll. Mae presenoldeb Corryn Rafft y Ffen yn yr unig safle yng Nghymru, ar Gamlas Tenant yn arbennig o arwyddocaol. Mae'r ffosydd draenio ar Weunydd Margam yn cynnwys nifer o blanhigion dyfrol prin megis y Saethlys a'r Ffugalaw Bach.

Mae afon Afan ac afon Nedd a'u his-afonydd yn nodedig oherwydd eu poblogaethau o bysgod, yn enwedig salmonidau megis Eog yr Iwerydd, Brithyll a Sewin a hefyd oherwydd y poblogaethau o'r Penlletwad a'r Llysywen Ewropeaidd a geir yno. Mae Pibydd y Dorlan, Bronwen y Dŵr a'r Gwybedog Mannog ymhlith nifer o rywogaethau o adar nodweddiadol a gysylltir â'r afonydd hyn a chroesawyd Dyfrgwn yn ôl yma yn ystod y degawdau diwethaf. Mae Tormaen y Gweunydd sydd wedi colli tir sylweddol yng Nghymru yn dal i'w weld yn aml ar hyd glannau afon Nedd rhwng Aberdulais a Glyn-nedd.

Cofnodwyd bod statws cyrff dŵr y prif gysiau dŵr yn CNPT yn Dda/Rhagorol o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Fodd bynnag, mae nifer o faterion lleol yn dal i achosi pryder ar afonydd a chamlesi'r sir, e.e. rhywogaethau anfrodorol ymledol, llygredd dŵr o byllau glo a mwyngloddiau, gollwng carthion a phroblemau ewtroffigedd eraill.



Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Dŵr Agored	808.59
Merddwr	533.63
Merddwr- ewtroffig	0.53
Dŵr sy'n Llifo	91.46
Cyfanswm	1433.67
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	3.17%

CYNEFINOEDD DŴR CROYW

RHYWOGAETHAU



Y DYFRGI

Mae'r cynnydd ym mhoblogaeth Dyfrgwn ar lefel genedlaethol yn ystod y degawdau diwethaf yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ystyried yn arwydd o adnewyddu iechyd a bywiogrwydd naturiol ein cynefinoedd torlannol. Mae'r baw dyfrgi a welir yn helaeth ar greigiau a strwythurau cerrig eraill ar lannau afonydd yn dangos bod Dyfrgwn i'w canfod yn helaeth yn afonydd a chamlesi CNPT. Serch hynny, mae peth tystiolaeth fod eu niferoedd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai arwyddion eu bod yn cael eu herlid yn achlysurol.



EOG

Mae eogiaid i'w canfod yn systemau'r holl brif afonydd yn CNPT. Mae'n dod yn fwy a mwy amlwg bod Eogiaid yn wynebu argyfwng ledled y Deyrnas Unedig yn ogystal ag yng Nghymru gyda ffigurau'n awgrymu eu bod wedi prnhau 70% mewn 25 mlynedd (Ymddiriedolaeth Eog Iwerydd). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr astudiaeth achos isod.



BRONWEN Y DŴR

Mae Bronwennod y Dŵr i'w canfod ger nentydd anllygredig sy'n llifo'n gyflym ac fe'u gwelir yn rheolaidd yn nalgylchoedd y rhan fwyaf o afonydd y sir ar hyd y flwyddyn. Yn 2019 cadarnhawyd o leiaf 12 lleoliad bridio yn CNPT. Mae astudiaethau cyfredol o'r rhywogaeth hon sydd ar y rhestr ambr yn cynnwys rhaglen fodrwyo sydd ar waith ar afon Afan a'i hisafonydd, mewn ymgais i gynyddu ein gwybodaeth am lwyddiant bridio a chyfraddau goroesi yn lleol dros gyfnod o amser.

SEFYLLFA BYD NATUR Y CYNEFINOEDD DWR CROYW YN CNPT

Ceir cynrychiolaeth dda o ecosystemau dŵr croyw yn CNPT ac mae'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd penodol yn y categori hwn yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys cymunedau dyfrol a chorstir pwysig sy'n cyfrannu at gysylltedd cyffredinol corsydd, ffeniau a gwernau yn y sir. Mae nifer o'r rhain mewn cyflwr da neu resymol ond mae pryderon yn lleol ynghylch llygredd dŵr sy'n deillio o fwyngloddiau a phyllau glo, ewtroffigedd a rhywogaethau anfrodorol ymledol. Er bod ansawdd dŵr yr afonydd yn sicr wedi gwella yn ystod y degawdau diwethaf, sydd wedi helpu poblogaethau o bysgod salmonid a'u hysglyfaethwyr (e.e. y Dyfrgi), mae gofyn gwella ansawdd dŵr ymhellach.

Aseswyd bod cadernid a sefyllfa byd natur mewn ecosystemau dŵr croyw yn CNPT mewn cyflwr **gweddol**.



AILGYSYLLTU EIN HAFON - AFON AFAN

Dileu rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo trwy brosiect Ailgysylltu ein Hafonydd, prosiectau lleihau llygredd, rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol

Partner Cyfrifol: Prifysgol Abertawe / Clwb Pysgota a Chadwraeth Cwm Afan / yr Awdurdod Glo




MANNAU LLE MAE MARWOLAETHAU DYFRGWN AR Y FFYRDD YN BROBLEM

Mae gwaith i fonitro manau lle mae marwolaethau dyfrgwn ar y ffyrdd yn broblem yn nodi manau lle mae angen gweithredu i leihau'r perygl hwn lle bydd hynny'n bosibl.

Partner Cyfrifol: CNC


PROSIECTAU CYFREDOL



RHEOLI LLIFOGYDD YN NATURIOL

Mae nifer o brosiectau rheoli llifogydd yn naturiol ar waith ledled y sir, er mwyn gwella a chreu cynefinoedd ac atal peryglon llifogydd.

Partner Cyfrifol: Amrywiol



ADFER PYLLAU

Mae nifer o brosiectau adfer pyllau ar waith ledled y sir, er enghraifft, ym Mharc Jersey ac ym Mharc Gwledig y Gnoll.

Partner Cyfrifol: Amrywiol



MONITRO BLYCHAU NYTHU BRONWENNOD Y DŴR

Cafwyd cyllid gan y PNL i greu a chodi blychau nythu ac mae'r gwaith o fonitro poblogaeth Bronwen y DŴr ar afon Afan wedi dechrau.

Partner Cyfrifol: Grŵp Modrwyo Gŵyr



Y GYFARWYDDEB FFRAMWAITH DŴR

Caiff iechyd ein hafonydd ei fonitro'n rheolaidd trwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith DŴr.

Partner Cyfrifol: CNC

ASTUDIAETH ACHOS; EOG IWERYDD YN CNPT

Pysgodyn esgynnol yw Eog Iwerydd sy'n gallu byw am hyd at 13 blynedd. Mae'n dod yn fwy a mwy amlwg bod Eogiaid yn wynebu argyfwng ledled y Deyrnas Unedig yn ogystal ag yng Nghymru gyda ffigurau'n awgrymu eu bod wedi prinhau 70% mewn 25 mlynedd (Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd).

Yn ardal CNPT, nid yw afon Afan nac afon Nedd yn cael eu hystyried yn afonydd pwysig o ran Eogiaid ac felly mae llai o ddata ar gael i gadarnhau eu bod yn prinhau. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael gan bysgotwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu bod y ffigurau lleol yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod y sefyllfa'n argyfyngus. Cofnodwyd yr Eog cyntaf i'w ddal â gwialen am fwy na chan mlynedd ar afon Afan yn 1988. Gwelwyd cynnydd cymharol fach ers hynny gyda ffigurau'r tymor diwethaf (2021) yn 19 Eog, pob un wedi'i ryddhau'n ddianaf. Mae ansawdd dŵr yr afon yn sicr wedi gwella ac mae'n well yn awr nag a fu ers degawdau ac felly dylai hynny annog y pysgod hyn i silio os byddant yn llwyddo i fudo'n ôl o'u manau bwydo. Mae'n ymddangos bod afon Afan yn dal ei thir fel afon fach, ond mae'n anodd bod yn obeithiol gyda bod cyn lleied o bysgod yn dychwelyd.

Mae ffigurau Eogiaid afon Nedd yn ystod yr 11 mlynedd diwethaf yn dangos lleihad sylweddol o'r 77 Eog a gofnodwyd yn 2011 i'r 16 Eog a gofnodwyd yn 2020.

Ymddengys bod goroesiad gleisiaid a gleisiaid aeddfed yn broblem ar bob afon yn Ne Cymru. Mae'r gyfradd sy'n goroesi ac yn dychwelyd fel oedolion wedi gostwng o 15% yn y 1980au i ddim ond 3% yn fwy diweddar. Mae'r Eog yn sicr yn prinhau o ganlyniad i nifer o ffactorau sy'n amrywio o'r straen ar yr amgylchedd morol i'w effeithlonrwydd bridio mewn dŵr croyw. Gall ddioddef colledion mawr 'yn yr afon' o ganlyniad i gyfuniad o rwystrau gwneud a'r adar/Dyfrgwn sy'n eu bwyta. Am y rheswm hwn, bydd y sylw yn y dyfodol yn troi mwy a mwy tuag at daith y gleisiaid i lawr yr afon a thros y goredau niferus. Am y tro, mae ymdrechion ar waith i atal y dirywiad yn y boblogaeth trwy wahanol ddeddfau a mentrau mewn dalgylchoedd dŵr ond y gwir amdani yw bod yr anifeiliaid gwych hyn mewn perygl o ddod yn ystadegyn moel arall.

Clwb Pysgota a Chadwraeth Cwm Afan



CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD DŴR CROYW YN CNPT

Cam Gweithredu	Manylion
Gwyo Gorlif Carthffosydd Cyfun	Gwyo'r Gorlif Carthffos Cyfun ar Nant y Clais yng Nghwmfan i'r brif afon er mwyn atal ewtroffigedd yn Nant y Clais, a fu'n is-afon fridio gynhyrchiol ar gyfer Eog, Sewin a Brithyll. Lleihau llygredd o Orlif Carthffosydd Cyfun ar draws y sir lle bydd hynny'n bosibl
Rheoli Llifogydd yn Naturiol	Mapio cyfleoedd ar gyfer prosiectau posibl i reoli llifogydd yn naturiol a'u datblygu, lle bydd hynny'n briodol, mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn uchel
Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy	Annog defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy megis traethbantau a gerddi glaw, yn enwedig mewn datblygiadau newydd a chanolfannau trefol er mwyn creu cynefinoedd, lleihau llygredd a lleihau perygl llifogydd
Llygredd dŵr o byllau glo a mwyngloddiau	Lleihau llygredd dŵr o byllau glo a mwyngloddiau ar draws y sir



CYNEFINOEDD DŴR CROYW

CYNEFINOEDD GWLYPTIR



TROSOLWG


Mae ardal CNPT yn ffodus bod yno nifer o safleoedd gwlyptir pwysig sydd, gyda'i gilydd, yn cynnal un o bob pump o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn y sir. Mae cynefinoedd penodol yn y categori hwn yn cynnwys ffen, gwern a gorgorsydd ombrotroffig (corsydd).

Mae nifer da o gynefinoedd ffen sy'n cynnwys llawer o gyrs a graminoidau tal eraill i'w canfod yn CNPT ac mae Cors Crymlyn (i'r dwyrain o Gamlas Glan y Wern) a Ffen Pant y Sais yn enghreifftiau amlwg o'r rhain. Mae Plu'r Gweunydd Eiddil, sef rhywogaeth sy'n brin ar lefel genedlaethol ac a restrir yn y Llyfr Data Coch, i'w canfod ar y ddau safle ynghyd â rhestr hir o blanhigion hynod eraill megis y Llafnlys Mawr, y Cleddlys Bach, Cynffon-y-gath Gilddail, Rhawn y Gaseg, Pumnalen y Gors, Melog y Waun, y Rhedynen Gyfrdwy, y Gorsfrwyn Llym a'r Trewyn. Gwelir darnau llai o gynefin tebyg i ffen mewn sawl man rhwng Jersey Marine ac Aberdulais sy'n cael eu cysylltu gan Gamlas Tenant ac mae darnau mawr o gorstir cyrs yn bennaf hefyd ar y gors bori rhwng Castell-nedd a Thonna ac yn agos ati ac ar Weunydd Margam. Mae darn o ffendir arfordirol diddorol yng nghyffiniau lardiau Trefnu Cynffig, ger y Morfa. Mae'r Hesgen Gynffonnog, Clwbfrwynen y Coed, Corsfrwyn Llym a'r Gegiden Bibellaidd i'w canfod yma, yr olaf o'r rhain yn un o'i safleoedd prin yn Ne Cymru. Mae'r holl gynefinoedd hyn yn bwysig ar gyfer adar y corstir megis Telor Cetti, y Troellwr Bach, Boda'r Gwerni, Bras y Cyrs, Telor y Cyrs, Telor yr Hesg a'r Rhegen Ddŵr yn ogystal ag ymlusgiaid megis Neidr y Gwair a'r Madfall Gyffredin. Mae nifer dda o bryfed hefyd, yn enwedig mursennod (e.e. y Fursen Las Amrywiol) a gweision y neidr (e.e. Gwas Neidr Flewog). Mae'r boblogaeth o Gorynnod Rafft y Ffen ar Gamlas Tenant rhwng Cors Crymlyn, Pant y Sais a'r Siaced Goch yn amlwg yn elwa o'r cysylltiadau rhwng y cynefinoedd ffen a dyfrol yma.

Mae ardaloedd helaeth o gyforgors ombrotroffig yn anghyffredin yn CNPT ond mae gan rannau o Gors Llwyn ger Onllwyn strwythur cyforgors. Mae'r Hesgen Duswog a'r Hesgen Rafunog Fawr yn amlwg ar y safle hwn, sydd hefyd yn cynnwys Melog y Waun, Eurinllys y Gors a phoblogaeth fewndirol ddiddorol o Galdrist y Gors. Mae'r ardaloedd o ffen corsiog â llystyfiant tal yma ac mewn cynefinoedd cyfagos ecolegol gysylltiedig yn cynnwys poblogaethau enfawr o Ffa'r Gors ynghyd â'r Hesgen Gylfinfain, Marchrawnen y Dŵr a'r Trewyn. Ddegawdau yn ôl, yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, roedd y Gronnell i'w chanfod ar Gors Llwyn ond ni welwyd mohoni yn ddiweddar. Mae'r gyforgors ar dir isel yn Fforest Goch ger y Rhos hefyd yn nodedig am yr amrywiaeth o gymunedau gwlyptir a geir yno, sy'n cynnwys poblogaeth o Hiclys y Gors, sef math o lys yr afu sy'n brin yn Ne Cymru. Mae ardaloedd llai o laciau tir corsiog a lifolchir i'w canfod yn helaeth yn nhirweddau gweundir rhan uchaf Cwm Dulais ac yn ardal y Gwrhyd rhwng Cwmllynfell a Rhyd-y-Fro lle mae'r Hesgen Rafunog Fawr, yr Ysbigfrwynen Gadeiriog, Eurinllys y Gors a'r Hesgen Benwen i'w canfod.

Yn ystod y 70 mlynedd diwethaf, mae ardaloedd helaeth o gynefinoedd ucheldir ar fawn dwfn yn CNPT wedi cael eu haredig, eu draenio a'u plannu â chonifferau. Mae hyn wedi cyfrannu at golli cynefin gwlyptir sylweddol yn y sir, sydd bellach ond yn cwmpasu 1% o arwynebedd tir y sir. Fodd bynnag, mae rhai darnau o gynefin gwlyptir wedi goroesi mewn planigfeydd ac mae prosiectau sy'n ceisio adfer mawndiroedd coll eraill ar waith.





Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Gorgors migwyn	1.71
Cyforgors migwyn	7.71
Cors wlyb wedi'i haddasu	3.20
Cors sych wedi'i haddasu	234.28
Llac a ffynnon	0.00
Llac a ffynnon - llaciau asidaidd/niwtral	355.33
Ffen	9.61
Cyforgors dyffryn wedi'i haddasu	n/a
Gwern	100.96
Cyfanswm	713
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	1%

RHYWOGAETHAU



LLYGODEN BENGRON Y DŴR

Roedd Llygod Pengrwn y Dŵr yn nodwedd eithaf cyffredin o gynefinoedd gwlyptir a dyfrol yn CNPT 60 mlynedd yn ôl, ond maen nhw wedi prnhau'n drychinebus yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'n fwy na thebyg bod colli cynefinoedd ac ysglyfaethu gan Fincod Americanaidd yn rhan bwysig o'r dirywiad hwn. Fodd bynnag, darganfuwyd poblogaeth arwyddocaol o Lygod Pengrwn y Dŵr yn ddiweddar mewn ardaloedd gwlyptir oddi mewn i blanigfeydd conifferau ar dir uchel yn y sir. Mae prosiectau adfer cynefinoedd mawnog bellach yn ymgorffori gwaith rheoli er lles llygod pengrwn y dŵr ac yn monitro'r poblogaethau yma.



MIGWYN

Genws o'r adran bryoffyt yw migwyn sy'n cynnwys nifer o rywogaethau sy'n nodweddiadol o ardaloedd gwlyb gan gynnwys mawndiroedd a llaciau. Mae ffurf dyfu nodweddiadol y planhigion pwysig hyn yn cynnwys canghennau mewn grwpiau o'r enw ffasegellau ar hyd y coesyn, a man canol sy'n tyfu'n weithredol a elwir yn gapitwlwm, ar y brig. Gall migwyn amsugno a dal sawl gwaith ei bwysau sych o ddŵr ac mae'n beiriannydd ecosystemau ar gyfer cynefinoedd mawndir.



CORRYN RAFFT Y FFEN

Dyma gorryn mwyaf y Deyrnas Unedig ac un o'r rhai prinnaf. Gall corff y corryn trawiadol hwn dyfu i 23mm ac mae ganddo linell olau ar hyd un ochr ei gorff. Mae'r ysglyfaethwyr ffyrnig hyn, sy'n gallu dal a bwyta crethyll, i'w canfod mewn ychydig iawn o safleoedd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Camlas Tenant ger Jersey Marine. Fe'u gwelir fel arfer yn yr haf yn torheulo ar lystyfiant sy'n arnofio neu'n dod allan o'r dŵr. Mewn rhai blynyddoedd, maent i'w canfod mewn niferoedd cymharol fawr.



BATHURST NATURE PARTNERSHIP
BATHURST NATURE LODGE, CASTLE NEW PORT TALKOT

CYNEFINOEDD GWLYPTIR

SEFYLLFA BYD NATUR Y

CYNEFINOEDD GWLYPTIR

YN CNPT

Mae cynefinoedd ffen ar dir isel yn CNPT yn cynnal cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid amrywiol ac mae cysylltiad cyffredinol dda rhyngddynt a systemau gwlyptir eraill ar dir isel. Fodd bynnag, maen nhw mewn cyflwr gwael mewn mannau ac mae tystiolaeth o ewtroffigedd a llygredd yn ogystal â phroblemau o ran ymlediad prysgwydd olyniaethol a rhywogaethau anfrodorol ymledol, e.e Rhododendron yn Ffen Pant y Sais, a Helygen y Môr yn y cynefinoedd cors a ffen ger lardiau Trefnu Cynffig. Mae rhai systemau gwlyptir ar yr ucheldir megis Gors Llwyn mewn cyflwr rhesymol ond mae colli cynefinoedd gwlyptir eraill ar yr ucheldir trwy esgeulustod, coedwigo, datblygu a gwelliannau amaethyddol wedi peryglu eu cysylltedd. Yn gyffredinol, mae'r cynefinoedd gwlyptir yn CNPT yn fach, yn ddarniog a heb eu cysylltu'n dda.

Oherwydd hyn i gyd, gwelir bod cadernid y gwlyptiroedd yn CNPT yn eu crynswth yn sylweddol is na da ac, o ganlyniad, aseswyd bod sefyllfa byd natur y cynefinoedd hyn **yn wael**.

PROSIECTAU CYFREDOL



PROSIECT ADFER MAWNDIROEDD

Prosiect adfer mawndiroedd ar raddfa fawr wedi'i gyllido gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ardaloedd ucheldir CNPT a RhCT. Mae'r prosiect yn adfer cynefinoedd, yn ysbrydoli ac yn grymuso cymunedau lleol ac ymwelwyr i ddarganfod eu treftadaeth a dysgu mwy amdani.

Partner Cyfrifol: Amrywiol



RHEOLI GWLYPTIROEDD

Rheolir gwlyptiroedd mewn gwahanol safleoedd pwysig ar draws y sir, er enghraifft yn SoDdGA Gors Llwyn, Ffen y Siaced Goch a Ffen Pant y Sais.

Partner Cyfrifol: Amrywiol



ASTUDIAETH ACHOS; PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL

Cyflwynir prosiect 'Mawndiroedd Coll De Cymru' gan Bartneriaeth y Mawndiroedd Coll sy'n cynnwys Cyngor CNPT (Arweinydd), Cyngor RhCT, CNC, Prifysgol Abertawe a Coed Lleol. Mae'r prosiect yn darparu rhaglen gyffrous o welliannau amgylcheddol a gweithgareddau cymunedol rhwng 2021 a 2025.

Yn hanesyddol, roedd tirwedd yr ardal ucheldir rhwng CNPT a RhCT yng Nghymoedd De Cymru, y cyfeirid ati ar un adeg fel 'Alpau Morgannwg', yn fawndir corsiog ar weundir agored. Heddiw, rhai o nodweddion amlycaf y dirwedd hon yw planigfeydd coedwigaeth masnachol a ffermydd gwynt ynni adnewyddadwy, ond mae lleiniau mawr o fawn ar ôl o hyd. Mae mawn yn werthfawr dros ben o ran storio dŵr, storio carbon ac fel cynefin i fywyd gwylt. Mae cadwraeth mawndiroedd yn ffactor allweddol o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth.

Prif nod Prosiect y Mawndiroedd Coll yw adfer a rheoli mwy na 490 hectar o'r dirwedd hanesyddol a'r cynefinoedd hyn, sy'n cynnwys rhostir, glaswelltir a choetir brodorol. Rhoddir sylw yn benodol i adfer 256 hectar o fawnogydd a phyllau a goedwigwyd yn y gorffennol. Bydd gwaith i wella cynefinoedd yn annog llawer o'r rhywogaethau o fywyd gwylt lleol sy'n prinhau ar hyn o bryd i ffynnu unwaith eto. Mae'r rhain yn cynnwys adar fel yr Ehedydd a'r Troellwr Mawr; infertebratau fel gloënnod byw y Fritheg Werdd a'r Fritheg Berlog Fach; a mamaliaid, gan gynnwys Llygoden Bengron y Dŵr sydd mor anodd ei gweld.

Caiff y gwaith o adfer y mawn ei fonitro'n ofalus a bydd yn llywio gwaith ymchwil pwysig, parhaus gan Brifysgol Abertawe er mwyn arwain arfer gorau mewn technegau adfer a deall yr effaith ar fioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac allyriadau CO2. Bydd y prosiect hefyd yn hwyluso mynediad i'r dirwedd wyllt hon trwy ddarparu gwell llwybrau troed a chyfeirbwyntiau, a gwell dehongli.

Yn rhan o'r prosiect, bydd modd hefyd i bobl leol brofi ac ymwneud â'r dreftadaeth ar garreg eu drws a dysgu amdani trwy amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau am ddim, rhaglenni dysgu yn yr awyr agored ar gyfer ysgolion a chyfleoedd i wirfoddoli. Bydd modd i bobl feithrin gwybodaeth a sgiliau awyr agored newydd trwy raglenni hyfforddi penodedig. Bydd teuluoedd ac oedolion hefyd yn gallu ymuno â rhaglenni gweithgareddau iechyd a llesiant y prosiect neu gael eu hatgyfeirio iddynt.



Gwaith o adfer y mawn



BORTH TALBOT LODGE NATURE PARTNERSHIP
BARTNERIAETH MAWNDIROEDD COLL DE CYMRU

CYNEFINOEDD GWLYPTIR

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER Y CYNEFINOEDD GWLYPTIR YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Adfer mawndiroedd	Dylid mynd ar ôl cyfleoedd i adfer mawndiroedd sydd wedi dirywio pryd bynnag y bydd modd
Nodi, gwarchod, cysylltu a helaethu	Nodi cynefinoedd dŵr croyw lle mae ansawdd y dŵr yn dda, asesu'r hyn y gellir ei wneud i'w gwarchod nhw ac ystyried creu cynefinoedd dŵr croyw newydd, megis pyllau, a fydd yn gerrig camu rhwng cynefinoedd
SoDdGA Cors Fforest Goch	Mae angen i ddulliau adfer trwy bori gael eu hailgyflwyno'n briodol ar y safle hwn gan fod y gors mewn cyflwr anffafriol ar hyn o bryd
Adfer Pyllau	Adfer pyllau sydd wedi dirywio, e.e. ym Mharc Gwledig y Gnoll

CYNEFINOEDD GWLYPTIR



CREIGIAU A CHLOGWYNI MEWNDIROL




TROSOLWG

Y clogwyni tywodfaen sy'n wynebu'r gogledd yng Nghraig y Llyn, uwch ben Llyn Fach, yw'r enghraifft bwysicaf o'r math hwn o gynefin ym Morgannwg ac er mai cyfran fach yn unig o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT sy'n cael eu cynnal yma, mae cymuned o blanhigion boreal ac Arctig-fynyddig â statws unigryw yn y sir. Er enghraifft, mae rhywogaethau megis y Llusen Goch, y Greiglusen, yr Arianllys Bach, y Gorfiaeren, y Cnwp-fwsogl Mawr, Rhedynach Teneuwe Wilson, Rhedyn Tridarn, Ffiolredyn Brau, Rhedyn Corniog, Rhedyn Persli, Marchredyn y Mynydd, y Creigfwsogl Du (*Andreaea rupestris*) a'r Afal-fwsogl Anystwyth naill ai i'w canfod yma yn unig neu maen nhw'n anghyffredin iawn mewn rhannau eraill o CNPT.

Mae cerrig brig llai o faint sy'n wynebu'r gogledd, megis y rhai yng Nghraig y Pant yng Nghwm Nedd ac uwch ben y Cymer yn rhan uchaf Cwm Afan hefyd yn cynnal casgliadau diddorol o fryoffytau, sy'n cynnwys Hiclys yr Ucheldir, Paflys Boncyffion a'r Mwsogl sidan destlus (*Isopterygiopsis pulchella*) ynghyd â'r unig enghreifftiau o'r Dduegredynen Hirgul yn CNPT.

Yn y gorffennol, bu'r cynefinoedd hyn yn fannau bridio ar gyfer y Cudyll Coch, yr Hebog Tramor, Crec yr Eithin a Mwyalchen y Mynydd, er nad yw'r olaf wedi bridio yn y sir ers mwy na 50 mlynedd.





Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Clogwyn mewndirol	0.58
Sgri	11.73
Sgri - asidaidd/niwtral	1.19
Craig arall- asidaidd/niwtral	0.17
Chwarel	27.75
Cyfanswm	41.42
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	0.09%

RHYWOGAETHAU



RHEDYN

Mae clegyrau Craig y Llyn yn gartref i sawl rhywogaeth o redyn sy'n brin neu i'w canfod yn anfynd yn ne Cymru ac sy'n achosi pryder cadwraethol. Un o'r rhain yw Rhedynach Teneuwe Wilson, sef planhigyn bach â ffrondau tenau, tryloyw sy'n ffurfio carped ar greigiau fertigol cysgodol. Yn ne Cymru, cyfyngir y rhywogaeth lwerydd hon i geunentydd llaith a chlogwyni sy'n wynebu'r gogledd, a Chraig y Llyn yw unig safle'r rhywogaeth yn CNPT hyd y gwyddom. Mae hyn hefyd yn wir hefyd yn Marchredynen y Mynydd, rhywogaeth fynyddig ogleddol y mae ffin ddeheuol ei hamrediad ym Mhrydain ym Morgannwg. Mae'r Rhedynen Dridarn a'r Rhedynen Gornog yn fathau eraill o redyn y mae'n werth eu nodi yma. Mae'r ddwy rywogaeth Foreo-dymherus hyn yn creu arddangosfeydd deniadol yn y cymunedau o blanhigion caled yng Nghraig y Llyn ac nid ydynt i'w gweld ond mewn ychydig iawn o fannau eraill yn y sir.



Y CUDYLL COCH

Mae'r Cudyll Coch bellach ar y Rhestr Goch yng Nghymru ar ôl prinhau'n eang ar draws y wlad. Bernir bod y dirywiad hwn yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer yr adar ifanc sy'n marw am eu bod yn methu cael digon o bryfed i'w bwyta, ysglyfaethu gan Weilch Marthin, a gwenwyn llygod. Ar un adeg, roedd y Cudyll Coch yn bridio'n gyffredin yn CNPT, a'i brif gynefinoedd yw glaswelltir garw, lle mae'n ysglyfaethu llygod pengrwn y dŵr, ac ardaloedd arfordirol. Am flynyddoedd lawer, bu'r Cudyll Coch yn bridio o dan do ffatri Ford ger Jersey Marine (Stiwidio'r Bae bellach) ac ar rai clogwyni mewndirol, ond mae'r rhywogaeth wedi prinhau'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r cofnodion bridio yn fach iawn.



CLWBFWSOGLAU

Mae tair rhywogaeth o glwbfwsoglau i'w canfod yn CNPT; y Cnw-p-fwsogl Alpinaidd, y Cnw-p-fwsogl Mawr a'r Cnw-p-fwsogl Corn Carw. Maen nhw'n rhan annatod ac eiconig o fioamrywiaeth ucheldir y sir. Mae eu henw yn gamarweiniol gan nad ydynt yn fwsoglau o gwbl ond yn hytrach yn blanhigion fasgwlaidd sy'n perthyn yn agos i redyn. Yn y gorffennol, pan oedd tir uchel CNPT yn weundir heb ei wella ac wedi'i led-bori, ac yn rhostir corlwyni, byddai rhywogaethau'r Cnw-p-fwsoglau uchod yn gymharol eang eu cwmpas. Heddiw, maen nhw'n anghyffredin ar ucheldiroedd CNPT lle mae pori dwys yn digwydd. Mae'r Cnw-p-fwsogl Mawr i'w ganfod yn unig ar silffoedd tywodfaen a sgri sy'n wynebu'r gogledd ac ar fanciau o rostir corlwyni heb eu pori mewn planigfeydd conifferau. Cyfyngir y Cnw-p-fwsogl Alpinaidd a'r Cnw-p-fwsogl Corn Carw i'r banciau hyn o rug a llus mewn planigfeydd. CNPT yw ffin ddeheuol amrediad y Cnw-p-fwsogl Alpinaidd, sef y clwbfwsogl prinnaf, yn y Deyrnas Unedig. Mae ein holl rywogaethau o glwbfwsoglau mewn perygl ac o dan fygythiad.

Sefyllfa Byd Natur

CREIGIAU A

CHLOGWYNI MEWNDIROL

yn CNPT

O'r braidd y mae amrediad a chysylltedd Creigiau a Chlogwyni Mewndirol CNPT wedi newid ers cannoedd o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae cyflwr Craig y Llyn wedi dirywio rhywfaint yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'r coed Sbrîws Sitka sy'n tyfu o hadau a gludwyd ar y glaw o blangfeydd cyfagos yn goresgyn sgrîau a chlogwyni gan achosi problemau sylweddol, a gall llygredd traffig sy'n deillio o Ffordd Mynydd y Rhigos gerllaw fod yn broblem hefyd. Mae'r weiren wibio a adeiladwyd uwchben Llyn Fawr gerllaw yn ein hatgoffa bod llawer o gynefinoedd clogwyni'r ucheldir yn Ne Cymru o dan bwysau yn sgîl datblygiadau twristiaeth.

Ar y cyfan, aseswyd bod cadernid a sefyllfa byd natur y Creigiau a'r Clogwyni Mewndirol yn CNPT mewn cyflwr **gweddol**.

ASTUDIAETH ACHOS; CRAIG Y LLYN

Mae SoDdGA Craig y Llyn yn cynnwys dau bant sy'n wynebu'r gogledd-ddwyrain a achoswyd gan rew neu eira o'r cyfnod Pleistosen yn torri ymyl y Llwyfandir Tywodfaen Penant ac mae hefyd yn cynnwys Llyn Fach islaw. Yma, mae'r clogwyni uchel, y ceunentydd a'r llaciau yn cynnal llawer o rywogaethau mynyddig megis Rhedynach Teneuwe Wilson, y Cnw-p-fwsogl Mawr, y Rhedynen Dridarn, Marchredynen y Mynydd a nifer o fryoffytâu'r ucheldir sydd fel arall yn anghyffredin yn ne Cymru. Yn Llyn Fach, ceir casgliad o rywogaethau dyfrol anghyffredin sy'n gysylltiedig â llynnoedd oligotroffig ar dir uchel megis Bidoglys y DŴr, Gwair Merllyn a'r Cleddlys Arnofiol. Mae nifer o'r rhywogaethau hyn yn agos at neu wedi cyrraedd ffin eu dosbarthiad deheuol ym Mhrydain ar y safle hwn. Mae dadansoddiad o'r paill a gadwyd yn Ffos Cenglau wedi darparu data ynghylch trefn y mathau o goetir yn Ne Cymru yn y cyfnod ôlrewlifol.

Rheolir Llyn Fach a'r cyffiniau gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (WTSWW) sy'n trefnu arolygon ac yn monitro'r llyn a'r cynefinoedd glaswelltir er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau rheoli. Er enghraifft, defnyddir rafftau arolygu i fonitro'r boblogaeth o Lygod Pengrwn y DŴr a ddarganfuwyd yma yn ddiweddar a defnyddir dulliau trapio heb greulondeb o dro i dro i gael gwared â'r Minc Americanaidd ysglyfaethus. Mae arferion rheoli eraill yn cynnwys cyflwyno gwartheg yn ystod yr haf er mwyn pori er lles cadwraeth, clirio prysgwydd a chael gwared â chonifferau (Sbriws Sitka yn bennaf) sy'n atgynhyrchu ac yn ymledu ar y safle. Yn ogystal, mae WTSWW yn gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd y rhywogaethau yn y warchodfa hon a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.




CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CREIGIAU A CHLOGWYNI MEWNDIROL YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Cael gwared ar goed sy'n rhywogaethau ymledol	Cael gwared ar unrhyw gonifferau sy'n hau ohonynt eu hunain ar glogwyni, e.e. SoDdGA Craig y Llyn
Monitro adar sy'n bridio	Monitro'r adar sy'n bridio yn y cynefin hwn
Monitro rhywogaethau pwysig o blanhigion	Monitro'r rhywogaethau pwysig o blanhigion sydd i'w canfod yn y cynefin hwn

CYNEFINOEDD ARFORDIROL



TROSOLWG

Mae ecosystemau arfordirol yn darparu cynefinoedd ar gyfer traean o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT ac maent yn un o'r adnoddau pwysicaf o ran bioamrywiaeth yn y sir. Mae eu nodweddion pwysig yn cynnwys systemau twyni symudol lled-sefydlog Twyni Crymlyn a thwyni Baglan a'r Morfa. Mae'r rhywogaethau sydd i'w canfod yma, megis y Llygwyn Ariannaid, yr Helys Pigog, y Murwyll Arfor, Celynnen y Môr, y Taglys Arfor, Llaethlys y Môr a Chanclwm Ray yn dibynnu ar amgylcheddau tywod symudol ac maent yn gyfyngedig i'r cynefinoedd hyn. Mae'n werth nodi hefyd fod poblogaeth fach o'r Hesgen Fannog, sef rhywogaeth brin sy'n prinhau, i'w canfod ar Dwyni Baglan, yn yr unig safle y gwyddys amdano ym Morgannwg. Gwaetha'r modd, mae'r boblogaeth hon o dan fygythiad yn sgîl ymlediad coed Gwern a Helyg.

Mae llaciau twyni yn gwneud cyfraniad mawr i fioamrywiaeth ecosystemau arfordirol ac roeddent i'w canfod yn helaeth yn systemau twyni CNPT ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mor ddiweddar â 40 mlynedd yn ôl roeddent yn nodwedd bwysig o Dwyni Crymlyn a Thwyni Baglan. Bryd hynny, roedd Tegeirian y Fign Galchog, Tegeirian-y-gors Cynnar, Caldris y Gors a Llafnlys Tafod y Neidr i'w gweld yn rheolaidd yn Nhwyni Crymlyn. Fodd bynnag, mae'r llaciau twyni, cyfoethog eu rhywogaethau wedi diflannu i bob pwrpas yn CNPT, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau olyniaethol ac esgeulustod, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn bellach yn eithriadol o brin yn y sir. Mae darn bach o lac twyni sy'n cynnwys poblogaeth fawr o Galdris y Gors yn dal i oroesi yn Nhwyni Baglan ond mae'r boblogaeth hon hefyd o dan fygythiad yn sgîl olyniaeth prysgwydd helyg.


Tan yn ddiweddar, mae'r ardaloedd rhynglanw yn Nhwyni Crymlyn wedi bod yn fan bwydo a chlwydo ar gyfer y niferoedd o Bibyddion y Tywod a Chwtiaid Torchog, o bwysigrwydd cenedlaethol, sy'n gaeafu yno. Gwaetha'r modd, mae mwy a mwy o bobl yn mynd â'u cŵn am dro ar hyd y traethau hyn ac mae hyn bellach yn dylanwadu ar symudiadau ac ymddygiad yr adar hyn ac mae'n ymddangos eu bod wedi troi cefn ar y mannau clwydo a ffafrid ganddynt.

Mae nifer o bryfed hynod i'w canfod mewn cynefinoedd arfordirol yn CNPT, gan gynnwys nifer o loynnod byw megis y Gweirlöyn Llwyd, Iâr Fach y Fagwyr, y Gwibiwr Llwyd, y Fritheg Werdd, y Glesyn Bach a'r Argws Brown. Ymhlith y rhywogaethau eraill arwyddocaol mae'r Gardwenynen Feinlais, y Wenynen Hirgorn a'r Chwilen Olew Ddu. Cofnodwyd chwilen y draethlin, *Nebria complanata* yn rheolaidd yn Nhwyni Crymlyn yn y gorffennol, ond nis gwelwyd yno yn ddiweddar.

Mae morfeydd heli yn werthfawr o ran bioamrywiaeth arfordirol. Ceir yr unig ddarn helaeth o'r cynefin hwn yn CNPT yng nghyffiniau aber afon Nedd, lle ceir cymunedau amrywiol sy'n cynnwys Wermod y Môr, Grug Môr, Lafant-y-môr a'r Cedowydd Suddlon. Mae estyniad hir y llanw ar afon Nedd hefyd yn gyfrifol am ddarn helaeth o halwyndir sy'n cael ei olchi gan y môr rhwng Castell-nedd a Bae Baglan. Ar adeg y llanw uchaf, mae dŵr lled hallt yn boddî'r fignen bori rhwng Castell-nedd ac Aberdulais ac mae hyn yn dylanwadu ar amrywiaeth a chyfansoddiad y cynefin trawiadol ac unigryw hwn.




Caldris y Gors



PLAFI PORT TALPOD LLEIWAIR PARTRIDG YP
BATHHEATH PLUFE LLO, GATLLYNN PORT TALBOT

CYNEFINOEDD ARFORDIROL



Y CATEGORI O GYNEFIN	ARWYNEBEDD (HECTARAU)
Rhynglanw - llaid/tywod	39.01
Rhynglanw - llaid/tywod - gwelyau gwellt y gamlas	57.60
Rhynglanw - cerrig/creigiau	1.60
Morfa heli	55.28
Morfa heli - drwchus/barhaus	106.20
Llaid/tywod uwchben lefel gyfartalog y dŵr	0.28
Glaswelltir twyni	178.33
Prysgwydd twyni	12.27
Twyni agored	30.78
Glaswelltir arfordirol	2.77
Cyfanswm	484.12
% o gyfanswm arwynebedd tir CNPT a orchuddir gan y cynefinoedd hyn	1%

RHYWOGAETHAU



MURWYLL ARFOR

Mae'r Murwyll Arfor, un o nifer bach o blanhigion Canoldirol sydd i'w canfod yng Nghymru, yn hysbys ar dwyni tywod yr arfordir yn CNPT ers oddeutu 150 o flynyddoedd. Mae'n rhywogaeth Adran 7 sy'n brin yn genedlaethol ac yn blanhigyn Ewropeaidd endemig sy'n tyfu ar ei ffin ogleddol fyd-eang yn nhwini tywod arfordir CNPT. Mae'r Murwyll Arfor i'w ganfod mewn cymunedau tywod symudol, mae'n gyfyngedig i'r cymunedau hyn ac mae angen y cynefin arbenigol hwn yn benodol arno yn yr ardal hon. Mae meintiau poblogaeth y planhigyn deniadol hwn wedi amrywio'n fawr dros y degawdau am resymau nad ydym yn eu deall yn llwyr. Gallai stormydd sy'n eu gorchuddio â thywod a'r cwningod sy'n eu pori fod yn rhan o hynny. Mae'r boblogaeth enfawr o Furwyll Arfor a gafwyd yn Nhwyni Crymlyn yn y 1980au wedi prnhau i lond llaw o blanhigion unigol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae poblogaethau mwy yn hysbys yn y systemau twyni gweddilliol rhwng Baglan a Thomen y Morfa.



PIBYDD Y TYWOD

Adar hirgoes bach yw Pibyddion y Tywod sy'n bridio ar y twndra arfordirol yn rhan uchaf yr Arctig. Yn ystod y gaeaf, maen nhw'n mudo tua'r de ac mae nifer sylweddol ohonynt yn treulio'r gaeaf ym Mhrydain, yn enwedig lle ceir traethau arfordirol â thraethlinau tywodlyd hir. Maen nhw'n dibynnu ar forlinau lle gallant glwydo a bwydo ar gramenogion, molysgiaid a mwydon morol. Yn ddiweddar, mae Pibyddion y Tywod sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig wedi prnhau ac mae'r rhywogaeth hon bellach ar y rhestr ambr. Gwelwyd niferoedd sy'n bwysig yn genedlaethol ym Mae Abertawe rhwng diwedd yr haf a'r gwanwyn a than yn ddiweddar, roeddent yn nodwedd hynod o'r rhannau o Dwyni Crymlyn nad aflonyddwyd arnynt. Gwaetha'r modd, mae aflonyddu parhaus a direolaeth ar boblogaethau gaeaf yn cael effaith drychinebus ar yr heidiau sy'n clwydo ac yn bwydo yn CNPT.



Y GLESYN BACH

Dyma loynnod byw lleiaf y Deyrnas Unedig ond gellir gweld nifer mawr ohonynt mewn rhai mannau. Mae rhan uchaf eu hadenydd yn dywyll ag arlliw o las ac oddi tanynt yn frown-las golau â smotiau du amlwg; nid oes unrhyw oren arnynt fel y Glesyn Cyffredin. Maent yn dibynnu'n llwyr ar y Blucen Felen fel planhigyn bwyd i'r lindys. Gwelir Gleision Bach ar hyd llain arfordirol CNPT ac mewn rhai safleoedd mewndirol, yn enwedig lle mae digonedd o'r Blucen Felen.



CYNEFINOEDD ARFORDIROL

SEFYLLFA BYD NATUR YN Y CYNEFINOEDD ARFORDIROL YN CNPT

Ar un adeg, roedd llain arfordirol CNPT rhwng Twyni Crymlyn a Thwyni'r Morfa yn cynnal ecosystem fioamrywiol â chysylltiadau da, gyda thwyni tywod, llaciau tywod a ffen arfordirol. Fodd bynnag, gwelwyd bod cynefinoedd cyfoethog eu rhywogaethau wedi dioddef colledion enbyd yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i ddatblygu diwydiannol. Gwaetha'r modd, mae llawer o'r hyn sy'n weddill hefyd mewn sefyllfa enbyd ac yn wynebu dyfodol ansicr, ac mae datblygu yn fygythiad sy'n parhau. O ganlyniad, mae'r cymunedau unigryw o fywyd gwyllt a'r strwythurau twyni tywod symudol dynamig sydd wedi llwyddo i oroesi yn dal mewn sefyllfa fregus. Mae'r gostyngiad a welwyd yn ddiweddar ym mhatrwm symudiadau Pibyddion y Tywod (ac adar hirgoes eraill) sy'n gaeafu yn Nhwyni Crymlyn hefyd yn achosi pryder.

Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y newidiadau ym mioamrywiaeth a chadernid ecosystemau arfordirol yn CNPT: (i) diffyg cydnabyddiaeth yn y gorffennol o bwysigrwydd safleoedd megis Twyni Crymlyn a Thwyni Baglan, (ii) diffyg rheolaeth briodol ar gynefinoedd sy'n cynnwys rhywogaethau â gwerth cadwraeth uchel a (iii) peidio â rheoli gweithgareddau hamdden mewn ardaloedd sensitif megis mannau clwydo adar hirgoes yn y parthau rhynglanw. Ar ben hynny, mae nifer o rywogaethau anfrodorol ymledol wedi ymsefydlu yn Nhwyni Crymlyn, gyda rhywogaethau megis Rhosyn Japan, Helygen y Môr, sawl rhywogaeth o Gotoneaster, Eurwialen Canada, Blodyn Mihangel a'r Dderwen Fythwyrdd ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol. Yn wyneb hyn i gyd, aseswyd bod sefyllfa byd natur a chadernid ecosystemau arfordirol yng CNPT mewn cyflwr **gwael**.

PROSIECTAU CYFREDOL



SODDGA TWYNI CRYMLYN

Yn ddiweddar, lluniwyd cynllun rheoli newydd ar gyfer Twyni Crymlyn, a gaiff ei weithredu gan Swyddog Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe a CNC. Prif nodau'r cynllun fydd gwella cyflwr y cynefinoedd yno trwy waredu neu reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, crafu llaciau tywod ac ailgyflwyno rhywogaethau â blaenoriaeth megis Wermod y Twyn a'r Murwyll Arfor.

Partner Cyfrifol: Prifysgol Abertawe / CNC



TRWYN CHWITFFORDD

Monitro rhywogaethau, gan gynnwys y gornchwiglen, rhywogaethau ymledol a gweithgareddau ymwelwyr. Rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol a chlririo prysgwydd

Partner Cyfrifol: WTSWW ar ran St Modwens



TOMEN Y MORFA

Mae'r ecosystem twyni tywod newydd sy'n cael ei chreu ar Domen y Morfa yn helpu i gynyddu cwmipas a chysylltedd cynefinoedd twyni tywod, sydd wedi dioddef colledion trychinebus yn y rhanbarth dros y 100 mlynedd diwethaf. Caiff y safle ei fonitro'n flynyddol.

Partner Cyfrifol: TATA Steel, CNC



TWYNI AR SYMUD

Bydd 21 hectar o dwyni tywod yn cael eu hadfer neu eu hail-greu ar draws CNPT ac Abertawe. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â chynefinoedd twyni tywod yn y sir.

Partner Cyfrifol: Plantlife



ATAL TARFU AR BIBYDDION Y TYWOD

Mae mater cerddwyr cŵn sy'n tarfu ar Bibyddion y Tywod ac adar hirgoes eraill yn Nhwyni Crymlyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd er mwyn penderfynu ar y cam gweithredu gorau i amddiffyn yr heidiau hyn sy'n bwydo ac yn clwydo.

Partner Cyfrifol: Amrywiol



ASTUDIAETH ACHOS; RHEOLI SODDGA TWYNI CRYMLYN

Pan ddatblygodd Prifysgol Abertawe Gampws y Bae ar dir llwyd i'r dwyrain o'r ddinas, derbyniodd yn ogystal gyfrifoldeb am SoDdGA Twyni Crymlyn gerllaw. Mae hon yn un o'r ardaloedd olaf sydd heb ei datblygu ym Mae Abertawe, ac fe'i dynodwyd oherwydd ei chasgliadau amrywiol o fflora ac infertebratau twyni tywod a morfa heli, sy'n cynnwys rhai rhywogaethau prin iawn, megis Tegeirian y Fign Galchog, Wermod y Maes a Chwilen y Draethlin. Er nad yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae'n dal i wynebu nifer o broblemau, gan gynnwys presenoldeb rhywogaethau ymledol, a diffyg pori a rheoli yn y gorffennol. Rhosyn Japan yw'r rhywogaeth ymledol fwyaf helaeth a thrafferthus, ond cofnodwyd mwy na 50 o blanhigion anfrodorol yn twyni, ac mae Helygen y Môr, y Dderwen Fythwyrdd, Cotoneaster, Eurwialen Gynnar, Blodyn Mihangel a Chlymog Japan i gyd yn cael effaith (ac yn bygwth ymledu'n llawer ehangach). Er bod y safle wedi bod yn gyrchfan erioed i bobl leol yn mynd â'u cŵn am dro, mae'r niferoedd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf a chan fod 2500 o fyfyrwyr yn byw ar y campws bellach, mae'r perygl o aflonyddu ar fywyd gwylt wedi cynyddu'n sylweddol. Cwningod yw'r unig anifeiliaid sy'n pori ar y safle a chan nad oedd dim gwaith rheoli'n digwydd cyn i'r campws agor, mae'r prysgwydd a'r coetir wedi ehangu'n sylweddol ers dynodi'r safle, yn enwedig yn yr ardaloedd gwlypach. Collwyd Tegeirian y Fign Galchog yn sgil yr olyniaeth hon ac ni chofnodwyd Chwilen y Draethlin ar y safle ers 1997.

I ddechrau, bu'r gwaith rheoli'n canolbwyntio ar reoli rhywogaethau ymledol, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny a allai achosi'r difrod mwyaf, lle gallai rheolaeth gynnar atal problem fwy yn y dyfodol. Bu cynigion cynnar i balu Rhosyn Japan â llaw yn aflwyddiannus, gydag ymdrech fawr yn esgor ar ganlyniadau cyfyngedig – gall y rhisomau ymledu am fwy na metr o'r rhiant blanhigyn, a bydd unrhyw ddarn bach sy'n cael ei adael ar ôl yn aildyfu. Y flaenoriaeth bellach yw chwistrellu lleiniau bach (<2m), ynysig o rosod cyn iddynt dyfu'n rhy fawr, tra bod ardaloedd helaethach yn cael eu palu a'u claddu yn y fan a'r lle gan ddefnyddio peiriant cloddio. Mae hyn nid yn unig yn lleihau niferoedd Rhosyn Japan, ond hefyd yn creu darnau gwerthfawr o dywod moel ar gyfer eu cytrefu gan fywyd gwylt y twyni. Eir ati i chwilio am aildyfiant a'i gloddio allan â llaw.

Yn ogystal â chael gwared ar rywogaethau ymledol, gwnaed ymdrech hefyd i leihau ymlediad coetir a phrysgwydd brodorol ar laswelltir y twyni, gyda gwirfoddolwyr yn torri coed bedw, helyg, gwern ac eithin ifanc ar hyd ymyl y coetir, er bod hyn yn digwydd ar raddfa gymharol fach. Ehangwyd y gwaith hwn yn sylweddol yn 2020 gyda chymorth prosiect Twyni ar Symud Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda 0.5ha o goetir yn cael ei glirio yn y llaciau tywod gwlyb lle gwelwyd tegeirian y fign galchog ddiwethaf. Cafodd coed eu cwmpo (a'u darnio ar gyfer biomas) cyn crafu a chodi'r pridd a'r sborion dail a oedd wedi cronni, symud y bonion a chreu llawr tywod moel lle bydd llifogydd tymhorol yn digwydd. Mae cynlluniau i greu llac newydd mewn ardal sydd ar hyn o bryd wedi'i gorchuddio gan Rosod Japan ac os bydd y gwaith hwn yn llwyddiannus, bydd modd ailgyflwyno Tegeirian y Fign Galchog gobeithio. Mae gwaith Wardeniaid a chynyddu ymwybyddiaeth (trwy deithiau cerdded, digwyddiadau a chodi arwyddion) yn helpu i leihau unrhyw aflonyddu, ac mae cynllun i gyflwyno parthau mynediad i gŵn. Mae lleoliad y traeth a'r cyfeiriad y mae'n ei wynebu yn golygu bod llawer iawn o sbwriel yn casglu ar hyd y lan sy'n ymestyn am 1.5km. Cynhelir ymgyrchoedd glanhau'r traeth yn rheolaidd a gwaredir mwy na 100kg o wastraff bob mis.

Rhaid diolch i'r holl wirfoddolwyr o'r brifysgol a'r gymuned ehangach, i brosiect Twyni ar Symud ac i Brosiect B-Lines Buglife sydd wedi helpu i dalu am gladdu Rhosyn Japan.



CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD ARFORDIROL YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Rheoli	Mae angen rheoli'r cynefinoedd twyni tywod yn weithredol, yn enwedig o ran cynnal a chadw systemau twyni tywod symudol a chreu llaciau twyni a'u cynnal a'u cadw
Ailgyflwyno rhywogaethau pwysig o blanhigion	Ailgyflwyno poblogaethau o rywogaethau megis Tegeirian y Fign Galchog a Beidiog y Twyn i safleoedd lle bydd hynny'n briodol
Warden Twyni Crymlyn	Sicrhau bod rôl swyddog Twyni Crymlyn ym Mhrifysgol Abertawe yn parhau
Lleihau'r aflonyddu ar adar sy'n nythu ar y ddaear	Mae poblogaethau bridio Pibydd y Tywod a'r Cornchwiglen wedi bod yn prinhau oherwydd bod ymwelwyr yn aflonyddu arnynt. Mae angen gwneud gwaith i amddiffyn adar sy'n nythu ar y ddaear yn Nhwyni Crymlyn a Baglan
Cael gwared ar rywogaethau ymledol	Mae rhywogaethau ymledol yn parhau i fygwth cyflwr cynefinoedd arfordirol yn CNPT e.e. Rhosyn Japan. Cymryd camau i gael gwared ar y rhywogaethau hyn lle bydd hynny'n bosibl

CYNEFINOEDD ARFORDIROL



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BATHYRATH WATER LID, CASTLE NEW PORT TALBOT

CYNEFINOEDD MOROL



TROSOLWG

Yn y ddogfen hon, y diffiniad o gynefinoedd morol CNPT yw dyfroedd morol mewndirol, islanwol ac arwyneb Bae Abertawe am bellter o 12 milltir forol o arfordir CNPT. Yma, mae gwely'r môr yn cynnwys tywodfeini a cherrig llaid sydd â thywod, graean a llaid drostynt. Mae'r prif gynefinoedd sy'n rhan o hyn yn addas ar gyfer mamaliaid, pysgod ac infertebratau morol ond nid oes ardaloedd creigiog islanwol yma.

Prin yw'r wybodaeth fanwl, benodol am fioamrywiaeth y cynefinoedd hyn ond darganfu arolygon a gynhaliwyd yn 2013 6 grŵp o ffawna o dan yr wyneb a oedd yn cynnwys llyngyr gwrychog a chregyn deuglawr yn bennaf. Mae riffiau Sabellaria alveolata yn ffurfio yn y bae, rhai ohonynt ar strwythurau gwneud, megis grwynau. Cofnodwyd o leiaf 55 rhywogaeth o bysgod a 38 rhywogaeth o bysgod cregyn yn y bae. Ymhlith y rhain mae rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol megis Llysywod Ewropeaidd, Herlynod, Gwangod a Llysywod Pendoll y Môr. Yn ogystal, mae'r ardal yn feithrinfa bwysig ar gyfer lledod a chathod môr, a gwyddys bod Penwaig yn silio mewn sawl man o amgylch y bae. Mae'n bosibl bod Llymriaid yn silio yma hefyd.

Mae Llamhidyddion i'w canfod yn y bae ar hyd y flwyddyn, gyda mamau a'u cywion i'w gweld rhwng diwedd yr haf a'r hydref bob blwyddyn, a nodwyd eu bod yn fforio'n agos at y lan mewn sawl man. Gwelir Dolffiniaid Cyffredin o dro i dro yn yr haf a ganol gaeaf, sydd efallai yn adlewyrchu'r helaethu sydd wedi digwydd yn amrediad poblogaeth dolffiniaid y Môr Celtaidd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ac mae Morloi Llwyd wedi'u gweld o dro i dro. Cyfrifir niferoedd mawr ac arwyddocaol o Wyachod Mawr Copog yn y bae bob gaeaf rhwng Traeth Aberafan a Thwyni Crymlyn.

Mae'r ecosystem forol yn darparu cynefinoedd ar gyfer 24 o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT.



RHYWOGAETHAU



PENWAIG

Mae Bae Abertawe yn cynnwys sawl safle silio ar gyfer Penwaig. Un o'r rhain yw ardal yr amddiffynfeydd môr ger y fynedfa i Ddoc Port Talbot. Mae'n debygol bod y strwythurau gwneud yn darparu ac yn atgynhyrchu'r is-haen sy'n ofynnol er mwyn caniatáu i ardaloedd o raeau ymffurfio, gan greu'r amodau cywir ar gyfer safle silio. Mae'r penwaig yn silio ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn; mae'r boblogaeth ym Mae Abertawe yn silio ym mis Chwefror a mis Mawrth. Nid yw penwaig yn cael eu pysgota'n fasnachol yma. Mae eu niferoedd mawr a'u cylch atgenhedlu cyflym yn golygu eu bod yn ysglyfaeth bwysig yn yr ecosystem forol. Mae'n bosibl taw'r penwaig sydd i gyfrif am y niferoedd mawr o ysglyfaethwyr, yn enwedig y Gwyachod Mawr Copog, a welir yn ystod y gaeaf.



Y LLAMHIDYDD

Mae Llamhidyddion yn bresennol ym Mae Abertawe ar hyd y flwyddyn gyda mamau a'u lloï i'w gweld rhwng diwedd yr haf a'r hydref bob blwyddyn. Mae adroddiadau eu bod hefyd yn fforio'n agos at y lan ar hyd arfordir CNPT. Mae'r creaduriaid hyn yn llawer llai na'r dolffin brodorol ac yn fwy anodd eu gweld. Yn wahanol i ddolffiniaid, nid ydynt yn gadael y dŵr yn aml ond mae eu cefn yn 'torri'r wyneb' mewn bwa llyfn. Mae ganddynt big byr iawn sy'n gwneud iddynt edrych yn bengrwn o gymharu â'r dolffin.

SEFYLLFA BYD NATUR YN Y CYNEFINOEDD MOROL YN CNPT


Nid oes gennym ddigon o ddata ar hyn o bryd i lunio asesiad pendant o gadernid a sefyllfa byd natur yng nghynefinoedd morol CNPT. Gellir tybio bod priodweddau fel cwmpas a chysylltedd yn dda. Fodd bynnag, yn ôl asesiad interim Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2018 roedd statws cyffredinol a statws ecolegol ein dyfroedd arfordirol lleol yn gymedrol ac wedi methu cyrraedd y nod o ran eu statws cemegol. Ar sail hynny, daethpwyd i'r casgliad fod ein cynefinoedd morol mewn cyflwr gwael. Ar ben hynny, mae materion megis llygredd a rhywogaethau anfrodorol ymledol yn dal i fygwth cadernid ecosystemau. Ar yr adeg hon, ni allwn ond dod i'r casgliad bod sefyllfa byd natur yn y cynefinoedd morol yn CNPT mewn cyflwr **gwael**.

ASTUDIAETH ACHOS; AROLYGON GWYACHOD MAWR COPOG SY'N GAEAFU

Yr Wyach Fawr Gopog yw'r math mwyaf ei faint a'r math mwyaf cyfarwydd o'r gwyachod a geir yn y Deyrnas Unedig. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn eu cysylltu â llynnoedd dŵr croyw mawr lle mae adar sy'n bridio i'w gweld weithiau yn arddangos eu hunain mewn dawns baru osgeiddig ar y dŵr. Ychydig o barau bridio sydd yn CNPT ond maent i'w canfod yn rheolaidd ar Gronfa Ddŵr Eglwys Nunydd ger Margam ac yn y pyllau benthyg ger Glyn-nedd, lle gellir gwyllo'r oedolion gyda'u cywion, gyda'r oedolion weithiau yn cario'r adar ifanc ar eu cefn.

Mae llawer mwy o'r adar hardd hyn yn ymgasglu mewn heidiau bwydo dros y gaeaf ym Mae Abertawe lle maen nhw'n ymgasglu yn aml mewn 3 grŵp gwahanol o adar ar draws y bae o Blackpill (Abertawe) i Aberafan (CNPT). Fel arfer, bydd dau o'r grwpiau hyn wedi'u lleoli yn CNPT, y naill ger Twyni Crymlyn a'r llall ger Traeth Aberafan. Mae nifer o selogion lleol wedi bod yn cyfri'r niferoedd o adar sy'n gaeafu yn yr heidiau hyn (Ymgrych Cyfri Adar y Gwlyptir Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) ar adegau rheolaidd am fwy na 10 mlynedd ac mae'n amlwg o'r cofnodion hyn fod y bae yn safle bwydo pwysig iawn yn y gaeaf gyda mwy na 700 o unigolion yn cael eu cyfrif mewn rhai misoedd. Yn aml, mae'r gyfran fwyaf o wyachod yn y bae i'w chanfod yn y dyfroedd ger CNPT a ger ardal Twyni Crymlyn, lle cafodd mwy na 400 o unigolion eu cofnodi, ac ymddengys hyn yn arwyddocaol iawn.

O dan Faen Prawf 6 o Gonfensiwn Ramsar, ystyrir bod heidiau o rywogaethau adar y dŵr sy'n gaeafu o bwysigrwydd rhyngwladol os ydynt yn cynnwys 1% neu ragor o'r boblogaeth genedlaethol. Y ffigur hwn sy'n pennu Lefel Trothwy'r Rhywogaeth, sef 190 ar hyn o bryd yn achos yr Wyach Fawr Gopog yn y Deyrnas Unedig. Bydd niferoedd uwch na'r lefel hon yn golygu bod safle o werth cadwraeth rhyngwladol uchel. Mae'n amlwg bod nifer y Gwyachod Mawr Copog sy'n gaeafu ym Mae Abertawe yn rhagori'n sylweddol ar y trothwy hwn ac mae'n bwysig nodi bod hyn yn wir hefyd yn achos yr haid aeaf sy'n gysylltiedig â dyfroedd CNPT. Un o'r ffactorau cyfyngol allweddol yn hyn o beth yw cynnal heigiau digonol o'r pysgod y mae'r adar hyn yn dibynnu arnynt am eu bwyd ac mae hyn, yn ei dro, yn ddibynnol ar iechyd da a dynameg y maetholion yn ecosystem forol y bae.




CAMAU GWEITHREDU AR GYFER ADFER CYNEFINOEDD MOROL YN CNPT



Cam Gweithredu	Manylion
Datblygu tystiolaeth	Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cofnodi biolegol yn digwydd mewn cynefinoedd ar y tir. Mae angen annog a threfnu cofnodion newydd, er enghraifft, trwy dargedu pysgota môr ar gyfer cofnodion biolegol ac annog cyfranogiad mewn cynlluniau cofnodi cenedlaethol megis Yr Helfa Fawr Plisg Wyau. Dylai problemau megis sbwriel a llygredd gael eu monitro hefyd
Llygredd mewn Afonydd	Gweithio gyda phartneriaid i leihau'r llygredd sy'n cyrraedd yr amgylchedd morol trwy'r afonydd
Rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol	Ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio gyda'r rhai sy'n defnyddio'r môr i'w hannog i arfer bioddiogelwch cywir a chymryd camau atal

CYNEFINOEDD MOROL





CAMAU GWEITHREDU SY’N BERTHNASOL I’R HOLL GYNEFINOEDD YN CNPT

Mae’r camau gweithredu canlynol yn berthnasol i bob cynefin ar draws CNPT ac fe’u rhestrir yma i osgoi eu hailadrodd.

Cam Gweithredu	Manylion
Polisi Cynllunio	Cadw a gwella bioamrywiaeth trwy’r broses gynllunio
Plannu coed	Atal plannu coed amhriodol yn y sir, e.e. mewn cynefinoedd glaswelltir pwysig. Annog adfywio naturiol yn hytrach na phlannu coed lle bydd hynny’n bosibl
Rhywogaethau anfrodorol ymledol (INNS)	Atal INNS rhag ymledu i gynefinoedd pwysig yn CNPT
Meddwl cyn hedfan	Amddiffyn adar sy’n nythu rhag i dronau sy’n cael eu hedfan aflonyddu arnynt
Gyrru Anghyfreithlon Oddi ar y Ffordd	Rhoi gwybod i’r heddlu am ddifrod i safleoedd natur a achosir gan yrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd

HOLL GYNEFINOEDD

RHYWOGAETHAU ANFRODOROL YMLEDOL MEWN ECOSYSTEMAU TIR A DŴR CROYW YN CNPT

Ystyrir bod rhywogaethau anffroddol ymledol yn fygythiad sylweddol i fioamrywiaeth. Mae'r holl INNS yn y Deyrnas Unedig yn neoffytau, h.y. rhywogaethau anffroddol a gyflwynwyd i fflora Prydain ers 1600OC. Ar hyn o bryd, mae nifer y neoffytau sydd wedi cynefino ym Mhrydain yn fwy na nifer y rhywogaethau brodorol, ond mae effaith y rhan fwyaf o neoffytau ar fioamrywiaeth yn fach iawn ac mae'n bosib bod llawer ohonynt yn ychwanegu ati ar raddfa leol. Fodd bynnag, mae grŵp o 14 o rywogaethau a grwpiau o neoffytau ymledol sydd, yn ein barn ni, yn achosi pryder penodol yn CNPT, sef:

- Cynffon Las
- Eurwialen Canada
- Cotoneaster
- Mantell Fair yr Ardd
- Jac y Neidiwr
- Y Bachgen Llwm
- Y Dderwen Fythwyrdd
- Clymog Japan
- Rhosyn Japan
- Blodyn Mihangel
- Corchwyn Seland Newydd a Dyfrllys Anffroddol eraill
- Rhododendron
- Helygen y Môr
- Coed Sbrïws Sitka



Ymhlith y rhain, mae Jac y Neidiwr, Clymog Japan a'r Rhododendron yn ddrwg-enwog, ond mae pob un o'r rhywogaethau yn y rhestr hon yn cael effaith sylweddol ar un neu ragor o'n prif gynefinoedd (gweler Tabl 29). Gallai rhywogaethau ymledol eraill posibl yn y sir, megis Bysedd y Blaidd, Llwyni Mwyar Trilliw, Pidyn-y-gog Americanaidd a Gwyddfïd Henry fod yn fygythiad yn y dyfodol.

Mae sawl rhywogaeth arall o neoffytau sy'n doreithiog ac yn cystadlu'n egniol, yn enwedig mewn amgylcheddau olyniaethol cynnar neu ar dir gwastraff, gan gynnwys rhai rhywogaethau o Friweg, Amrhydlwyd Bilbao a'r Mwstard Llwyd, ond nid oes dim o'r rhain yn cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth leol. Yn yr un modd, mae nifer o rywogaethau sy'n cael eu taflu allan o erddi i'w canfod yn helaeth ac yn barhaus yn y sir, yn enwedig y Trewyn Brych a Chrib-y-ceiliog, ond ni chredir bod y rhain yn cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth ar hyn o bryd.

Mae planhigion gardd sydd wedi ymsefydlu a/neu gynefino mewn rhai cynefinoedd lle gallent drawsbeillio a ffurfio croesryw â rhywogaeth froddol yn broblem ddiddorol. Dwy enghraifft arwyddocaol o hyn fyddai Clychau'r-gog Sbaenaidd (a Chroesryw) a'r ffurf o Farddanadl Melyn yr Ardd sydd â dail blotiau arian. Ni wyddys i ba raddau y mae Clychau'r-gog Sbaenaidd/Croesryw wedi croesi â Chlychau'r Gog brodorol na'r effaith y gallai hyn ei chael ar burdeb genetig poblogaethau o Glychau'r Gog brodorol yn lleol. Ar hyn o bryd, nid oes fawr o dystiolaeth bod achos i bryderu ond mae cael gwared ar y Clychau'r Gog Sbaenaidd/Croesryw sydd wedi cynefino mewn ardaloedd lle gallent groesi â Chlychau'r Gog brodorol, e.e. mewn coetiroedd a gwrychoedd hynafol, yn ymddangos yn gam gochelgar. Yn yr un modd, byddai'n ddoeth rheoli poblogaethau o Farddanadl Melyn yr Ardd sydd wedi cynefino, gan eu bod yn llawer mwy egniol a chystadleuol na'r Farddanadl Felen froddol.

Ceir disgrifiadau byr o'r INNS sy'n achosi'r pryder mwyaf yn CNPT ynghyd â chrynodeb o'u prif effeithiau ar y tudalennau canlynol. Casglwyd rhestr ehangach o'r INNS sy'n achosi problemau ledled Cymru ac mae manylion y rhestr hon ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

CYNFFON LAS

Llwyn prenaidd, lled-collddail o Tsieina yw'r Gynffon Las. Mae'n cynhyrchu sbrigau pyramidaidd tynn o flodau persawrus lliw lelog, porffor neu wyn yn ystod yr haf. Fe'i cyflwynwyd i Brydain 100 mlynedd yn ôl fel planhigyn gardd ac mae ei amrediad wedi ehangu'n sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr. Mae'n adnabyddus am ei flodau deniadol (sy'n eithaf tebyg i'r Lelog) sy'n denu sawl rhywogaeth o loynnod byw ar ddyddiau heulog, yn enwedig gloynnod Fanesid fel y Fantell Goch a'r Fantell Dramor, a gloynnod eraill hefyd gan gynnwys y Fritheg Werdd a'r Fritheg Arian. Tra gellid dadlau bod hyn yn fanteisiol i fioamrywiaeth, gellid dadlau hefyd fod y Gynffon Las, wrth wneud hynny, yn denu pryfed peillio i ffwrdd o rywogaethau brodorol.

Mae'r Gynffon Las yn gwasgaru ac yn ehangu'n bennaf am ei bod yn cynhyrchu nifer mawr o hadau bach. O ganlyniad, mae'n cytrefu'n egniol mewn cynefinoedd olyniaethol cynnar ar dir gwastraff, megis safleoedd tir llwyd a llanerchau mewn coedwigoedd. Mae'n fygythiad sylweddol i fioamrywiaeth ar safleoedd mosaig agored, cyfoethog eu rhywogaethau ar yr arfordir. Mae hyn yn amlwg iawn ym Mharc Ynni Baglan lle mae poblogaethau arwyddocaol ac ymledol o'r Gynffon Las i'w canfod ym mhob rhan.

EURWIALEN CANADA

Rydym wedi cynnwys Eurwialen Canada, yr Eurwialen Gynnar a chroesiadau o Eurwialen Canada o dan yr enw hwn. Maent i gyd yn debyg iawn i'w gilydd ac yn gallu cynhyrchu clystyrau trwchus, cystadleuol, ymledol yn sgil tyfiant rhisomaidd egniol ac mae'n hawdd camgymryd un am un arall. Rhywogaethau o Ogledd America yw Eurwialen Canada a'r Eurwialen Gynnar a gafodd eu cyflwyno i Brydain fel planhigion gardd ryw 100 mlynedd yn ôl. Mae'n debygol bod y rhain wedi croesi â rhywogaethau Eurwiail egsotig eraill ym Mhrydain.

Yn CNPT, gwelir effeithiau negyddol mwyaf arwyddocaol yr Eurwiail anffordorol hyn ar gymunedau twyni arfordirol. Er enghraifft, mae ardaloedd helaeth o glonau Eurwiail anffordorol ar laswelltir sefydlog yn Nhwyni Crymlyn.

COTONEASTER

Planhigion prenaidd parhaol yw'r Cotoneaster, y mae llawer ohonynt yn tyfu i fod yn llwyni o faint canolig neu dal neu'n tyfu ar hyd y llawr gan ei orchuddio'n llwyr. Mae o leiaf ugain math gwahanol o'r Cotoneaster wedi cynefino yn CNPT, ac mae'r Cotoneaster Asgwrn Pysgodyn, Cotoneaster Simons, Cotoneaster Cyfanddail, Cotoneaster Deilgrych Rehder, Cotoneaster Stern a'r Cotoneaster Diweddar ymhlith y rhai mwyaf cyffredin. Mae pob un ohonynt yn cynhyrchu blodau toreithiog, yn denu llawer o bryfed peillio (yn enwedig cacwn) ac yn cynhyrchu digonedd o aeron a gaiff eu bwyta gan adar sy'n byw ar ffrwythau megis bronfreithod a Chynffonnau Sidan. Ac eithrio Cotoneaster Simons a gyflwynwyd i Brydain fwy na 100 mlynedd yn ôl, mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn wedi bod yma am lai na 50 mlynedd. Cawsant eu tyfu mewn parciau a gerddi ar hyd a lled y sir ac yn ystod y degawdau diwethaf, ffafriwyd eu defnyddio mewn cynlluniau plannu er amwynder mewn ardaloedd trefol ac ar ystadau diwydiannol. Mae'r Cotoneaster wedi ymledu o'r manau hyn, yn bennaf trwy adar sy'n byw ar ffrwythau gan gyrraedd nifer o gynefinoedd â blaenoriaeth lle maent yn ymledol ac yn achosi problemau. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnwys coetiroedd, gwrychoedd, twyni tywod a chynefinoedd mosaig agored.



MANTELL FAIR YR ARDD

Llysiuyn lluosflwydd yw Mantell Fair yr Ardd ac mae'n neoffyt arall sydd wedi dianc o'r ardd ar ôl cael ei gyflwyno i Brydain oddeutu 70 mlynedd yn ôl. Mae'n byw yn hir, yn tyfu'n gryf ac yn ymledu trwy hadau a darnau bach o risom. Dyma'r math mwyaf cyffredin o Fantell Fair yn CNPT a gwelir ei fod wedi cynefino mewn sawl man, ond yn enwedig ar leiniau glas. Daeth yn elfen gyffredin o'r fflora ar leiniau ymyl ffordd coedwig ym mhlantigfeydd conifferau CNPT. Mae'n doreithiog iawn ar y lleiniau ymyl cyfoethog eu rhywogaethau yng Nghoedwig Glyncastell yn ardal llwyfandiroedd yr ucheldir ar Fynydd Rhigos, lle mae'n achosi pryder.



JAC Y NEIDIWR

Yn wahanol i'r holl INNS eraill a drafodir yma, planhigyn unflwydd yw Jac y Neidiwr. A dweud y gwir, Jac y Neidiwr yw'r planhigyn unflwydd talaf ymhlith Fflora Prydain a gall dyfu mor dal â 3 metr o dan amodau addas. Mae iddo goesau gwag a gynhelir gan brobiau tebyg i fwtresi wrth droed y planhigyn ac mae'r blodau persawrus yn amlwg ac yn helaeth yn ystod yr haf. Mae'r blodau'n ddeniadol iawn i wenyn a phryfed hofran ac felly mae Jac y Neidiwr yn cystadlu â phlanhigion brodorol er mwyn denu pryfed peillio. Mae cynhyrchu hadau yn allweddol er mwyn goroesi ac yn hyn o beth mae Jac y Neidiwr yn gynhyrchiol dros ben. Mae'r hadau'n saethu allan o'r ffrwythau ar ddiwedd yr haf pan fydd cyffwrdd â'r planhigyn wrth fynd heibio yn ddigon i sbarduno dull gwasgaru sydd bron yn ffrwydrol. Mae'r dull hwn yn golygu bod Jac y Neidiwr yn datblygu storfa sylweddol o hadau yn y pridd sy'n rhoi bod i blanhigion newydd y flwyddyn ddilynol. Ni wyddom am ba hyd mae'r hadau hyn yn hyfyw na faint ohonynt sy'n hyfyw ar ôl treulio blwyddyn yn y pridd. Fodd bynnag, gwelwyd bod diwreiddio planhigion yn gynnar yn y tymor tyfu, cyn iddynt gael cyfle i flodeuo, yn ddull effeithiol o leihau poblogaethau Jac y Neidiwr mewn rhai mannau, sy'n awgrymu nad yw ei storfa hadau yn y pridd yn para am amser hir.

Mae Jac y Neidiwr yn rhywogaeth anffodorol ymledol cyfarwydd iawn yn CNPT lle mae'n boddi rhai amgylcheddau ar ymyl llwybrau nad ydynt yn rhy sych ac, yn ddelfrydol, lle ceir rhywfaint o gysgod. Mewn cynefinoedd sych, agored a heulog, mae'n aml yn gwywo ac yn methu ymsefydlu'n gynaliadwy. Mae'n doreithiog mewn mannau cysgodol ar lannau ein camlesi, mewn gwrychoedd ac ar argloddiau ochr ffordd ac ar leiniau ymyl ffordd cysgodol mewn coedwigoedd ac mae'n neilltuol o doreithiog yng Nghwm Afan.

BACHGEN LLWM

Planhigyn brodorol o'r Himalaia yw'r Bachgen Llwm a gafodd ei gyflwyno i Brydain yn 1906, i greu cysgod ar gyfer anifeiliaid hela fwy na thebyg. Er ei bod yn rhywogaeth eithaf anghyffredin 30 mlynedd yn ôl, mae ei hamrediad wedi ehangu'n drawiadol yn CNPT yn ystod y degawdau diwethaf ac mae'n ymledu bellach yn holl brif ddyffrynnoedd y sir. Tan yn ddiweddar byddai wedi cael ei hystyried yn rhywogaeth anffodorol ymledol â blaenoriaeth isel, ond mae arolygon diweddar wedi datgelu ei bod yn gallu ffurfio cytrefi ymledol trwchus. Gellir gweld enghraifft drawiadol o hyn ar rostir Mynydd Dinas. Mae'r Bachgen Llwm yn cynhyrchu llawer o flodau a llawer o aeron suddlon o faint pys. Mae adar sy'n byw ar ffrwythau yn bwyta'r rhain ac yna'n gwasgaru'r hadau.

Y DDERWEN FYTHWYRDD

Coeden fawr sy'n frodorol i ranbarth Môr y Canoldir yw'r Dderwen Fythwyrrd. Yn wahanol i'n coed derw brodorol ni (a'r rhan fwyaf o goed derw egstog eraill ym Mhrydain), mae'n goeden fythwyrrd ac mae'n cynhyrchu dail trwchus sy'n aml â dannedd pigog tebyg i ddail celyn. Cafodd ei phlannu mewn ardaloedd arfordirol i ddarparu cysgod rhag y gwynt oherwydd, yn wahanol i lawer o'n coed a'n llwyni brodorol, mae'n gallu goddef ewyn hallt ac mae'n tyfu'n dda mewn mannau arfordirol agored megis twyni tywod. Yn yr un modd â choed derw eraill, mae'n cynhyrchu mes sy'n cael eu casglu a'u gwasgaru gan Sgrechod y Coed ac mae'n gallu cytrefu cynefinoedd twyni tywod yn effeithiol iawn. Yn CNPT, mae'n un o'r rhywogaethau ymledol amlwg yn Nhwyni Crymlyn.



JAPANESE KNOTWEED

JClymog Japan, a gyflwynwyd i Brydain fel planhigyn gardd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yw'r rhywogaeth anffroddol ymledol fwyaf adnabyddus yn Fflora Prydain fwy na thebyg ac mae ei enw bron yn gyfystyr â'r term rhywogaeth anffroddol ymledol. Mae pob un o blanhigion Clymog Japan ym Mhrydain ac ar draws Ewrop yn wryw anffrwythlon (nid ydynt yn cynhyrchu pailly hyfyw) h.y. maent yn fenyw yn unig ac yn methu ffurfio hadau pur, hyfyw. Fodd bynnag mae gan Glymog Japan allu arswydus i atgynhyrchu o ddarnau o llystyfiant, megis darnau bach o risom a geir yn y pridd. O ganlyniad i hyn, mae'r holl Glymog Japan ym Mhrydain yn perthyn i glôn sengl, genynnol unfath sydd wedi helaethu'i amrediad trwy atgynhyrchu llystyfol. Fodd bynnag, gall Clymog Japan groesi â rhywogaethau eraill o glymog, yn enwedig y Glymog Fawr, a all weithredu fel rhoddwr gwryw. Mae'r croesiad hwn â'r Glymog Fawr, a elwir yn Glymog Bohemia, yn gallu hadu ac ymledu'n llystyfol ac mae'n gallu croesi'n ôl â'r rhieni blanhigion. Yn yr achosion hyn, gall deunydd genetig newydd gyfoethogi poblogaethau Clymog Japan, ond ni wyddom i ba raddau y mae croesi a chroesi'n ôl wedi digwydd yn CNPT. Yn ogystal, tra bod Clymog Japan yn gyffredin yn CNPT, mae'n ymddangos bod y Glymog Fawr yn brin neu wedi'i chofnodi'n anfynd ac mae'r unig rai y gwyddom amdanynt i'w canfod yn Ynysmeudwy a Choedwig Rheola, ger Resolfen.

Mae Clymog Japan yn cystadlu'n egniol ac mae'n aml yn ffurfio clonau trwchus mewn ardaloedd trefol neu ar dir gwastraff yn ogystal ag ar hyd ochrau ffyrdd, llwybrau, dyfrffyrdd ac mewn coetiroedd llydanddail collddail. Mae Clymog Japan yn achosi problemau sylweddol mewn nifer o fynwentydd yn CNPT ac mae'n gyffredin mewn llawer man ar hyd holl afonydd a chamlesi CNPT. Ceir llwyni trwchus o Glymog Japan mewn rhai coetiroedd hynafol, megis Coed Tyn yr Heol, ger Bryncoch. Nid yw effaith hyn ar fioamrywiaeth yn CNPT wedi'i fesur i bob pwrpas. Ond, mae'n debygol bod tyfiant Clymog Japan wedi tagu un o boblogaethau'r Gronnell yn CNPT, ar lannau afon Dulais ger Aberdulais (gwelwyd hi ddiwethaf yn 1998). Er nad yw Clymog Japan yn ddymunol mewn coetir hynafol, fe all gyflawni rôl haen brysgwydd ddirprwyol, lle gall rhywogaethau o fflora daear gwanwynol megis Blodau'r Gwynt a Chlychau'r Gog oroesi.

Yn gynnar yn y tymor tyfu, mae Clymog Japan yn agored i wywo a necrosis y blagur yn ystod cyfnodau o wres anarferol yn y gwanwyn a'r haf. Mae'n anghyffredin hefyd mewn cynefinoedd serig ond mae enghreifftiau ohono yn nhwyni tywod Twyni Crymlyn ar ymyl y traeth ger ceg aber Nedd.



RHOSYN JAPAN

Cyflwynwyd Rhosyn Japan i Brydain fel planhigyn gardd tua 100 mlynedd yn ôl. Fe'i defnyddir yn aml mewn cynlluniau plannu amwynder, weithiau mewn niferoedd mawr. Mae wedi cynefino'n helaeth yn ardaloedd arfordirol CNPT ac mae'n broblem ymledol sylweddol mewn twyni, yn enwedig yn Nhwyni Crymlyn. Mae ei ddsbarthiad yn wasgaredig mewn rhannau eraill o CNPT. Ar ôl ymsefydlu, mae'n cynhyrchu nifer mawr o grachgoed a bydd yn gorchuddio ardaloedd helaeth â chlystyrau trwchus trwy dyfiant rhisomaidd. Mae'n cynhyrchu llawer o flodau cryf eu harogl sy'n troi'n egroes mawr iawn sy'n cynnwys yr hadau. Mae'n debygol bod Rhosyn Japan yn gallu ymledu trwy hadau hefyd ond ni wyddom sut yn union mae'r hadau'n cael eu gwasgaru.

BLODYN MIHANGEL

Mae'r enw hwn yn cwmpasu nifer o rywogaethau a'u croesiadau. Cyflwynwyd nifer ohonynt i Brydain fel planhigion gardd a gall fod rhai eraill wedi deillio o groesiadau ar ôl i'r rhieni-blanhigion gael eu cynefino. Mae'n anodd adnabod tacsonau penodol ac mae gwallau, fwy na thebyg, yn ein cronfa ddata o gofnodion, ond mae'n hawdd eu hadnabod fel grŵp ac mae pob un ohonynt yn achosi problemau tebyg fel rhywogaethau anfrodorol ymledol. Ar ôl ymsefydlu ar safle, mae'r planhigion fel arfer yn ffurfio clystyrau trwchus. Mae poblogaethau o Flodau Mihangel sydd wedi cynefino yn wasgaredig yn CNPT ond, yn yr un modd â'r Eurwialen, maent yn broblem fwy sylweddol mewn systemau twyni megis Twyni Crymlyn.

CORCHWYN SELAND NEWYDD A DYFRLLYS ANFRODOROL ERAILL

Cyflwynwyd nifer mawr o blanhigion dyfrol i byllau addurniadol mewn parciau a gerddi ledled Prydain, yn aml er mwyn eu hawyru. Caiff nifer o rywogaethau eu tyfu gan geidwaid pysgotai ac mae'r rhain wedi cyrraedd cynefinoedd dŵr croyw, weithiau ar ôl cael eu gwaredu'n fwriadol, a chael eu gwasgaru ymhellach gan adar dyfrol. Mae Corchwyn Seland Newydd a'r Plu Parot yn rhywogaethau dyfrol anfrodorol ymledol drwg-enwog sydd i'w canfod ar wasgar yn CNPT, gyda'r cyntaf o'r rhain yn ymfurfio'n glystyrau trwchus o dan y dŵr yng Nghamlas Nedd ger Aberpergwm.

Mae Alaw Canada ac Alaw Nuttall yn gyffredin iawn yn ein camlesi, gan ffurfio cytreffi mawr weithiau tra bod y Ffugalaw Crych yn aml yn ffurfio poblogaethau dwys iawn, e.e. yng Nghamlas Tenant ger Basn Aberdulais ac ym Mhyllau Glyncorwg.



RHODODENDRON

Efallai mai'r Rhododendron yw'r INNS pwysicaf yn CNPT o ran ei heffaith ar fioamrywiaeth. Mae'n gyffredin ac yn doreithiog mewn rhai cynefinoedd ledled y sir, ond mae'n anghyffredin mewn ardaloedd arfordirol. Mae'n blanhigyn bythwyrdd â changhennau trwchus sy'n gallu gorchuddio darnau helaeth o dir yn llwyr â'i grachgoed egniöl. Mae'n blodeuo'n rhydd mewn mannau agored ac yn cynhyrchu symiau enfawr o hadau pitw sy'n gallu gwasgaru yn yr aer dros bellteroedd sylweddol ar lefel tirwedd. Mae'n gallu goddef cysgod, gan gynnwys y cysgod o dan gonifferau ac fe'i ceir mewn coetiroedd a choedwigoedd ar draws y sir. Mae enghreifftiau i'w gweld yng nghoetir collddail llydanddail Coed Gawdir ger Aberdulais ac yn y poblogaethau helaeth ym mhlanhigfa conifferau Coedwig Glyncastell ger Resolfen. Ni all braidd dim dyfu yng nghysgod prysglwyni Rhododendron. Gall Rhododendron hefyd oresgyn cynefinoedd gwlyptir gan arwain at ddatblygiad prysgdiroedd nas dymunir, cystadleuaeth a sychu'r tir. Mae hyn i'w weld yn Ffen Pant y Sais, sef un o safleoedd gwlyptir pwysicaf CNPT lle mae'r Rhododendron wedi cytrefu'r warchodfa natur trwy hadau a wasgarwyd o'r rhostir lleol.

Mae'r ardaloedd helaeth a gytrefwyd yng Ngelli Onnen ger Pontardawe yn achosi pryder mawr ac yn enghraifft eithafol o natur ymledol Rhododendron. Canlyniad hyn fu colli rhan sylweddol o'r rhostir a'r gweundir ar yr ucheldir ac addasu strwythur y cynefin mewn modd sylfaenol. Mae prysgdiroedd Rhododendron helaeth mewn rhannau eang o Barc Margam hefyd.

Yn yr adroddiad hwn, mae'r enw Rhododendron (sensu lato) yn cynnwys Rhododendron (sensu stricto) a Chroesiad Rhododendron. Mae'n bosibl bod y ddwy rywogaeth wedi'u dosbarthu'n helaeth yn y sir.

HELYGEN Y MÔR

Er bod Helygen y Môr yn blanhigyn brodorol ar hyd arfordir dwyrain Lloegr, mae'n rhywogaeth anfredorol ar arfordir gorllewinol Prydain lle cafodd ei blannu i sefydlogi systemau twyni symudol. Fe'i plannwyd hefyd mewn rhai lleoliadau mewndirol er mwyn adfer cynefinoedd a chyfoethogi'r nitrogen yn y pridd. Mae'n werth nodi dwy o briodweddau'r rhywogaeth hon sef (i) mae'n ddeuoecaidd a (ii) mae'n gallu sefydlu nitrogen trwy'r cnepynnau yn ei wreiddiau. Mae Helygen y Môr yn ffurfio crachgoed yn rhwydd ac yn gallu ffurfio clystyrau mawr, trwchus mewn systemau twyni. Oherwydd hynny, mae wedi dod yn broblem yn Nhwyni Crymlyn ond mae hefyd wedi ffurfio cytref fawr iawn ar y ffenddir a'r cors twyni ger y Morfa lle mae'n cael effaith niweidiol ddifrifol ar gynefin pwysig o wlyptir bioamrywiol sy'n cynnwys nifer o rywogaethau â blaenoriaeth.

Mae'r planhigion benyw yn cynhyrchu nifer mawr o aeron oren a gaiff eu bwyta gan adar sy'n byw ar ffrwythau, yn enwedig bronfreithod y gaef megis Sogieir, sy'n ffordd effeithiol iawn o wasgaru'r hadau.

SBRIWS SITKA A CHONIFFERAU ANFRODOROL ERAILL

Y Sbrws Sitka yw'r goeden fwyaf cyffredin yn CNPT a'r rhywogaeth bwysicaf o ran cynhyrchu pren sy'n tyfu yn ein planigfeydd coedwigaeth lle caiff ei phlannu fesul llannerch ungnwd â choed o'r un oed. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r coed yn cynhyrchu conau toreithiog sy'n achosi i lawer iawn o hadau gwmpo ar gynefinoedd cyfagos. Pan fydd llannerch Sbrws Sitka yn agos at rostir a gweundir ar dir uchel, mae'r hadau hyn ymhen hir a hwyr yn atgynhyrchu mewn cynefinoedd â blaenoriaeth megis rhostiroedd corbrysglwyn. Gwelir enghreifftiau da o hyn ar lwyfandiroedd yr ucheldir yng Nghoedwig Glyncastell. Mae rhywogaethau anfredorol eraill o gonifferau yn cael effaith debyg, ond nid mor helaeth efallai, â choed Sbrws Sitka.



CYNFFON LAS



EURWIALEN CANADA



COTONEASTER



JAC Y NEIDIWR



BACHGEN LLWM



CLYMOG JAPAN



RHOSYN JAPAN



BLODYN MIHANGEL



CORCHWYN SELAND NEWYDD



RHODODENDRON



HELYGEN Y MÔR



SBRIWS SITKA



RHYWOGAETHAU O ANIFEILIAID ANFRODOROL YMLEDOL MEWN ECOSYSTEMAU TIR A DŴR CROYW YN CNPT

Yn achos ffawna anffrodorol ymledol yn CNPT, mae gennym gofnodion ar gyfer nifer o rywogaethau, gan gynnwys:

- Minc Americanaidd
- Y Wiwer Lwyd
- Y Terapin Clustgoch
- GŴydd yr Aifft

O'r anifeiliaid hyn, y Wiwer Lwyd efallai yw'r un mwyaf cyffredin, gan ei bod i'w chanfod ym mhobman yn CNPT ac fe'i gwelir yn gyffredin yn ein parciau, ein gerddi a'n coetiroedd. Rhywogaeth o Ogledd America yw'r Wiwer Lwyd, sy'n cystadlu'n egniol â'r Wiwer Goch ffrodorol, a hefyd yn trosglwyddo afiechyd (Parapoxvirus) sydd wedi anrheithio poblogaethau'r Wiwer Goch yng Nghymru. Ar un adeg, roedd Gwiwerod Coch ym mhob rhan o CNPT ond erbyn 1999 roeddent wedi diflannu o'r sir ac o rannau helaeth o Gymru gyfan. Priodolwyd prinhad y Wiwer Goch i'r Wiwer Lwyd, ond mae'n debygol bod colli cynefinoedd, traffig ffordd ac ysglyfaethwyr eraill wedi effeithio arni hefyd. Yn yr un modd, gellir gweld cydberthynas debyg rhwng dirywiad Llygoden Bengron y DŴr ac ymlediad y Minc Americanaidd, sydd wedi cael ei feio am ddirywiad Llygod Pengrwn y DŴr mewn ardaloedd eraill ledled y Deyrnas Unedig. Nid oes gennym dystiolaeth helaeth fod ffawna anffrodorol eraill yn achosi problemau sylweddol yn CNPT, ond nid yw hynny'n golygu nad oes problemau.



Y Wiwer Lwyd

DOSBARTHIAD INNS (SY'N ACHOSI PRYDER PENODOL) YNG NGHYNEFINOEDD CNPT

Mae Tabl 2 yn dangos yr 18 rhywogaeth estron goresgynnol ym mhrif gategoriau cynefinoedd daearol a dŴr croyw CNPT. Sylwer bod dyfrllys wedi'i restru fel rhywogaeth ar wahân ac eithrio alaw Nuttall ac alaw Canada sydd wedi'u cynnwys gyda'i gilydd. Mae nifer o broblemau sylweddol yn amlwg o'r dadansoddiad hwn:

- (i) Mae pob un o'r prif ecosystemau daearol a dŴr croyw yn CNPT yn cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol.
- (ii) Mae cotoneaster, Jac y Neidiwr a chanclwm Japan i'w gweld mewn mwy na hanner y cynefinoedd hyn ac mae coed mêl a rhododendron hefyd wedi'u dosbarthu'n eang.
- (iii) Y cynefinoedd trefol sy'n cynnwys y mwyaf o rywogaethau estron goresgynnol ac maent yn debygol o fod yn ffynhonnell rhywogaethau estron goresgynnol mewn cynefinoedd eraill. Er enghraifft, mae nifer o rywogaethau cotoneaster wedi lledaenu o blannu amwynder ar stadau diwydiannol, parciau a gerddi. Mae rhododendron hefyd wedi lledaenu'n afreolus mewn ardaloedd fel Parc Margam.
- (iv) O'r cynefinoedd sy'n weddill, ecosystemau arfordirol sy'n cynnal y mwyaf o rywogaethau estron goresgynnol, e.e. Twyni Crymlyn.



RHYWOGAETHAU ANFERODOROL YMLEDOL

Rhywogaeth	Coetir	Rhostir A Gweundir	Glaswelltir Lled-Naturiol	Cynefinoedd Mosaig Agored	Tir Ffermio Amgaeedig	Cynefinoedd Trefol	Ecosystemau Dŵr Croyw	Ecosystemau Gwlyptir	Creigiau A Chlogwyni Mewndirol	Ecosystemau Arfordirol
Cynffon Las										
Eurwialen Canada										
Rhywogaethau Cotoneaster										
Ffugalaw Crych										
Mantell Fair yr Ardd										
Jac y Neidiwr										
Y Bachgen Llwm										
Y Dderwen Fythwyrdd										
Clymog Japan										
Rhosyn Japan										
Blodyn Mihangel										
Corchwyn Seland Newydd										
Alaw Nuttall/ Canada										
Plu Parot										
Rhododendron										
Helygen y Môr										
Sbriws Sitka										
Y Wiwer Lwyd										
Nifer yr INNS	10	4	3	3	7	14	4	3	1	7


Tabl 29: Dosbarthiad INNS (sy'n achosi pryder penodol) yng nghynefinoedd CNPT



**SUT GALLWCH
CHI HELPU?**

TROSOLWG

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut gall pawb ohonom weithredu dros natur yn CNPT. Mae aelodau Partneriaeth Natur Leol CNPT yn gweithio'n galed i helpu i adfer natur yn CNPT ond nid dyna ddiwedd y stori. Mae cadwraeth natur yn dechrau wrth ein traed ac mae camau y gall pawb eu cymryd, ble bynnag neu pwy bynnag ydyn ni, i helpu i warchod treftadaeth naturiol CNPT. Yn ogystal â'r camau a ddisgrifiwyd eisoes yn y ddogfen hon, mae'r adran hon yn awgrymu camau gweithredu y gallai pawb ohonom eu cymryd yn unigol i helpu i wella Sefyllfa Byd Natur yn CNPT. Edrychwch ar y cynlluniau gweithredu i weld beth gallech chi ei wneud i helpu.



YN YR YSGOL



YN Y GWAITH



**YN Y
GYMUNED**



YN YR ARDD



SUT GALLWCH CHI HELPŪ?



Ydych chi'n rhiant neu'n addysgwr sydd am annog plant i ymgysylltu â natur yn CNPT? Nodir isod restr o gamau y gallech eu cymryd er mwyn bod yn rhan o brosiectau Partneriaeth Natur CNPT a helpu natur yn CNPT. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw rai o'r camau gweithredu, cysylltwch â biodiversity@npt.gov.uk, a chofiwch roi gwybod i ni pan fyddwch wedi cwblhau unrhyw rai o'r camau!

CARU GWENYN CNPT- AR YMYL Y Ffordd

Gallwch helpu Cyngor CNPT i reoli lleiniau ymyl ffordd a glaswelltiroedd ar gyfer blodau gwyllt trwy fonitro ardaloedd yn eich ward i'n helpu ni i benderfynu a yw ein dull rheoli yn gweithio. Mae gennym nifer o awgrymiadau am weithgareddau y gallech eu gwneud gyda'r plant yn yr ystafell ddisbarth ac yn yr awyr agored i'n helpu ni i ddysgu mwy am iechyd y glaswelltir. Cysylltwch â'r tîm yn y cyfeiriad biodiversity@npt.gov.uk i gael hyd i'r safle Caru Gwenyn CNPT agosaf i chi.



CARU GWENYN CNPT- AR DIR YR YSGOL

Oes yna lecyn ar dir eich ysgol sy'n cael ei danddefnyddio? Allech chi greu dŵl blodau gwyllt neu laswelltir yno? Mae hwn yn brosiect gwych y gall plant o bob oed fod yn rhan ohono, o gynnal arolygon er mwyn gweld pa rywogaethau o blanhigion sy'n bresennol a monitro'r pryfed peillio, i greu posteri sy'n rhoi gwybod i bobl am eich dŵl. Y cyfan mae angen i chi ei wneud yw clustnodi eich llecyn, rhoi'r gorau i dorri'r gwair yno rhwng Ebrill ac Awst ac, yn bwysig iawn, casglu'r torion a'u compostio er mwyn cadw lefel y maetholion yn y pridd yn isel. Bydd torri'r ymylon yn golygu bod y lle'n edrych yn daclus a bydd arwyddion sy'n egluro beth rydych chi'n ei wneud a pham rydych chi'n ei wneud o gymorth i ledaenu'r neges.

MAWNDIROEDD COLL DE CYMRU

Wyddech chi fod mawndiroedd (mawnogydd) yn storio dwywaith cymaint o garbon â choedwigoedd? A bod llawer o'r cynefinoedd arbennig hyn yn CNPT? Mae Prosiect y Mawndiroedd Coll ar waith tan 2025 ac mae'n gweithio i adfer ardal helaeth o fawndir ar dir uchel yn CNPT a RhCT. Gallai eich ysgol gynnal prosiect i ddysgu mwy am fawndiroedd neu hyd yn oed greu ei gardd gorsiog ei hun! Cysylltwch â lostpeatlands@npt.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.



SOS - ARBED EIN GWENOLIAID DUON

Mae'r Wennol Ddu sgrechlyd ryfeddol yn ymweld â CNPT yn ystod yr haf ond gwaetha'r modd mae'r aderyn hwn, sydd ar y rhestr goch, yn prnhau ym mhob rhan o Gymru. Tybir mai colli safleoedd nythu sydd wrth wraidd hyn yn rhannol, wrth i adeiladau gael eu hadnewyddu yn unol â safonau modern. Gallai darparu blychau nythu neu frics Gwennol Ddu yn rhan o adeiladau addas helpu i wrthdroi'r patrwm hwn. Tybed a allech chi ddarparu blychau nythu ar gyfer Gwenoliaid Duon (neu adar eraill sy'n nythu ar dai megis Gwenoliaid y Bondo) ar eich adeiladau ysgol? Mae angen eu gosod 5m uwchlaw'r ddaear gyda llwybr hedfan clir i mewn i'r blwch. Gallwch gynyddu'r siawns y bydd Gwenoliaid Duon yn cael hyd i'r blychau trwy chwarae sgrech y Wennol Ddu i'w denu nhw! Cofiwch roi gwybod i ni os bydd Gwenoliaid Duon yn nythu yn eich to.

YN YR YSGOL

Ydych chi'n fusnes sydd am weithredu ar eich cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol? Mae sawl ffordd y gallwch wneud eich rhan i helpu natur yn CNPT. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw rai o'r camau gweithredu, cysylltwch â biodiversity@npt.gov.uk, a chofiwch roi gwybod i ni pan fyddwch wedi cwblhau unrhyw rai o'r camau!

CEFNOGI UN O BROSIECTAU PARTNERIAETH NATUR LEOL CNPT

Mae gan PNL brosiectau y gallech ymwneud â nhw trwy gyllido neu wirfoddoli. Er enghraifft, bu Runtech yn helpu'r PNL yn ddiweddar trwy gynnal diwrnod adeiladu tîm yn gwaredu Jac y Neidiwr ymlledol yng Ngwarchodfa Natur Leol Tomen y Bryn. Os hoffech chi gael gwybod mwy am sut gallech chi helpu, cysylltwch â biodiversity@npt.gov.uk



CARU GWENYN CNPT - AR EICH SAFLE

Ydych chi'n rheoli unrhyw leiniau glas neu fannau gwyrdd eraill? Beth am ddechrau eu rheoli fel lleiniau blodau gwyllt? Gall newid yr adeg pan fyddwch yn torri'r gwair fod yn gam syml sy'n cael effaith fawr ar fioamrywiaeth y lleiniau hyn. Y cyfan mae angen i chi ei wneud yw clustnodi eich llecyn, rhoi'r gorau i dorri'r gwair yno rhwng Ebrill ac Awst a chasglu'r torion a'u compostio er mwyn cadw lefel y maetholion yn y pridd yn isel. Bydd torri'r ymylon yn golygu bod y lle'n edrych yn daclus a bydd arwyddion sy'n egluro beth rydych chi'n ei wneud a pham rydych chi'n ei wneud o gymorth i ledaenu'r neges. Peidiwch â phlannu llwyni anfforddol fel Cotoneaster.

RHEOLI TIR GAN GADW NATUR MEWN COF

Gallwch helpu bywyd gwyllt lleol trwy roi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr, osgoi clirio/rheoli prysgwydd a choed pan fydd adar yn nythu a chreu lle ar gyfer natur ar adeiladau, er enghraifft, trwy osod blychau nythu ar gyfer adar ac ystumod. Gall y camau bychain hyn gael effaith fawr yn lleol. Mae defnyddio coed a llwyni brodorol i greu perthi ar hyd terfynau yn ffordd arall o greu mwy o gynefin ar eich tir. Beth am alw'r staff ynghyd i drafod syniadau?



SEILWAITH GWYRDD


Wydech chi fod nodweddion seilwaith gwyrdd megis toeon gwyrdd, gerddi glaw a waliau byw yn gallu helpu i reoli tymheredd mewnol adeilad, lleihau dŵr ffo yn sgîl glaw trwm a lleihau effaith ynysoedd gwres trefol? Ar ben hynny, mae plannu rhywogaethau o flodau gwyllt brodorol yn creu cynefinoedd rhyfeddol ar gyfer pryfed peillio. I'ch ysbrydoli, mae enghreifftiau o doeon gwyrdd i'w gweld yn y sir ar y cynwysyddion ym Mharc Gwledig Craig Gwladus ac mae wal fyw i'w gweld ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe.

YN Y GWATH

Oes gennych chi ddi-ddordeb angerddol mewn helpu eich cymuned i ddod yn lle gwell ar gyfer pobl a natur? Cynigir rhai syniadau isod. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw gamau gweithredu, cysylltwch â biodiversity@npt.gov.uk.

YMUWCH Â GRŴP 'CNPT DROS NATUR'

Mae CNPT dros Natur yn un o is-grwpiau Partneriaeth Natur Leol CNPT sy'n cyfarfod bob tri mis. Nod y grŵp yw cynnig cyngor a chanllawiau ynghylch y camau y gallech chi a'ch cymuned leol eu cymryd i helpu eich cymdogion ym myd natur. Ymunwch â ni i gael syniadau ac ysbrydoliaeth, o arolygon gloynnod byw i reoli dolydd.



STRYDOEDD SY'N CARU GWENYN YN CNPT

Allech chi weithio gyda'ch cymdogion i greu Stryd sy'n Caru Gwenyn? Mae Cyngor CNPT wedi creu canllaw i'ch helpu i weddnewid gerddi ffrynt, blychau ffenestri, blaenau siopau a mannau cymunedol er mwyn annog pryfed peillio i ymweld â'ch stryd a byw yno. I gael gwybod rhagor, cysylltwch â'r tîm ar biodiversity@npt.gov.uk.

MAEDDU JAC Y NEIDIWR

Yn ystod misoedd yr haf, mae Jac y Neidiwr, sy'n rhywogaeth anfrodorol ymledol, yn ymddangos ar hyd ein hafonydd. Er bod y planhigyn hwn yn hardd iawn mae'n bygwth ein cynefinoedd, gan ei fod yn drech na rhywogaethau o blanhigion brodorol ac yn dod i ormesu ardaloedd helaeth. Gallwch helpu i amddiffyn cynefinoedd sydd dan fgythiad trwy drefnu sesiynau Maeddu Jac y Neidiwr yn y gymuned. Yn rhyfedd iawn, mae'r gwaith maeddu (codi'r planhigyn wrth ei wreiddiau, neu ei fwrw i'r llawr) yn dasg hawdd sy'n llonyddu'r meddwl!



PRIFFYRDD DRAENOGOD

Un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu draenogod yn CNPT yw cael eu hynysu oddi wrth ddraenogod eraill gan ffensys, waliau a ffyrdd prysur. Gallech chi helpu'r draenogod yn eich cymdogaeth trwy weithio gyda'ch cymdogion i greu 'Priffordd Draenogod' - a'r cyfan sydd angen ei wneud yw creu twll bach yn ffens eich gardd! Mae llawer o wybodaeth am sut gallech chi wneud hyn ar gael yma.



Oes gennych chi ddi-ddordeb angerddol mewn annog bywyd gwyllt yn eich gardd? Cynigir rhai syniadau isod. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw gamau gweithredu, cysylltwch â biodiversityenpt.gov.uk.

PEIDIO Â DEFNYDDIO MAWN

Yn ogystal â bod yn gynefinoedd bywyd gwyllt a storio dŵr i atal llifogydd, mae mawndiroedd y Deyrnas Unedig yn storio 3 biliwn o dunelli o garbon, sy'n fwy na holl goedwigoedd yr Almaen, Ffrainc a'r Deyrnas Unedig gyda'i gilydd. Mae mawn o'r mawndiroedd hyn yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd mewn compost gardd. Yn ystod y 70 mlynedd diwethaf mae ardaloedd helaeth o'r cynefin tir uchel ar fawnogydd dwfn yn CNPT wedi cael eu haredig, eu draenio a'u defnyddio ar gyfer plannu conifferau. Mae'r prosiect Mawndiroedd Coll yn gweithio i adfer y mawndiroedd hyn, ond gallwch chi helpu hefyd trwy ddefnyddio compost heb fawn yn yr ardd.



DEWIS PLANHIGION LLEOL

Wyddech chi y bydd ein rhywogaethau o blanhigion brodorol wedi addasu i'r amodau lleol yn CNPT dros gyfnod hir o amser? Mae hyn yn golygu y bydd ganddyn nhw, a'r rhywogaethau o bryfed peillio sy'n dibynnu arnynt yn CNPT, amrywiadau genynnol. Wrth blannu planhigion/hadau newydd yn yr ardd, mae'n werth chwilio am stoc leol fel na fydd yr amrywiaeth genetig arbennig hwn yn cael ei wanhau a'i niweidio. Holwch eich cyflenwr planhigion i gael gwybod o ble mae eich planhigion wedi dod a chwiliwch am stoc leol.

DYW NATUR DDIM YN DACLUS

Dyw natur ddim wedi cael ei gwneud i fod yn daclus! Gallwch helpu'r bywyd gwyllt yn eich gardd trwy adael i rannau ddatblygu'n fwy naturiol, gadael i bethau dyfu'n uwch a rhoi ychydig o le i blanhigion fel danadl. Mae nifer o bryfed peillio, fel gwenyn a gloynnod byw yn treulio'r gaeaf mewn hen blanhigion marw. Gallwch eu helpu i oroesi'r gaeaf trwy adael i blanhigion marw sefyll a'u clirio yn y gwanwyn, dim ond pan fydd y tymheredd yn gyson yn cyrraedd 10°C.



LAWNT BLODAU GWYLLT

Mae'n ymddangos yn anghyson, ond mae rhywogaethau o blanhigion brodorol yn ffynnu mewn amgylcheddau isel eu maetholion. Mae hyn oherwydd bod pridd sydd â lefel uwch o faetholion yn caniatáu i rywogaethau mwy cystadleuol fel glaswelltau a mieri ffynnu. Gallwch annog blodau gwyllt i dyfu yn eich lawnt trwy roi'r peiriant torri heibio yn ystod y tymor blodeuo a chasglu'r torion ar ôl torri er mwyn lleihau'r maetholion yn y pridd. Cewch fwy o wybodaeth am hyn yma.





NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BARTNERIAETH NATUR LEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

CNPT DROS NATUR

GRŴP GWEITHREDU CYMUNEDOL

Ydych chi'n grŵp cymunedol neu'n sefydliad,
neu'n unigolyn ssydd am helpu natur yn CNPT?

Ymunwch â'r grŵp CNPT dros Natur newydd I
ddysgu sut y gallwch chi wneud y gwaganiaeth
mwyaf i natur yn eich cymuned

Ymunwch â'r grŵp drwy e-bostio
biodiversity@npt.gov.uk




HOW CAN YOU HELP?



**RHAI SAFLEOEDD
ARBENNIG YN
CNPT**

Mae'r map hwn yn dangos detholiad o rai o'r safleoedd diddorol y gallwch ymweld â nhw o gwmpas CNPT. Mae sawl safle arall i'w ddarganfod! Darperir mwy o fanylion am rai o'r safleoedd hyn ar y tudalennau canlynol. Mae rhai o'r safleoedd hyn wedi'u dynodi a rhestrir y dynodiadau hyn yn Atodiad 5.



Ffen Pant Y Sais a Chamlas Tenant

Darn o wlyptir llawn corsydd yw Ffen Pant y Sais sydd, o ran cysylltedd, bron yn cydgyffwrdd â Chors Crymlyn, sef y ffen iseldir mwyaf yng Nghymru. Gyda'i gilydd mae'r ddau yn ffurfio un o'r cynefinoedd gwlyptir pwysicaf yn ne Cymru. Dynodwyd Cors Crymlyn yn safle Ramsar o bwys rhyngwladol ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig.

Ceir mynediad hwylus i Bant y Sais o bentref Jersey Marine, lle mae llwybr pren cylchol yn caniatáu i ymwelwyr weld peth o fywyd gwyllt nodweddiadol y safle. Ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf gellir gweld a chlywed amrywiaeth o adar y ffen megis Telor y Cyrs, Telor yr Hesg, y Troellwr Bach, Telor Cetti a Bras y Cyrs. Weithiau mae Rhegennod Dŵr i'w clywed yn gwichian yn y cyrs a hyd yn oed yn mentro allan ar y llwybr pren bob nawr ac yn y man ar adegau tawel yn y bore a chyda'r nos. Ambell waith, gwelir Madfallod Cyffredin yn torheulo ar y llwybr pren ac weithiau gwelir Nadroedd y Gwair yn symud trwy'r llystyfiant. Mae Pant y Sais hefyd yn lle da i chwilio am weision y neidr a mursennod, gan gynnwys rhywogaethau anghyffredin fel Gwas y Neidr Blewog, y Fursen Las Amrywiol, y Fursen Dinlas Fach, y Wäell Rudd a'r Wäell Ddu.

Mae llawer o blanhigion gwlyptir lliwgar yn tyfu yn y ffen megis Ffa'r Gors, Melog y Waun, Grug Croesddail a Charpiog y Gors. Mae Gwlithlys Pryfysol yn tyfu ar y Migwyn a geir ar hyd y llwybr pren ac mae Brwyn Blaendon yn gyffredin mewn sawl man. Mae arddangosfeydd trawiadol o Redyn Cyfrdwy ac ambell glwstwr o Farchredyn Cul yn amlwg iawn yn yr haf a Phant y Sais yw un o'r ychydig safleoedd gwlyptir ym Mhrydain lle gwelir Plu'r Gweunydd Eiddil, sy'n rhywogaeth brin iawn yn y Llyfr Data Coch.

Mae Camlas Tenant wrth ochr Ffen Pant y Sais a Chors Crymlyn yn sianel bwysig o ran cysylltu gwlyptiroedd yn CNPT ac mae'n un o'r cynefinoedd dŵr croyw mwyaf bioamrywiol yn y sir. Mae penhwyaid yn gyffredin yn y gamlas ac mae planhigion dyfrol fel Rhawn y Gaseg, Crafanc-y-frân Gwyntyllog, y Cleddlys Di-gainc a Liliau'r Dŵr yn amlwg iawn yma. Mae'r llystyfiant amrywiol sy'n codi o'r dŵr ar hyd glannau'r gamlas yn cynnal fflora lliwgar gan gynnwys Brwyn Blodeuog, Pumalen y Gors, y Llafnlys Mawr, Gellesg, Llysiau'r-milwr Coch, y Trewyn, a'r Helyglys Pêr. Yn ogystal, mae dail enfawr Tafol y Dŵr a chlystyrau mawr o'r Hesgen Rafunog Fawr, Hesgen y Dŵr Fawr a'r Hesgen Duswog i'w gweld yn amlwg ar lannau'r gamlas. Un enghraifft bwysig o ffawna Camlas Tenant yw Corryn Rafft y Ffen, sef corryn mawr, lled-ddyfrol sy'n hela ar wyneb y dŵr. Mae Corynnod Rafft y Ffen yn brin ym Mhrydain a'r boblogaeth ar Gamlas Tenant yw'r unig un yng Nghymru.



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BANTHATH PARTHUR LLO, CASTELL NEU PORT TALBOT

RHAI SAFLEOEDD ARBENNIG YN CNPT

Melincwrt Valley and Cwm Caca



Bydd taith fer ar droed o bentref Melin-cwrt, ger Resolfen, yn eich arwain ar hyd glan Nant Melin-cwrt i warchodfa natur fach sy'n cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Mae'n dro hawdd sy'n eich arwain i mewn i ran isaf Dyffryn Melin-cwrt mor bell â rhaeadr ffotogenig Sgwd Rhyd yr Hesg sy'n disgyn yn drawiadol dros y casgliad o greigiau tywodfaen oddi tani. Mewn manau, gorchuddir waliau unionsyth y dyffryn gan fwsoglau a llysiau'r afu, gyda haenau o Godlys Traphlith wedi'u taenu dros y creigiau gwlyb lle mae'r rhaeadr yn tasgu a Rhodyn Cyfrdwy yn glynu at y graig y tu ôl i'r rhaeadr. Mae glan yr afon ar ochr y llwybr yn goediog gyda Llwyfenni Llydanddail a Phisgwydd Dail Bach mewn manau, ac mae darn o graig fertigol sy'n wynebu'r gogledd ac sy'n anodd iawn ei gyrraedd wedi'i orchuddio gan Redynach Teneuw Tunbridge, unig leoliad hysbys y rhywogaeth yn CNPT.

Derw Mes Di-goes yw'r nodwedd amlycaf ar ochrau coediog serth y dyffryn, gyda fflora daear sy'n cynnwys Gliniogai, Clychau'r Gog a Suran y Coed. Mewn degawdau blaenorol, roedd Gwybedogion Brith yn bridio yn y coetir hwn ond nid ydynt wedi'u cofnodi yma yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag mae Siglennod Llwyd a Throchyddion i'w canfod yn gyffredin ar hyd y nant ac ymhellach i fyny'r nant, uwchben y rhaeadr, mae Gwybedogion Mannog a Thingochion i'w gweld yn aml.

Nid yw rhan uchaf Dyffryn Melin-cwrt a'i hochrau serth, fel ceunant, uwchben y rhaeadr wedi cael ei harchwilio'n fanwl, ond mae'r creigiau gwlyb a'r parthau lle mae'r dŵr yn tasgu yn cynnal mathau diddorol o llysiau'r afu megis yr Ysgol-lys Cywasg a'r Gwlanlys Hardd. Lle mae'r nant yn ymdroelli trwy Gwm Caca, ceir llethrau o Glychlys Dail Eiddew ac ardal helaeth o laswelltir corsiog llawn cyrs a migwynau. Mae'r llaciau tra-fasig yn y cyffiniau hyn wedi denu clystyrau o afal-fwsogl Philonotis calcarea ac mae ychydig o Redyn Corniog i'w canfod yng nghysgod y creigiau bargodol.

Systemau Twyni Tywod Twyni Baglan a Thwyni Crymlyn



Mae arfordir CNPT yn ymestyn ar hyd Bae Abertawe, o Gampws y Bae Prifysgol Abertawe ger Jersey Marine i Draeth y Morfa wrth geg afon Cynffig. Ddau gan mlynedd yn ôl, roedd y llain arfordirol hon yn dwyni tywod dilychwin, ond collwyd llawer o'r rhain o ganlyniad i ddatblygu diwydiannol. Heddiw, Twyni Crymlyn a Thwyni Baglan, ar bob ochr i geg afon Nedd yw'r unig ardaloedd sylweddol o ecosystemau twyni tywod sydd wedi goroesi yn CNPT, er bod darnau llai o dwyni hefyd yng nghyffiniau Aberafan a'r Morfa.

Ceir mynediad hwylus i Dwyni Crymlyn o Gampws y Bae, lle mae maes parcio Talu ac Arddangos. Gellir cael mynediad i Dwyni Baglan o lwybr yr arfordir ger Doc Brunel yn Llansawel neu o ben gogleddol Traeth Aberafan. Nodweddir y ddau safle gan systemau twyni tywod cronus, dynamig, sy'n golygu eu bod yn wahanol i nifer o dwyni eraill ym Morgannwg ac mae hyn yn caniatáu iddynt gynnal planhigion ac anifeiliaid mewn cymunedau tywod symudol amrywiol.

Ceir ardaloedd traethlin a chyn-dwyni datblygedig ar y ddau safle, lle mae nifer mawr o Hegydd Arfor, Helys Pigog a Thywodlys Arfor i'w gweld ynghyd ag ambell enghraifft wasgaredig o'r Llygwyn Ariannaid. Yn nes at y tir, mae'r cyn-dwyni symudol yn gartref i boblogaethau amlwg o Gelynnen y Môr, y Taglys Arfor, Trilliw'r Twyni a Llaethlys y Môr. Yn ogystal, mae Peisgwellt y Twyni, sy'n fath anghyffredin o laswellt ym Mhrydain, yn tyfu yma ynghyd â Rhonwellt y Tywyn ynghanol y Moresg. Mae'r Murwyll Arfor, sydd bellach yn blanhigyn prin yn Nhwyni Crymlyn, yn dal i fod yn niferus yn Nhwyni Baglan. Mae'r rhywogaeth Data Coch hon, sydd i'w chanfod yn ne Cymru a de-orllewin Lloegr yn unig yn y Deyrnas Unedig, yn nodwedd bwysig o'n systemau twyni. Yn nes at y tir, mae ardaloedd o dwyni mwy sefydlog yn cynnwys casgliad amrywiol iawn o rywogaethau glaswelltir lliwgar, sy'n cynnwys y Tegeirian Bera, Fioled y Rhos a'r Blucen Felen, sy'n arbennig o doreithiog yn Nhwyni Crymlyn. Yn ystod yr haf, gwelir gloynnod byw megis y Glesyn Bach, yr Argws Brown a'r Fritheg Werdd, sy'n llawer mwy o faint, yn hedfan trwy'r glaswelltiroedd bioamrywiol hyn.

Systemau Twyni Tywod Twyni Baglan a Thwyni Crymlyn

Gwaetha'r modd, mae llawer o'r systemau llaciau tywod amrywiol a oedd yn rhan o'r twyni hyn 50 mlynedd yn ôl wedi cael eu colli. Yn y 1970au, roedd Tegeirian y Fign Galchog, Tegeirian-y-gors Cynnar, Caldrist y Gors, Melog y Waun, Saethbennig y Gors a Glesyn-y-gaeaf Deilgrwn i'w canfod yn systemau llaciau Twyni Crymlyn, ond nid oes dim o'r rhain yn tyfu yno bellach. Fodd bynnag, mae modd gweld Tegeirian-y-gors Cynnar a Chaldrist y Gors o hyd yn Nhwyni Baglan, lle ceir hefyd boblogaethau sylweddol o'r Gorudd Melyn, yr Hesgen Gynffonnog, yr Hesgen Blodau Pell a'r Hesgen Fannog. Lluniwyd cynlluniau a pharatoadau petrus i ail-greu llaciau tywod newydd yn Nhwyni Crymlyn.

O ran yr adar sy'n debygol o gael eu gweld yn y twyni, mae Clochdar y Cerrig, y Llinos a'r Ehedydd yn amlwg iawn a thuag at ddiwedd y gwanwyn, mae'r Gog i'w gweld a'i chlywed yn aml. Weithiau, daw ambell Dylluan Glustiog neu Foda Tinwyn i hela uwchben y twyni yn y gaeaf, ac mae ardaloedd y traethlin yn fannau da i chwilio am Freision yr Eira ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Mae adar hirgoes megis Pibydd y Mawn, y Cwtiad Torchog, y Rhostog Gynffonfraith, y Bieden Fôr a'r Gylfinir i'w canfod i raddau gwahanol ar hyd ymyl y traeth, ond mae'r heidiau mawr o Bibyddion y Tywod a arferai ymgasglu i fwydo yn Nhwyni Crymlyn tan yn gymharol ddiweddar wedi diflannu, fwy na thebyg o ganlyniad i aflonyddu di-baid. Yn ystod y gwanwyn, mae grwpiau bach o Fôr-wenoliaid, gan gynnwys y Fôr-wennol Fach, i'w gweld yn aml yn hedfan dros y môr yn agos at y lan, a gwelir Coelgylfinirod hefyd ar eu taith yn y gwanwyn a dechrau'r hydref bob blwyddyn bron.

Nid oes digon o le yma i gynnwys disgrifiad manwl o ffawna infertebratau'r twyni hyn ond gellir disgwyl gweld y carabid, *Broscus cephalotes*, yn cuddio o dan weddillion sy'n dod i'r lan ar hyd y traethlin, yn ogystal â Gwenyn Meirch sy'n tyrchu yn y tywod a channoedd o Nadroedd Miltroed weithiau. Mae'n gyffredin gweld clêr *Villa modesta* yn gorffwys ar y tywod ar brynhawniau twym yn yr haf.

Mae pobl yn aml yn rhyfeddu at yr amrywiaeth o ffyngau sydd i'w canfod yn ein twyni. Gallech weld ffwng Nyth Aderyn o chwilio'n ofalus trwy'r gweddillion pren ar y traethlin lle mae Coesyndau Brau Moresg yn gyffredin. Mae'r Cap Inc Twyni Bach, sy'n tyfu'n agos at y Moresg, yn llai cyffredin. Mae sawl rhywogaeth arall i'w canfod yn yr ardaloedd glaswelltog mwy sefydlog, gan gynnwys lliw lelog hyfryd *Lepista sordida* a ffwng gwyn Pertyn y Twyni (*Lepiota erminea*).



Tylluan Glustiog



Nyth Aderyn



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BATHYBATH WAFFLE LOD, CASTLE NEB PORT TALBOT

RHAI SAFLEOEDD ARBENNIG YN CNPT

Tomen Y Bryn



Ardal o laswelltir ar gyrion pentref y Bryn yw Tomen y Bryn. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, hwn oedd safle Pwll Glo Bryn Navigation, sef pwll glo prysur a ffyniannus a oedd yn cyflogi cannoedd o bobl. Fel llawer o byllau glo lleol, fe'i caewyd yn y 1960au, gan adael ar ei ôl domen sylweddol ar ffurf pyramid â chopa bigog. Er mwyn sefydlogi'r domen ac atal tirlithriadau, gwnaed gwaith tirweddu i greu ffurf is a mwy crwn cyn capio'r domen a hau cymysgedd o wair a chiblys i'w hadfer. Yn ystod y degawdau ers hynny mae Tomen y Bryn wedi datblygu'n safle mosaig agored cyfoethog ei rywogaethau sydd bellach wedi'i ddynodi'n Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC).

Mae amrywiaeth rhyfeddol o gynefinoedd yma, gan gynnwys glaswelltir mesotroffig, rhostir, llaciau gwlyb a phrysgwydd eithin. Mae'r Ehedydd a Chorhedydd y Waun yn rhywogaethau cyffredin yn y glaswellt ar y llethrau uwch tra bod Nadroedd Defaid a Madfallod (Bywesgorol) yn aml i'w gweld yn torheulo ar ymyl y prysgwydd eithin, lle mae'r Llinos yn bridio.

Mae'n fwy na thebyg mai Tomen y Bryn yw'r lle gorau yn CNPT i weld y Frithog Werdd. Mae'r larfâu yn bwyta'r Fioled Gyffredin, sy'n doreithiog ar y safle, tra bo'r oedolion, sy'n hedfan ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf, yn bwydo ar neithdar gwahanol blanhigion ond maen nhw'n hoff iawn, yn ôl pob golwg, o Ysgall y Gors, sydd hefyd yn gyffredin ar y domen. Gwelir y Fritheg Berlog Fach a'r Gweirlöyn Llwyd yn hedfan yma hefyd ynghyd â gloynnod byw mwy cyffredin megis Gweirlöyn Bach y Waun, y Glesyn Cyffredin, y Gwibiwr Bach, Gweirlöyn y Glaw ac eraill.

Un o nodweddion mwyaf trawiadol Tomen y Bryn yw ei phoblogaeth enfawr o Degeiriannau'r Gwenyn, y cyfrifwyd bron mil ohonynt yno yn 2021. Mae Tegeirian-y-gors Deheuol yn niferus iawn yma ond mae'r Tegeirian Brych yn llawer llai cyffredin. Gwelir bod Ysgall Siarl, sy'n fath nodweddiadol o ysgall ar domenni glo yn tyfu'n amlwg yn y pridd sych, sy'n draenio'n dda, ar hyd ymyl y prif lwybr.

Mae Tomen y Bryn yn gartref i nifer o rywogaethau o Hesg, gan gynnwys yr Hesgen Gyffredin, yr Hesgen Lwyd, yr Hesgen Welw, yr Hesgen Bengron, yr Hesgen Ysbigog Borffor, yr Hesgen Felen, Hesgen Lwydlas y Calch a'r Hesgen Ddeulasnod. Mae'r Hesgen Felen yn arbennig o gyffredin yn y llaciau lle mae planhigion hardd Gwlyddyn-Mair y Gors i'w weld hefyd. Ymysg y llyisiau tal, lliwgar ac amlycaf ar y safle, mae Llyisiau'r Dryw a Llyisiau'r Dryw Peraroglus, Erwain a'r Helyglys Pêr.

Y brif her o ran cadwraeth Tomen y Bryn yw diogelu cyflwr y glaswelltir presennol. Mae'r gwaith rheoli yn cynnwys gwaredu rhywogaethau anfrodorol ymledol megis Cotoneaster a Jac y Neidiwr a defnyddio cyfundrefn bori sensitif.

Ychwanegwyd tŵr bywyd gwyllt ar y safle yn ddiweddar er mwyn darparu cartrefi a mannau clwydo ar gyfer gwahanol rywogaethau, gan gynnwys ystlumod.

Parc Coedwig Afan

Mae'r parc mawr hwn yng Nghwm Afan, sy'n 48 milltir sgwâr o ran ei arwynebedd, yn cynnwys nifer o lwybrau a thrywyddau gwahanol sy'n caniatáu i ymwelwyr fwynhau natur ar bob adeg o'r flwyddyn. Lleolir Canolfan Ymwelwyr ar ffordd yr A4107 ger Cynonville lle mae maes parcio a chyfleusterau eraill gan gynnwys lluniaeth a gwybodaeth i ymwelwyr. O'r fan hon, gallwch ddilyn sawl llwybr, llawer ohonynt yn addas i deuluoedd. Bydd un o'r llwybrau gorau a hawsaf yn eich tywys o'r ganolfan ar hyd yr hen reilffordd, heibio i Arhosfan Cynonville tuag at Ddyffryn Rhondda a'r Cymer. Yma, gallwch fwynhau côr yr adar yn ystod y gwanwyn a'r haf, sy'n cynnwys mudwyr haf fel Telor yr Helyg, y Siff Siaff, y Telor Penddu a Thelor yr Ardd, yn ogystal â'r holl rywogaethau preswyl cyffredin megis y Titw Mawr, Titw Tomos Las, y Titw Penddu, Telor y Cnau, y Fronfraith, yr Aderyn Du a'r Robin. Ganol haf, mae Gwenoliaid y Bondo i'w gweld yn hedfan yn brysur gyda'r nos.

Mae'r cloddiau a'r ffosydd ar hyd y llwybr hwn yn llawn mwsoglau a llysiâu'r afu, gyda charpedi hardd o Hookeria Lucens mewn manau a thuswau o'r Cwfl-lys Byseddog, sef math o lys yr afu pitw, hypergefnforol, ar risgl rhai o'r coed helyg. Rhwng Cynonville a Dyffryn Rhondda, mae Dolydd Rheilffordd Dyffryn Rhondda, sef llecynnau glaswelltog bioamrywiol ar rwbel glo Tomen y Dyffryn sydd wedi'i lefelu. Mae Tamaid y Cythraul yn gyffredin ar y ddôl fawr, lle mae'r pryfed hofran tebyg i wenynd meirch deniadol, *Sericomyia silentis*, yn ymwelwyr mynych. Mae planhigion blodeuol eraill sy'n werth eu nodi yn cynnwys Tegeirian-y-gors Deheuol, yr Ysgellog a'r Edafeddog Hirhoedlog. Cofiwch sylwi ar y Gwiberod sydd i'w gweld yn torheulo ar domenni coed o bryd i'w gilydd. Nid yw'r creaduriaid swil hyn yn ymosodol a byddant bob amser yn ceisio symud i ffwrdd yn gyflym os bydd rhywbeth yn tarfu arny'n nhw. Ar ddiwrnodau heulog, gallwch weld nifer o loynnod byw, gan gynnwys y Fritheg Werdd, sydd yn yr awyr ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf. Ymhlith nodweddion eraill gwerth eu nodi yn y cyffiniau, mae poblogaeth fawr o Lesyn-y-gaeaf Deilgrwn ac ymhellach ar hyd y llwybr tuag at y Cymer, mae crëyrfa wedi'i sefydlu. Yn aml, gellir gweld Hwyaid Danheddog yn hedfan ar hyd yr afon yn y rhan hon o Gwm Afan.

Gellir cael mynediad i rannau eraill o'r parc coedwig o Ryslyn, Gyfylchi, Abercregan, Glyncorwg a Blaengwynfi. Mae maes parcio mawr di-dâl ger mynedfa Rhyslyn ym Mhonrhydyfen. Ceir cytrefi hynod o gen lwerydd, *Sticta limbata*, ar goed ynn ar hyd glannau afon Afan yma, ac mae'r pyllau bach yn y ffosydd wrth ymyl y llwybrau yn aml yn cynnwys penbyliaid a niferoedd bach o'r Madfallod Dŵr Palfog sydd fel arfer yn eu bwyta. Mae'r Siglen Lwyd a Bronwen y Dŵr yn ymweld â'r afon yn yr ardal hon, lle mae dŵr ewynnog yn tasgu oddi ar greigiau lle ceir clustogau mwsoglyd o *Schistidium rivulare* a *Schistidium platyphyllum*.

Mewn sawl rhan o'r parc, mae nifer mawr o Larwydd Japan a gafodd eu heintio ag afiechyd Ramorwm wedi cael eu clirio. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u llwrgwmpo o ganlyniad i'r gwaith hwn bellach yn gartref i'r Troellwr Mawr a Chorhedyddion y Coed ac yn aml ar nosweithiau braf o haf mae'r Troellwr Mawr gwryw i'w glywed yn troelli yng Nghwm Pelenna.

Mae cyflwr afon Afan wedi gwella'n sylweddol ers y dyddiau pan fyddai llygredd dŵr o'r pyllau glo a'r mwyngloddiau yn troi ei dyfroedd yn ddu ac yn oren yn y gorffennol. Bellach, mae'r afon mewn cyflwr llawer gwell ac yn gallu cynnal poblogaethau o Frithyll, Sewin a rhediad Eog lwerydd, er bod llygredd dŵr o'r pyllau glo a'r mwyngloddiau ac ewtroffigedd yn dal i achosi problemau mewn rhai manau.

Mae clystyrau o goed Sbrws Sitka yn nodwedd amlwg iawn yn y rhan fwyaf o'r parc lle mae'r Pila Gwyrdd, y Llinos Bengoch Fechan, y Gylfingroes a Gwalch Martin i'w canfod. Mae'r coedwigoedd hyn yn aml yn dywyll ac weithiau'n ddyrys, ond mae amrywiaeth mawr o ffyngau yn tyfu ynddynt, gan gynnwys rhywogaethau lliwgar megis Amanita'r Gwybed a chasgliad o Degyll fel y Tegyll Brau Melyn a'r Russula fuscobroides llawer prinnach, sy'n un o'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn CNPT.



RHAI SAFLEOEDD ARBENNIG YN CNPT

Camlas Nedd



Llysiau'r Milwr Melynion

Camlas Nedd yw'r gamlas hiraf yn CNPT ac mae'n ymestyn o Lansawel i Lyn-nedd ym Mro Nedd, gan ddilyn cyfeiriad afon Nedd i bob pwrpas, a'i chroesi ar hyd dyfrbont fach ger y Clun. Mae modd cyrraedd y gamlas yn hwylus o sawl man yn y cwm, megis Bedd y Cawr, Melyn, Stryd y Bont (Castell-nedd), Llangatwg, Aberdulais, Resolfen ac Aberpergw. Yn y rhan fwyaf o fannau, mae'r llwybrau halio yn cynnig llwybr hawdd i gerddwyr ac mae'r gamlas, bron ar hyd-ddi, yn cynnal fflora a ffawna amrywiol sy'n hawdd eu gweld. Fodd bynnag, mae rhannau o'r gamlas rhwng Aberdulais a Resolfen mewn cyflwr gwael ac nid yw'r llwybr halio mor hawdd ei ddefnyddio.

Mae'n werth cerdded ar hyd Camlas Nedd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond mae cyfleoedd arbennig o dda i wyllo bywyd gwylt yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae'r rhan o'r gamlas rhwng Bedd y Cawr a Chastell-nedd yn arbennig o dda gyda phlanhigion blodeuol lliwgar megis y Llafnlys Mawr, Triaglog, Helyglys Pêr, Sgorpionllys y Gors, Trewyn, Llysiau'r-milwr Coch a'r Erwain. Gwelir dyfrgwn yma weithiau yn gynnwys yn y bore ac mae'r Crêyr Glas a Glas y Dorlan i'w gweld yn aml. Yn y gwanwyn a'r haf, mae'n gyffredin clywed Telor y Cyrs neu Delor Cetti yn taro cân sydyn o'r gwelyau cyrs. Mae bron pob un o fursennod a gweision neidr cyffredin Prydain i'w canfod ar hyd y gamlas ac yn yr haf, gwelir gweision neidr hardd yr Ymerawdwr yn creu arddangosfeydd trawiadol wrth batrolio'u tiriogaeth. Yng nghysgod y coed, yn enwedig rhwng Tonna a Resolfen, fe allech ddod ar draws grwpiau bach o Forwynion Tywyll ar y gamlas.

Gwelir Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd o bryd i'w gilydd ar y darn o'r gamlas rhwng Tonna a'r Clun, lle gallech fod yn ddigon ffodus o weld pâr o Hwyaid Mandarin. Mae leir Dŵr yn gyffredin ym mhobman ac i'w gweld yn aml yn sgialu dros ddail mawr Lili'r-dŵr Felen sy'n nodwedd amlwg ar wyneb y dŵr rhwng Llansawel a Chastell-nedd. Mae rhywogaethau dyfrol eraill, megis y Dyfrllys Llydanddail, y Dyfrllys Crych, y Briglwydd, Myrdd-ddail Ysbigog, Cyrnddail Caed a Chyrnddail Meddal, Llinad Dail Eiddew a'r Cleddlys Di-gainc hefyd yn gyffredin.

Fel arfer, mae modd gweld pysgod fel Draenogiaid, Rhufellod, Ysgretennod a Phenhwyaidd trwy sylu'n dawel ar y dŵr. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y terapiniaid anffodus wedi cynyddu'n sylweddol ac weithiau gellir eu gweld yn torheulo allan o'r dŵr ar y gamlas ger Bedd y Cawr.

Coridor Coetir Glannau Afon Bro Nedd



Mae'r fflora coetir mwyaf amrywiol yn CNPT i'w canfod yn y rhubanau o goetir ar hyd glannau afon Nedd rhwng Tonna a Glyn-nedd. Mae'r Llwyfen Lydanddail yn gyffredin yn y coetiroedd hyn ar lannau'r afon, ynghyd â choed Ynn, Sycamorwydd, Gwern, Cyll a Phisgwydd Dail Bach. Mae'r fflora daear yn cynnwys nifer o rywogaethau dangosol coetir hynafol megis Clychau'r Gog, Briwydd, Craff y Geifr, Blodau'r Gwynt, y Farddanhadlen Felen, Cneuen y Ddaear, Clust yr Arth, Rhwyddlwyn y Coed a'r Deintlys, casgliad amrywiol nas gwelir mewn mathau eraill o goetiroedd yn y sir. Mae Briallu yn arbennig o gyffredin mewn rhai mannau ac mae'r Goedfrwynen Fawr, y Wrychredynen Feddal a'r Wrychredynen Galed yn aml yn amlwg iawn. Gwelir y Caineirian o dro i dro hefyd.

Mae nifer o fwsoglau a llysiâu'r afu yn y coetiroedd hyn; mae'r Dueglys Mawr, y Dueglys Bychan, Cirriphyllum piliferum a'r Hylocomiadelphus triquertrus yn rhywogaethau nodweddiadol ar lawr y coetiroedd, tra bo'r Llychlys Cyffredin, Llychlys y Gorllewin, Leskea polycarpa a Homalia trichomanoides yn epiffytau nodweddiadol ar goed ar lannau'r afon.

Ceir poblogaeth sylweddol o Dormaen y Gweunydd ar hyd glannau'r afon yn y coridor hwn, a ger Resolfen mae Gwalchlys y Gors yn tyfu yn un o'i leoliadau mwyaf deheuol ym Mhrydain. Mae'r pridd tywodlyd, llifwaddodol sy'n cronni ar lannau'r afon hefyd yn cynnal tuswau o'r Mnium marginatum deniadol sy'n anghyffredin ym mhobman arall.

Dau o'r adar afon mwyaf nodweddiadol yn y Dyffryn yw Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd, ond gellir gweld Pibyddion y Dorlan hefyd ar y cerrig mân ar ochrau'r afon lle maent yn nythu. Yn ogystal, mae Glas y Dorlan yn bridio yma, ynghyd â'r Gwybedog Mannog, sy'n eistedd yn y coed uwchlaw'r afon ac yn saethu allan bob hyn a hyn i ddal pryfed. Ar nosweithiau braf o haf gallwch wylio'r Wennol, Gwennol y Bondo, Gwennol y Glennydd a'r Wennol Ddu yn bwydo uwchben yr afon ac os byddwch yn lwcus iawn, fe allech chi weld Dyfrgi. Mae'r Hwyaeden Ddanheddog a'r Hwyaeden Fandarin ymhlith yr adar afon eraill y gallech eu gweld.

Glaswelltiroedd Corsiog Cwm Dulais



© Charles Hipkin



Ysgallen y Ddôl © Charles Hipkin

Mae glaswelltiroedd corsiog cyfoethog eu rhywogaethau wedi dioddef yn enbyd yng Nghymru o ganlyniad i welliannau amaethyddol, plannu coedwigoedd conifferau, datblygu, rheolaeth amhriodol ac esgeulustod, ac ychydig iawn o enghreifftiau da o'r cynefin eithriadol bwysig hwn sydd ar ôl yn CNPT, gwaetha'r modd. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o sector gogledd y sir, yn enwedig yng Nghwm Dulais a Dyffryn Aman, yn dal i gynnwys glaswelltiroedd corsiog sy'n cynnal cymunedau bioamrywiol pwysig.

Rhwng y Creunant a'r Banwen, mae nifer o gaeau pori corsiog wedi goroesi er gwaethaf pawb a phopeth. Mewn nifer ohonynt ceir poblogaethau o Gracheithin, Melynog y Waun a Dant y Pysgodyn, sydd i gyd wedi prinhau'n sylweddol yn y sir yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Mae'n werth nodi bod cytrefi o Fritheg y Gors mewn ychydig o gaeau corsiog yng nghyffiniau Blaendulais, ac mae'r rhain yn cael eu monitro'n ofalus gan Gadwraeth Gloynnod Byw a gwirfoddolwyr bob blwyddyn. Enghraifft ragorol o hyn yw cae lle mae merlod yn pori ger Clwb Rygbi Blaendulais sy'n cynnal un o'r casgliadau mwyaf amrywiol o fflora glaswelltir corsiog yn CNPT. Ymhlith y rhywogaethau sydd i'w canfod yno mae Tamaid y Cythraul, Briwydd y Fign, Tegeirian Brych y Rhos, Tafod y Gors, Triaglog y Gors, Melog y Waun, Saethbennig y Gors, Ysgallen y Ddôl, y Garwy Droellennog, Effros Blodau Mawr, Gwlyddyn-Mair y Gors, Llafn y Bladur, y Sgorpionllys Ymlusgol, a mwsoglau *Plagiomnium elatum* a *Scorpidium cossonii*. Mae Briwydd y Fign yn rhywogaeth brin iawn yn ne Cymru ac felly mae ei phresenoldeb yma yn arwyddocaol iawn, fel y mae presenoldeb Ysgallen y Ddôl, Melog y Waun a Thafod y Gors, y mae dosbarthiad pob un ohonynt yn gyfyngedig yn y sir.

Mae'r ffaith fod Tamaid y Cythraul yn tyfu'n helaeth yn y dolydd hyn, ynghyd â chysylltedd lleol y dolydd a'r amrywiaeth o blanhigion sy'n cynhyrchu neithdar addas ar gyfer gloynnod byw, a geir ynddynt yn darparu amodau ffafriol ar gyfer metaboblogaethau o Fritheg y Gors. Hefyd, mae adfer cynefinoedd glaswelltir corsiog mewn llanerchau lle cafodd coed Sbrüws Sitka eu llwyrwgwmpo wedi bod yn llwyddiannus yng Nghwm Dulais a gallai hyn arwain at adferiad ehangach y cynefin hwn sydd mewn perygl yn CNPT.

Bydd adnabod, amddiffyn a chadw'r cynefinoedd hyn mewn cyflwr ffafriol yn her allweddol o ran cynllun gweithredu adfer natur CNPT. Rhan bwysig o'r gwaith hwn fydd cyflwyno cyfundrefnau pori cydnaws ac effeithiol a dysgu cymunedau lleol a phawb sy'n ymwneud â nhw am werth y cynefin hwn sydd mewn perygl yn y sir.

Rhai Coetiroedd Collddail Hynafol Nodedig yn Ardal Castell-Nedd a Llansawel

Coetir yw oddeutu 40% o arwynebedd tir CNPT ac er mai planigfeydd conifferau yw'r rhan fwyaf, mae yna hefyd gryn dipyn o goetir Derw hynafol, lled-naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn cynnwys llwybrau da ac mae llawer ohonynt yn cynnig mynediad hwylus. Mae darn sylweddol o goetir Derw hynafol, a reolir gan Coed Cadw, ar lethr dwyreiniol Mynydd Drumau rhwng Maesmelin a Dyffryn. Mae safle Coed Maesmelin yn enwog oherwydd ei boblogaeth o'r Chwilen Ddaear Las, sef rhywogaeth goetir sy'n brin ar lefel genedlaethol ac sy'n un o'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd â Choed Darran a Choed Dyffryn gerllaw, coed Derw Mes Di-goes yw'r nodwedd amlycaf yng Nghoed Maesmelin ynghyd â choed Celyn, Bedw Arian a Chriafol toreithiog hefyd. Ceir rhwydweithiau helaeth o lwybrau yn y coetiroedd hyn sy'n caniatáu i bobl fwynhau bywyd gwyllt mewn amgylchedd tawel. Mae Coed Tyn yr Heol, y gellir ei gyrraedd o Heol y Dyffryn, yn goetir hyfryd ar lawr y dyffryn ar lan afon Clydach ger Bryncoch. Yn y gwanwyn, mae'r fflora daear lliwgar yma yn llawn Clychau'r Gog, Craff y Geifr, yr Eglyn Cyferbynddail, Blodyn y Gwynt a'r Farddanhadlen Felen, y gallwch eu gweld trwy gerdded o Heol Dyffryn i'r ffordd fawr yn y gwanwyn neu ar ddechrau'r haf.

Ardal goetir yw Parc Gwledig Craig Gwladus uwchben Cil-ffriw a Llangatwg, ryw ddwy filltir o dref Castell-nedd. Mae cyfleusterau parcio rhesymol yno sy'n cynnig mynediad at yr hen dramffordd. O'r fan honno, gallwch gerdded yn hamddenol ar lwybr syth o dan lethr serth a choediog. Wrth i chi gerdded tua'r gorllewin, fe welwch arosfannau sy'n cynnig golygfeydd gwych dros Gastell-nedd a'r cyffiniau. Mae'n werth sefyll i gael golwg ar yr holl goetir collddail lled-naturiol sydd yn y rhan hon o'r sir. Mae brigiadau creigiog o Dywodfaen Pennant i'w gweld ar lethr y coetir sy'n wynebu'r de ac mewn rhai manau, mae'r creigiau lle mae dŵr yn diferu wedi'u gorchuddio â bryoffytau. Mae'n werth nodi bod y rhain yn cynnwys llysiâu'r afu ucheldir, y Codlys Traphlith a'r Rhydlys Hiciog, ynghyd â chlustogau gwyrdd tywyll trawiadol mwsogl *Amphidium mougeotii*. Mewn sawl man, gwelir tonnau mawr o Goedfrwyn Mawr a nifer llai o Goedfrwyn Blewog, sy'n ddangosydd da o goetir hynafol. Ar ddiwedd y gwanwyn, mae Clychau'r Gog yn drawiadol, yn enwedig yn y blanhigfa Ffawydd y gellir ei chyrraedd trwy gerdded tua'r dwyrain ar hyd y dramffordd, ac mae'r ardal gyfan yn seinio i gân y Robin, y Fronfraith, yr Aderyn Du, y Telor Penddu a'r Siff Siaff. Gallwch adael y dramffordd a cherdded i fyny i'r coetir serth i gyrraedd llwybr uwch a fydd yn eich arwain i ganol coetir derw hynafol Craig Gwladus, lle mae rhai clystyrau o Flodau'r Gwynt. Os byddwch yma ym mis Mai neu fis Mehefin, fe allech weld neu glywed Telor y Coed.



RHAI SAFLEOEDD ARBENNIG YN CNPT

Rhai Coetiroedd Colldail Hynafol Nodedig yn Ardal Castell-Nedd a Llansawel

Yn y gorffennol, mae'n rhaid bod coedwig fawr a thrawiadol o goed derw wedi ymestyn yn ddi-dor rhwng Tonna a Baglan, y mae ei gweddillion i'w gweld heddiw yng Nghoed y Wenallt, Tonna, Cwm Cryddan a Llansawel. Mae Cwm Cryddan, ym Melin Cryddan, yn Warchodfa Natur Leol. Mae modd cerdded ar hyd Heol y Ffowndri gan ddilyn Nant Cryddan i ganol y cwm lle mae coed hynafol yn gorchuddio'r llethrau serth sy'n wynebu'r dwyrain a'r gogledd. Gwelir Clychau'r Gog a Suran y Coed yma yn aml ond mae yma hefyd welyau lleol o Flodau'r Gwynt a Bresych y Cŵn, sy'n llai cyffredin yng nghoetiroedd derw'r dyffrynnoedd. Ym mhen pella'r ffordd fynediad gyhoeddus, mae coed derw yn tyfu ar ochr y cwm sy'n wynebu'r de lle mae cae o Laswellt y Gweunydd yn nodwedd hynod. Ar yr ochr draw, bydd llwybr cul ac anwastad yn eich arwain i fyny i Goed Cupola, sef coetir hynafol o goed Derw Mes Di-goes, gyda Llus a Grug yn tyfu odanynt, sydd wedi'i gynnwys ar rai o'r mapiau cynharaf o Gastell-nedd a'r cyffiniau.

Mae Coed Llansawel (ac ardal Coed Baglan gerllaw) yn ddarn helaeth o goedwig, ar y llethrau sy'n wynebu'r gorllewin o dan Fynydd y Gaer, sy'n cynnwys coetir derw hynafol yn gymysg â'r planigfeydd coed Ffawydd a Phinwydd yr Alban. Bydd ffordd goedwig, y mae modd ei chyrraedd o'r tu ôl i Barc Jersey yn Llansawel, yn eich arwain trwy goetir Ffawydd hyfryd iawn i'r coetir Derw Mes Di-goes sy'n ymestyn o amgylch Mynydd y Gaer i ben gogleddol Baglan. Mae ffyngau coetir yn aml yn doreithiog yn y coedwigoedd ffawydd hyn yn yr hydref. Os dilynwch ffordd y goedwig, cewch eich arwain ymhen tipyn at hen Gronfa Ddŵr Cefn Cwrt, sydd wedi'i hamgylchynu gan goetir ar ei llethrau gogleddol a dwyreiniol lle ceir llus a grug yn debyg i Goed Cupola.



Chwilen Ddaear Las © Liam Olds



Wood Anemone

Lleiniau Ymyl Ffordd a Chylchfannau

O ganlyniad i newidiadau mewn arferion amaethu, moderneiddio a datblygu, mae glaswelltiroedd mesotroffig cyfoethog eu rhywogaethau, megis gweirgloddiau traddodiadol, bellach yn brin iawn yn CNPT ac yn adnodd sy'n prinhau yng Nghymru yn gyffredinol. O'u rheoli'n gywir, gall lleiniau ymyl ffordd gyflawni rôl debyg o ran bioamrywiaeth ac er nad ydynt yn ateb perffaith, maen nhw'n dod yn noddfa bwysig i blanhigion glaswelltir a'r pryfed sy'n byw ynddynt.

Mae'r enghreifftiau da yn CNPT yn cynnwys y lleiniau ar ymyl yr A483 ger Jersey Marine ac Earlswood, y lleiniau ar hyd y Rhodfa Ganolog ger y Ceiau, ymylon Ffordd yr Harbwr ger Margam a Chylchfan Saltings ger Mynachlog Nedd. Yn yr holl fannau hyn, mae rhywogaethau megis y Llygad-Ilo Mawr, y Bengaled, y Ffacbysen, Pysen-y-ceirw, y Feillionen Goch a Chrafanc Brân y Gweunydd yn ffurfio cymunedau lliwgar sy'n adnoddau pwysig ar gyfer pryfed peillio fel gwenyn, gloynnod byw a phryfed hofran, yn ogystal â llawer o bryfed eraill, megis chwilod a cheiliogod y rhedyn. Mae'n ddiddorol nodi hefyd bod rhywogaethau sy'n gallu goddef halen, fel Llwylys Denmarc, y Troellig Arfor Bach a Llyriad Corn y Carw i'w gweld fwyfwy ar ymylon y lleiniau hyn. Mae'r rhywogaethau hyn yn nodweddiadol o laswelltiroedd morfa heli, ond maen nhw wedi cytrefu ochrau'r lleiniau ymyl ffordd sydd wedi cael eu cyfoethogi gan halen yn sgîl gwaith graeanu dros y gaeaf. Mae niferoedd mawr iawn o Lwylys Denmarc yn ymddangos ar hyd yr A465 ger Jersey Marine lle mae'r blodau gwyn a lliw lelog gwan yn ffurfio sioe drawiadol o liwgar yn y gwanwyn. Nodweddiad eraill y lleiniau ymyl ffordd sy'n werth eu nodi yw'r arddangosfa wych o Friallu Mair a geir ar Gylchfan Saltings. Mae mwy na 100 o rywogaethau o blanhigion glaswelltir yn tyfu yma, gan gynnwys nifer bach o'r Tegeirian Bera sydd mor ddeniadol.

Mae gan y llain gyfoethog ei rhywogaethau ar ymyl yr A483 ger Jersey Marine boblogaethau amlwg iawn o Lygaid-Ilo Mawr a Blodyn Ymenyn Bondew ynghyd ag ambell stribyn o Degeirian y Wenynen a'r Bwrned Mawr. Gwelir y Ceirchwellt Blewog a'r Ceirchwellt Melyn yn tyfu ymysg y Ceirchwellt Tal, y Maswellt Penwyn a Throed y Ceiliog sy'n fwy cyffredin. Mae'r ddwy rywogaeth hyn sy'n gymharol anghyffredin yn CNPT yn manteisio ar y tywod calchaid sydd ym mhriddoedd ein lleiniau ymyl ffordd arfordirol.

Mae banciau o ymylon llawn blodau ar hyd y Rhodfa Ganolog, yn enwedig yn ymyl y draphont ger y rheilffordd. Mae llawer iawn o blanhigion Plucen Felen, sef bwyd y Glesyn Bach, yma gyda Phig-yr-aran y Gwrych, y Friwydd Felen, Briwydd y Clawdd, Arian y Gwair, Tafod y Llew, y Llygad Doli, yr Ytbysen Feinddail a nifer o rai eraill. Gwelir sioe debyg ar hyd ymylon Ffordd yr Harbwr yn yr haf, lle ceir hefyd boblogaeth hynod o'r Gorfanhadlen Walchlys sy'n parasiteiddio ar Dafod y Llew yno. Mae hon yn rhywogaeth brin iawn ym Mhrydain a'r poblogaethau yn CNPT yw'r unig rai yng Nghymru.

Caiiff lleiniau ymyl ffordd CNPT eu rheoli fwyfwy er mwyn gwella eu hamrywiaeth o flodau gwyllt a phryfed peillio yn unol â chynllun Caru Gwenyn CNPT (gweler Caru Gwenyn CNPT).



Planigfeydd Conifferau

Coetir a phrysgwydd yw tua 40% o arwynebedd tir CNPT a phlanigfeydd conifferau yw'r rhan helaethaf o hynny. Ceir blociau mawr o goedwig gonwydd yn y Creunant, Rheola, Glyncastell, Margam a Pharc Coedwig Afan (sy'n cynnwys coedwigoedd Michaelston a Phelena). Darperir mynediad am ddim i'r cyhoedd trwy gatiâu'r goedwig, ond gall fod prinder lleoedd parcio a gellir cyfyngu ar fynediad i rai mannau ar adegau penodol o'r flwyddyn pan fydd gwaith coed ar waith. I'r sawl sy'n hoff o gerdded neu feicio, mae llawer o fywyd gwyllt diddorol i'w weld ar hyd y ffyrdd coedwig a hen lein y rheilffordd. O ganolfan ymwelwyr Parc Coedwig Afan ger Cynonville, lle ceir maes parcio talu ac arddangos mawr, mae nifer o lwybrau yn caniatáu i chi fwynhau amgylchedd y blanhigfa. Mae modd parcio am ddim yn Rhyslyn (Pontrhydyfen) gerllaw.



Coed Sbrîws Sitka yn bennaf sydd yn y fforestydd llawn dwf yn ein planigfeydd. Maen nhw'n gynefin bridio i adar megis y Gylfingroes, y Llinos Bengoch Fechan, y Pila Gwyrdd, Boda'r Mêl, y Bwncath a Gwalch Marthin, tra bod casgliadau o adar amrywiol yn y prysgwydd a'r dryslwyni conifferau, gan gynnwys Telor yr Helyg, Telor yr Ardd a'r Llwydfon. Mae ardaloedd wedi'u llwyrgympo yn bwysig ar gyfer poblogaethau o Droellwyr Mawr a Chorhedyddion y Coed sy'n bridio yno yn ystod yr haf ac ambell Gigydd Mawr yn ystod y gaeaf. Mae'r cynefin hwn yn bwysig hefyd ar gyfer mamaliaid bach (e.e. llygod pengrwn) ac ymlusgiaid. Drwy fynd am dro hamddenol yn gynnar yn y bore ar hyd ffyrdd coedwig mewn unrhyw rai o'n planigfeydd bydd cyfle i weld a chlywed nifer o adar a gweld ambell Ddanas o bosib.

Mae milltiroedd o ffyrdd a lwybrau coedwig yn croesi'r planigfeydd hyn ac mae'r cloddiau, y ffosydd a'r lleiniau ymyl ar hyd-ddynt yn gynefin i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Mae'r lleiniau ymyl ffordd yn aml yn gyfuriog o blanhigion blodeuol a'r adeg orau i gerdded yno yw ar ddiwrnodau tawel rhwng diwedd y gwanwyn a'r haf pan allech chi weld y Fritheg Berlog Fach, yr Argws Brown, y Gwibiwr Llwyd a Gweirloynnod Bach y Waun, sydd i gyd yn rhywogaethau â blaenoriaeth yn CNPT. Yn fwy cyffredin, byddwch yn dod ar draws nifer mawr o'r Glesyn Cyffredin, Iâr Fach y Glaw a Llwyd y Ddôl. Yn nes ymlaen yn yr haf, mae Llysiau'r Angel, yr Helyglys Pêr, yr Helyglys Hardd a'r Byddon Chwerw, sy'n llenwi'r haenau llysiau tal, yn denu nifer mawr o bryfed hofran a gwenyn, ac yn aml gellir gweld hebogwyr mawr, yn enwedig Gwas y Neidr Eurdorchog a Gwas Neidr y De, yn patrolio'u tiriogaeth ar hyd ochrau'r ffyrdd. Pan fydd yr haf yn ei anterth, mae gweision neidr y Picellwr Cribog a'r Wäell Gyffredin i'w gweld yn aml ar hyd y ffyrdd coedwig.

Mae llawer o blanhigion sy'n rhywogaethau â blaenoriaeth yn ein planigfeydd, megis y Clychlys Dail Eiddew, sydd i'w ganfod yn aml ar fanciau uwchlaw ffosydd gwlyb gyda Gwlyddyn-Mair y Gors a'r Cycyllog Bach, yn ogystal â'r Cnwp-fwsogl Alpinaid, y Cnwp-fwsogl Mawr a'r Cnwp-fwsogl Corn Carw, a geir yn bennaf mewn cynefinoedd gweundir a rhostir iach ar y llwyfandiroedd uchel. Gwelir amffibiaid megis y Broga Cyffredin a'r Fadfall Ddŵr Balfog yn y pyllau bach sydd yn y planigfeydd, ynghyd â gweision neidr y Picellwr Praff a'r Picellwr Pedwar Nod.



Dyffryn Cwm Du

Mae Dyffryn Cwm Du yn agos at Ganol Tref Pontardawe a cheir mynediad iddo o sawl man ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r prif lwybr (ag arwyddion) sy'n dechrau ger y Groes. Mae'r safle'n adnabyddus fel ardal werthfawr o safbwynt estheteg a bioamrywiaeth gyda'i choetir serth ar lannau'r afon sy'n gorchuddio rhan isaf pen Uchaf Cwm Clydach. Mae dwy ochr y Dyffryn yn cynnal coetir collddail hynafol lled-naturiol sy'n cynnwys cyfoeth o blanhigion. Cymysgedd o goed brodorol ac anffodorol a geir yn bennaf ym Mhlanhigfa Glanhyd, uwchben y Dyffryn ar yr ochr orllewinol. Cofnodwyd mwy na 230 o rywogaethau o blanhigion yn y Dyffryn, gan gynnwys planhigion fasgwlaidd (planhigion blodeuol a rhedyn) a chasgliad cyfoethog o fryoffytau (oddeutu 90 o rywogaethau).

Mae'r afon yn gynefin pwysig ar gyfer Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd ac ambell Las y Dorlan, sydd i'w gweld yn gyffredin o'r prif lwybr mynediad. Mae'r baw dyfrgi a welir ar greigiau ar lan yr afon yn arwydd bod Dyfrgwn yn defnyddio'r safle hefyd. Mae'r creigiau gwlyb ar y glannau'n cynnal amrywiaeth o fryoffytau, gan gynnwys rhywogaethau cyffredin, amlwg fel y Ffrydlys Cyffredin, yr Afuad Mawr Pêr, y Dyfrfwsogl Mawr a'r plufwsogl *Hyocomium armoricum*, yn ogystal â rhywogaethau sydd i'w canfod yn anfynych ar lefel genedlaethol megis *Fissidens rufulus*, *Schistidium platyphyllum* a'r Fforchfwsogl Melynaidd .

Prif nodwedd y coetir ar lannau'r afon yw coed Gwern, ynghyd â choed Ynn a Llwyfennau Llydanddail amlwg mewn manau. Mae'n werth nodi bod nifer o rywogaethau dangosol coetir hynafol yn amlwg yma, megis Clychau'r Gog, Clust yr Arth, y Farddanhadlen Felen a Blodyn y Gwynt. Ymhlith y rhywogaethau eraill amlwg mae'r Hesgen Blodau Anghyfagos, yr Hesgen Bendrom, y Goedfrwynen Fawr a'r Eglyn Cyferbynddail.

Derw Mes Di-goes yw nodwedd amlycaf y coetir ar lethrau serth y dyffryn, ond mae coed Bedw, Ynn, Sycamorwydd, Celyn, Criafol, Ffawydd ac ychydig o goed Cyll yma hefyd. Nid yw'r Sycamorwydd na'r Ffawydd yn frodorol i'r Dyffryn, ond cynrychiolir y ddwy rywogaeth gan rai coed llawn dwf mawr. Mae'r rhywogaethau yn yr haen lysiau yma yn cynnwys Suran y Coed, Llysiau Steffan, Clychau'r Gog ac amrywiaeth o rywogaethau o redyn. Mae'r Saetslys Palfog, sef math o lys yr afu sy'n anghyffredin yn ne Cymru, i'w ganfod ar foncyffion dirisgl yn y dyffryn. Mae'r coetir ar ochr ddwyreiniol y dyffryn, ger (ac uwchben) rhaeadr Gelligron yn cynnal Gwibredyn toreithiog a chlystyrau deniadol o Farchrawn y Coed. Ceir gweirdir helaeth o Farchrawn y Coed ar dir uwchben y rhaeadr lle ceir poblogaeth o'r Gliniogai hefyd.

Mae diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf yn amser da i ymweld â Dyffryn Cwm Du pan fydd modd gweld a chlywed ein holl adar coetir cyffredin, ynghyd â rhai adar mudol nodedig, megis Telor y Coed a'r Gwybedog Mannog. Mae Dyffryn Cwm Du yn cynnal cynefinoedd sy'n addas ar gyfer ystlumod sy'n clwydo ac mae'r safle cyfan yn cynnig cyfleoedd bwydo rhagorol.

Cafodd rhai gwyfynod sy'n brin ar lefel genedlaethol, megis Crych Blomer a'r Wensgod Fawr, eu cofnodi gan Grŵp Cofnodi Gwyfynod Morgannwg yn Nyffryn Cwm Du yn 2002. Mae'r Wensgod Fawr, sy'n rhywogaeth â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, yn dibynnu ar y Llwyfenni Llydanddail sy'n tyfu yn y Dyffryn. Mae gwyfynod eraill ag arwyddocâd lleol a gofnodwyd yn Nyffryn Cwm Du yn cynnwys y Seffyr Sgolpiog, yr Adain Ddeifiog, Gwalch-wyfyfyn Bach Helyglys, y Bidog Yswydd a Thrwynog y Rhos.



Dyffrynnoedd Nedd Fechan a Phyrddin

O'i fan cychwyn ym mhentref bach Pontneddfechan yng ngogledd-ddwyrain CNPT, bydd llwybr poblogaidd iawn yn eich arwain ar hyd ochr yr afon i amgylchedd fforest law dymherus sy'n enwog am ei fioamrywiaeth a'i olygfeydd hardd. Mae lleoedd parcio ar gael ar hyd Heol Pontneddfechan ac oddi yno gallwch gael mynediad i'r llwybr y tu ôl i Dafarn yr Angel a fydd yn eich arwain i ran isaf Bro Nedd Fechan. Byddwch yn camu ar unwaith i dirwedd Geltaidd lle mae'r afon yn ffurfio'r ffin rhwng CNPT a Phowys. Mae'r gwely tywodfaen trwchus yma, o'r enw 'Craig Ffarwel' yn nodi diwedd yr Haen Lo - yn ffarwelio â'r glo. O'r fan hon ymlaen fe welwch feini mawr cyfres Grut Melinfaen yn yr afon, un o'r ychydig leoedd yn CNPT lle mae'r math hwn o graig wedi dod i'r golwg. Mae Llwyfenni Llydanddail, Pisgwydd Dail Bach, coed Ynn a Gwern i'w gweld ar hyd y dorlan gyfoethog ei bryoffytau a'i rhedyn. Mae Craff y Geifr, Clychau'r Gog, Blodau'r Gwynt, Rhwyddlwyn y Coed a'r Friwydd Bêr yn aelodau amlwg o blanhigion y coetir ar lannau'r afon, ac mae'r Siglen Lwyd, Bronwen y Dŵr a'r Hwyaden Ddanheddog yn rhai o'r adar y gallech eu gweld ar yr afon. Mae coetiroedd mwsoglyd y dyffrynnoedd hyn yn nodweddiadol o goetiroedd Derw Mes Di-goes llaith yr ucheldir a ddisgrifir weithiau fel fforestydd glaw tymherus. Gwelir y Gwybedog Brith yma yn y gwanwyn a'r haf ac mae hwn yn un o'r ychydig safleoedd lle mae'r aderyn hwn yn dal i fridio yn y sir.

Ymhen amser, bydd llwybr glan yr afon yn cyrraedd pont sy'n croesi'r afon ac yn caniatáu i chi ddilyn afon Nedd Fechan i mewn i Bowys. Drwy aros ar yr ochr orllewinol, sef ochr CNPT, mae'r llwybr bellach yn dilyn Afon Pyrddin ac yn eich arwain yn gyflym at fan lle gallwch weld Sgwd Gwladus, un o raeadrau enwog y dyffrynnoedd blaenddwyr hyn. Yma, mae'r hinsawdd oer a llaith yn creu'r amodau perffaith ar gyfer casgliadau o lysiau afu Iwerydd a hypergefnforol, megis y Dueglys Pigog, Dueglys Iwerydd, y Llychlys Perlog a'r Llychlys Danheddog, ac mae'r llethrau coediog serth yn cynnal fflora daear y fforest law Geltaidd lle mae mwsoglau yn nodweddiadol amlwg, fel mwsogl migwyn Sphagnum quinquifarium, nad yw'n tyfu yn unman arall yn CNPT.

Mae'r fflora ger y rhaeadr yn rhyfeddol ac yn cynnwys nifer o rywogaethau boreal megis Gwalchlys y Gors, y Rhedynen Gorniog, *Blindia acuta*, a Mwsogl yr Haf. O dan wyneb gwlyb y graig mae cytref fawr o fwsogl euraid hardd *Breutelia chrysocoma* a phoblogaeth fach o'r Pabi Cymreig sy'n hysbys yn y fan hon ers blynnyddoedd, fwy na thebyg yn ei unig leoliad brodorol yn y sir.

Mae'n mynd yn anodd dilyn Dyffryn Pyrddin uwchben Sgwd Gwladus, ac er mwyn cyrraedd y rhaeadr uwch, sef Sgwd Einion Gam, mae'n rhaid croesi'r afon ar droed, sy'n beryglus mewn mannau. Mae'r rhaeadr drawiadol hon yn gollwng i mewn i amffitheatr led-dywyll, laith a niwlog lle mae'r Rhedynen Dridarn a'r Gorfiaeren, sef dwy rywogaeth foreal arall, yn tyfu mewn corneli cysgodol.




Parc Gwledig Ystâd Y Gnoll

Mae Ystâd y Gnoll, a fu'n gartref i deulu entrepreneuriaidd Mackworth yn y ddeunawfed ganrif, ar safle amlwg sy'n edrych dros ganol tref Castell-nedd. Gyda thirwedd goediog, 4 llyn a glaswelltir eang, mae'r parc heddiw yn fan gwyrdd trefol sy'n adnodd pwysig ac yn gyrchfan poblogaidd i breswylwyr ac ymwelwyr â'r dref. Mae digonedd o fywyd gwylt i'w gweld yma ar bob adeg o'r flwyddyn.

Y ffordd fwyaf hwylus i gerbydau gyrraedd y Gnoll yw trwy fynedfa Fairyland sy'n mynd â chi i faes parcio talu ac arddangos helaeth a'r Ganolfan Ymwelwyr gerllaw. Fel arall, mae modd cerdded yno o ganol tref Castell-nedd, gan fynd trwy'r porth coffa a heibio i'r pwll isaf.

O'r Ganolfan Ymwelwyr, gallwch gerdded yn hamddenol o amgylch y llyn mawr (yr ail bwll) lle bydd nifer o lwybrau yn eich arwain oddi yno i ganol y goedwig Ffawydd drawiadol. Mae digon o bethau i gynnal diddordeb teuluoedd ifanc, gyda rhodfa Castanwydd y Meirch sy'n darparu digonedd o 'goncyrs' ar hyd y ffordd at hen Dŷ Mackworth; y Dderwen geubren, sydd wedi goroesi degawdau o blant yn dringo drosti a'r clympiau helaeth o grifft broga a phenbyliaid sydd yn y pyllau a'r ffosydd niferus yn y Parc. Mae llawer o adar gwylt ar y llyn bob amser, gan gynnwys Elyrch Dof, Cwtieir, Ieir Dŵr, Gwyachod Bach, Hwyaidd Gwylt, Hwyaidd Copog a Hwyaidd Danheddog. Ar foreau tawel fe allech chi hefyd weld Rhegen Ddŵr, Crëyr Glas neu Las y Dorlan ac yn y gwanwyn fel arfer, mae'n gyffredin gweld ambell Bibydd y Dorlan ar lan y llyn. Fel arfer, mae arddangosfa ysblennydd o Degeiriannau'r-gors Deheuol i'w gweld ar fancyn glas ar berimedr deheuol y llyn ar ddechrau'r haf. Gallech weld Barcud Coch yn hedfan uwch eich pen ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.



Parc Gwledig Ystâd Y Gnoll

Mae nifer o goed enghreifftiol ardderchog yn y goedwig Ffawydd, a gafodd eu plannu, mae'n siŵr, fel rhan o Ystâd wreiddiol Mackworth. Hefyd, mae llawer o Oestrwydd a nifer llai o Fasarn Norwy yma ac er nad yw'r rhain yn goed brodorol yn y rhan hon o Gymru, maen nhw'n darparu amgylchedd coetir trawiadol serch hynny. Yn yr hydref, mae ffyngau coetir megis Pigau Draenog y Coed, Cap y Melnydd a'r Amanita Benfelen hardd ar lawr y coetir ac yn y gaeaf, mae heidiau o Ji-bincod ynghyd â grwpiau llai o Bincod y Mynydd yn fforio am gnau ffawydd yno. Yn hwyrach yn y gwanwyn, clywir Telor y Cnau yn chwibanu yn y canopi wrth i'r Gnocell Fraith Fawr guro ar foncyffion coed atseiniol. Mae'r Siff Siaff a Thelor y Coed ymhlith y mudwyr haf sy'n bridio yma.

Mae darnau o goetir derw hynafol yn dal i oroesi yn y Ceunant (Dingle) ar lan Nant Preswylfa ac yng Nghoed Mosshouse, lle gwelir ambell Frith Arian yn yr haf a lle mae Brithribiniau Porffor yn hedfan fry yng nghanopi'r coetir. Mae Clychau'r Gog yn drawiadol yn y manau hyn a gallech hefyd weld rhai dangosyddion coetir hynafol eraill megis Blodyn y Gwynt, y Friwydd Bêr a'r Farddanhadlen Felen. Mae'r nentydd bach yn y dyffrynnoedd hyn yn fannau da i weld y Siglen Lwyd a Bronwen y Dŵr.

O'r Ganolfan Ymwelwyr, mae'n braf mynd am dro at lyn uchaf Mosshouse, sef hen gronfa ddŵr nas defnyddir sydd wedi'i hamgylchynu gan goetir tawel sydd wedi'i hollti gan raeadr ffug sylweddol ei maint. Edrychwch am Wybedog Mannog yma a gwrandewch ar drydar Telor y Coed. Bu'r Gwybedog Briith yn bridio yma yn y gorffennol ond nis gwelwyd yn ddiweddar. Ar eich ffordd at yr hen gronfa ddŵr, byddwch yn mynd heibio i ardal lle mae trwch o goed bedw a helyg wedi cymryd lle planhigfa fach o Hemlog y Gorllewin a gafodd ei llwyrwympo yn weddol ddiweddar. Mae coetir collddail yn aildatblygu'n gyflym ar y llain lle mae cân Telor yr Helyg, y Llwydfron, y Telor Penddu a Thelor yr Ardd yn llenwi'r lle tuag at ddiwedd y gwanwyn.

Ar nosweithiau cynnes o haf, bydd ystlumod yn arbennig o brysur o gwmpas yr ail bwll lle mae Ystlumod Mawr ac Ystlumod y Dŵr yn clwydo. Mae'n siŵr eu bod nhw'n cael eu denu gan y niferoedd mawr o wyfynod sy'n hedfan ar yr adegau hyn. Mae trapiau gwyfynod fel arfer yn dal amrywiaeth o rywogaethau yn y parc, sydd wedi cynnwys rhywogaethau anghyffredin Cathan y Gwernos a'r Blaen Brown, yn ogystal â rhywogaethau o walchwyfynod trawiadol a mwy o faint.



Brithribin Porffor



NEATH PORT TALBOT LOCAL NATURE PARTNERSHIP
BATHURATH NATURE LLO, CATTLE NEB PORT TALBOT

RHAI SAFLEOEDD ARBENNIG YN CNPT

ADOLYGU'R DDOGFFEN HON

Bydd Sefyllfa Byd Natur yn CNPT yn cael ei hadolygu eto ymhen pum mlynedd.

Caiff y camau gweithredu a'r rhestr o rywogaethau â blaenoriaeth eu hadolygu bob blwyddyn yng nghyfarfod cyntaf Partneriaeth Natur Leol CNPT yn y Flwyddyn Newydd. Cofnodir unrhyw weithredu yng nghyswllt Camau Gweithredu NRAP yn Atodiad 3.

Os hoffech chi helpu i gyflawni cam gweithredu penodol yn y cynllun, awgrymu adolygiad neu gymryd rhan yn y broses adolygu, anfonwch neges e-bost i'r cyfeiriad biodiversity@npt.gov.uk

ATODIADAU

Atodiad 1: Aelodau'r Bartneriaeth Natur Leol

Atodiad 2: Rhestr o'r rhywogaethau â blaenoriaeth

Atodiad 3: Camau Cynllun Gweithredu Adfer Natur CNPT yn gysylltiedig ag amcanion yr NRAP

Atodiad 4: Enwau'r rhywogaethau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon

Atodiad 5: Y safleoedd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon

Atodiad 6: Rhestr Termau



ADOLYGU'R DDOGFFEN HON